




Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

Adroddiad Blynyddol 2021-2022

Gweithredu heddiw
ar gyfer gwell yfory.



Cynnwys

Pwrpas 1

Amlygu'r heriau a'r materion mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol

Tudalen 18

Pwrpas 2

Cynorthwyo cyrff cyhoeddus i weithredu'r Ddeddf

Tudalen 55

Pwrpas 4

Gweithredu'r Geiriau

Tudalen 106

Symud ymlaen

Cynlluniau ar gyfer 2022-23

Tudalen 118

Pwrpas 3

Adeiladu mudiad dros newid

Tudalen 76

Adroddiad Atebolrwydd

Tudalen 122

Datganiadau ariannol

Tudalen 146



My Magnolia Tree

Gan Taylor Edmonds, Bardd Preswyl

Yn y gerdd hon, mae Taylor wedi dychmygu dyfodol lle mae'r lleoedd yr ydym yn byw ynddynt yn cael eu colli am byth, ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau yn Abertawe ym mis Mehefin 2021, Everything Change, sy'n archwilio rolau creadigrwydd a meddwl ymaddasol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

*All I have left of my great-grandmother is her letters.
While I was taking my first breath
she was watching the storm roll in,
lining the house with an army of sandbags,
willing the river to shush. It had given warning
in the bloat of it, with plastic bags and Stella cans
thrown up onto the grass. I know this
because my grandmother never had secrets.
She began writing me letters long before I existed,
so that I might grow into something good,
something brave.*

I know of all her firsts.

*First school, with the haunted bell tower
and the boys that cornered her in the playground.*

*First pet, a tan Labrador that uprooted
the floor tiles when left alone.*

First fear, of being swallowed by the moon.

*First home, council estate, a magnolia tree
that shed petals of pink snow in spring.*

*Her first kiss, between the rocks at the water's edge,
incoming tide snaking up her legs.*

There are lessons here.

*I dream of Cardiff, where I chase
my grandmother's outline through the back streets,
seek fingerprints on shop windows,
a flash of her on the top deck of a bus.*

*Sometimes, I find her on the green of Bute Park
picking wild garlic, sheltering
from a shower at Central Station,
or clasping a blue bag of fruit on City Road.*

She tells me nothing was an accident.

*The leaders, the people, they rolled
over like spent dogs, yawned above the warnings.*

*All my great-grandmother wanted was to die
an honest woman, on honest land.*

*I will never re-live her firsts,
never see the garden*

*where she planted magnolia
so that I too could hold pink petals of snow.*

*Her underwater city is a skeleton, a shipwreck;
but still, I ache for it.*

*I read her letters to the sky
while the storm rolls in, I line*

the house with an army of sandbags.



Murlun gan: Spike Clark

Rhagair

Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



Mae fy ngweledigaeth i ar gyfer Gymru'n un sy'n cael ei chysylltu drwy goed. Lle mae llwybrau wedi eu palmantu o Amlwch i Aberdâr, Rhyl i Rossilli, nid gan ffyrdd, ond gan ffrwd barhaus o goetir collddail wedi ei goleuo gan sêr yr awyr dywyll. Cymru lle'r ydym yn bwyta ffrwythau'r ddaear, a lle mae gan ein plant foliau llawn a chalonnau cynnes. Cymru lle'r ydym yn cael ein harwain gydol y nos nid gan lygaid cathod ond llygaid draenogiaid a cheirw. Cymru lle'r ydych yn clywed hwtian yn hytrach na chyrn, yn ogleuo pinwydd yn hytrach na llygredd a lle mae'r Gymraeg yn atseinio uwch y tonnau berw. Cymru lle'r ydym yn cyfrif gwenau yn hytrach na darnau o arian ac yn cydnabod ac yn gweithredu ar ein diffygion yn y dasg o greu Cymru sydd mewn gwirionedd yn gwasanaethu pawb. Cymru lle'r ydym yn tyfu coed yn hytrach na'u torri i lawr mewn gwledydd pellennig ac yn agor ein breichiau i'n brodyr a'n chwiorydd o gwmpas y Byd sydd angen cartref. Cymru lle'r ydym yn gweithio a dysgu yn ein mannau gwyrdd ac yn croesawu pawb i fwynhau ein diwylliant a rhannu'r ddaear o dan ein traed.

Mae'r weledigaeth wedi bod gyda mi ers cychwyn fy nhymor fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ac nid yw hynny wedi newid wrth i mi symud i mewn i fy mlwyddyn olaf fel gwarcheidwad y rhai sydd eto i'w geni.

Yr hyn sydd wedi newid yw nifer y bobl sydd wedi ymuno â mi ac eraill yn y weledigaeth hon a'r daith hon tuag at Gymru well i'n pobl a'n planed. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae llawer o bobl wedi teimlo'n angerddol am genedlaethau'r dyfodol ond wedi darganfod bod eu hangerdd wedi ei lyffetheirio gan sefydliadau'n gwrthod newid. Yn awr, rydym mewn sefyllfa gydag eiriolwyr sy'n llai rhwystredig ac mae'r nodau llesiant yn treiddio i mewn i'n DNA.

Eleni rydym hefyd wedi gwneud cynnydd gyda sefydliadau tu allan i gyrff cyhoeddus. Mae busnesau wedi ailddiffinio'r hyn y mae datblygu cynaliadwy a llesiant yn ei olygu i'r sector preifat drwy wneud y fframweithiau llesiant yn rhan annatod o benderfyniadau a wneir ganddynt o ddydd i ddydd. Rydym eto i argyhoeddi pawb ein bod wedi darganfod y llwybr tuag at wir hapusrwydd i bawb, ond ni ellir nacáu bod yna fudiad dros newid, ac mae lleisiau'r bobl yn profi i fod yn bwerus.



Wrth i ni ddod allan o gyfnod pandemig Covid-19 ac ail flwyddyn o aflonyddwch digynsail a chynnydd mewn anghydraddoldebau, mae gennym deimlad newydd o undod ac awydd i symud ymlaen yn hytrach na mynd yn ôl i'r status quo. Drwy ymdrech a chaledi, gwnaethom ddarganfod arloesedd a chydweithredu tu hwnt i'r hyn yr wyf wedi ei weld o'r blaen. Ac rwyf o'r farn fod yr ymagwedd wahanol a fabwysiadwyd gennym ni yma yng Nghymru drwy'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, un o bartneriaeth a chydweithrediad, un o ymgyfraniad dinasgyddion ac un o ystyried llesiant ehangach, wedi bod yn ffactor arwyddocaol yn yr ymagweddau gwahanol a mwy effeithiol a fabwysiadwyd gennym yn ystod y pandemig. Gwnaethom weithio gyda'n gilydd ar Brofi, Orlhain a Diogelu, ar fabwysiadu ymagwedd 'gadael neb ar ôl', ar ddileu digartrefedd bron yn gyfangwbl, ac ar gaffael offer angenrheidiol gyda'r bwriad o gyflawni gwerth cymdeithasol ehangach.

Tra'n bod yn gwybod bod y pandemig hefyd wedi amlygu methiannau polisi hirdymor, er enghraifft mynd i'r afael â'r niwed ehangach i iechyd, ac wedi'n gadael â heriau enfawr i'w hwynebu mae'n rhaid i ni ffocysu ar ddiwallu awydd a thanio'r rhai sydd ag archwaeth am newid gwirioneddol er mwyn cwrrdd â'r heriau ac achub ar y cyfleoedd sy'n ein hwynebu.

Un o'r heriau mwyaf yw'r bygythiad i'n planed a'n llesiant. Rydym yn parhau i fod mewn sefyllfa cod coch i ddynoliaeth ac rydym yn rhedeg allan o amser i atal niwed na ellir ei wrthdroi.

Mae gennym 8 mlynedd ar ôl i achub y blaned, ac yn seiliedig ar ragfynegiannau presennol mae Gweinyddiaeth Hinsawdd newydd Llywodraeth Cymru'n dangos bod y Llywodraeth yn gwella'n tasg o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn sylweddol. Ond maen nhw'n chwarae dal i fyny. Er gwaethaf yr ymrwymiad cryf iawn, penderfyniadau dewr, a'r newid mewn penderfyniadau polisi ac adnoddau, yn seiliedig ar ymrwymadau presennol, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi dweud nad ydym yn mynd i gyflawni ein targedau 2030 ac nad yw Cymru ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i gyflawni lleihad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050, heb sôn am sero-net.

Ac mae'r darlun yn fwy gofidus mewn cyrff cyhoeddus eraill. Mae bron i bob rhan o Gymru wedi datgan amrywiad o argyfwng hinsawdd neu natur, sydd i'w groesawu, ond dim ond amnaid yw hyn o gofio bod 80% o'n cyrff cyhoeddus heb gynlluniau datgarboneiddio yn eu lle. Dywed hyn wrthyf, yn syml iawn, nad ydym yn symud yn ddigon cyflym. Mae'r offer gyda ni, ac mae gennym yr ysfa, yn awr mae arnom angen cyflymu ein gweithredu i sicrhau bod y cyfeiriad newydd clir oddi wrth y Llywodraeth yn cael ei gyflawni ar lawr gwlad.

Golyga hyn ddargyfeirio ein tanwydd ffosil, ail-lunio sut a phryd i deithio, ail-wylltio'n tiroedd, ac ymladd anghydraddoldeb ym mhob man. Oherwydd nid ein planed yn unig sy'n dioddef, ond ein pobl hefyd.

Rydym yn gweld effeithiau ein diffyg gweithredu, a diffyg meddwl am atal yn yr hirdymor. Mae costau byw yn aros yn her sy'n debygol o waethygu. Ond nid digwyddiad alarch-ddu yw'r argyfwng costau byw. Cafodd ei ragweld yn glir, a gellid bod wedi ei atal. Petaem wedi bod yn fwy penderfynol a dewrach yn ein buddsoddiad mewn ynni adnewyddol ac wedi ôl-osod ein cartrefi, wedyn mae'n debygol na fyddem yn gweld yr un argyfwng costau byw ag yr ydym yn awr; byddai gennym lai o bobl yn poeni am wresogi eu cartref a rhoi bwyd ar y bwrdd.

Mae angen i hyn fod yn ein hatgoffa o ddifri bod y penderfyniadau a wnawn - neu na fyddwn yn eu gwneud - yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau ein cymunedau ac iechyd ein planed. Mae hefyd yn ein hatgoffa bod angen i ni weithredu'n awr i atal problemau rhag codi yn sgil natur newidiol gwaith. Gwyddom na fydd angen llawer o'r swyddi sydd gennym heddiw yn y dyfodol wrth i ni newid i economi gwyrdd sy'n cael ei arwain gan dechnoleg, ond ni allwn adael pobl ar ôl yn y cyfnod pontio. Rydym mewn perygl o ddwysáu'r anghydraddoldebau presennol oherwydd y bwlch sgiliau a'r bwlch rhywedd mewn swyddi sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Wrth i'n poblogaeth heneiddio, rydym hefyd yn gwybod y bydd yna faich gofal ychwanegol, y rhan fwyaf ohono'n disgyn ar fenywod yn ein cymunedau. Felly, rhaid i ni edrych ar y nodau llesiant a'r dulliau o weithio i greu datrysiadau cysylltiedig sy'n cyrraedd ein targedau. Mae hynny'n golygu deall manteision iechyd ac amgylcheddol cartrefi sy'n effeithlon mewn ynni a chaffael, lleihau costau trafnidiaeth a mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, i gyd tra'n bod hefyd yn uwchsgilio ein gweithlu a chyfeirio adnoddau at bobl ifanc, menywod a phobl o liw, pobl anabl, a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad swyddi. Gwyddom y gall y bydd yna golli swyddi ac amseroedd caled o'n blaenau, ac felly rhaid i ni barhau i gefnogi ein cymunedau gydag incwm sylfaenol cyffredinol ac wythnosau gwaith byrrach a allai greu miloedd o swyddi.



Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi troi'r hyn a wyddom wyneb i waered, ac wedi gofyn i ni newid rheoliadau, newid fframweithiau polisi a newid y modd yr ydym yn dyfarnu cyllid. Am amser mor faith rydym wedi cael ein gwobrwyo am weithredu yn y tymor byr ac wedi tyfu i fyny gydag atebion cyflym i'n problemau. Byddai'n naif i feddwl y gallai hyn i gyd newid dros nos o ystyried ei fod wedi ei wreiddio mor ddwfn yn ein diwylliant. Ond mae'r Ddeddf wedi bod gyda ni am 7 mlynedd yn awr. Nid oes unrhyw esgus dros ddiffyg gweithredu.

Wrth symud ymlaen mae'n rhaid i ni ymladd yn erbyn y status quo a herio'r pethau arferol yr ydym wedi eu dysgu am y ffordd y dylai'r Byd redeg. Bydd hyn yn anghysurus ar adegau, ond yr hyn sy'n fwy anghysurus yw'r rhagolygon ar gyfer dyfodol ein planed.

Mae'n well gen i fy rhagolygon i fy hunan ar gyfer ein planed - un sy'n gyfartal, llewyrchus, cysylltiedig, iach, cydnerth, yn llawn o ddiwylliant, ac yn wirioneddol fyd-eang.

Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
13 Gorffennaf 2022





Mudiad cynyddol dros newid...

Drwy gydol y ddogfen hon mae yna enghreifftiau o'r newidiadau cadarnhaol y mae cymunedau ledled Cymru'n dechrau cael profiad ohonynt fel canlyniad i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cynhwysir ciplun hefyd yma:

- **Llywodraeth Cymru** Symud buddsoddi o gynyddu capasiti ffyrdd i gynnal ffyrdd sydd eisoes yn bodoli, a blaenoriaethu trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yw'r union fath o benderfyniad eofn sydd ei angen ar genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae hyn yn unol â llawer o'r argymhellion a wneuthum yn fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

- Mae **Cyngor Caerdydd** yn gweithredu ar aer glân drwy strategaeth drafndiaeth arloesol, teithio llesol a chynlluniau seiliedig ar le, fel Grangetown Wyrddach. Mae ganddyn nhw fenter Un Blaned, cynllun pum mlynedd diweddar a gyhoeddwyd ar gyfer ei gwneud yn ddinas lân, werdd, ddiogel. Mae Parthau Aer Glân yn arwain at fuddion gwerth £27 am bob £1 sy'n cael ei wario.

- Mae **Amgueddfa Cymru** wedi ymuno â byrddau iechyd i gael celf mewn ysbytai maes pandemig, wedi mabwysiadu presgreibio cymdeithasol yn cynnig, er enghraifft, gasgliadau amgueddfa i rai sy'n dioddef o ddementia.

- Fe wnaeth **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** ennyn ymgyfraniad pobl mewn ffyrdd arloesol newydd – Llundio Fy Mannau Brycheiniog – drwy Minecraft, gan fabwysiadu cynllun datblygu lleol cymdogaeth 20-munud.

- Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe** wedi cytuno i drosglwyddo darn o dir i fenter ddim-am-elw i dyfu amrywiaeth o gnydau. Mae fferm solar hefyd wedi'i sefydlu yn ysbyty Treforys (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) a fydd yn diwallu tua 26% o bŵer Treforys (ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn). Bydd y fferm 4MW yn cyflenwi tua chwarter pŵer Treforys, gan dorri tua £500,000 y flwyddyn o'r bil trydan.

- Mae **Cyngor Abertawe** hefyd wedi torri oddeutu 60% o ôl troed carbon eu cronfa bensiw, ac yn anelu at fod yn ddi-garbon erbyn 2037 drwy leihau faint o arian sy'n cael ei fuddsoddi mewn cwmnïau olew a sefydliadau eraill sydd ag ôl troed carbon uchel.

- Ehangodd **Amgueddfa Cymru** ymgysylltiad â phobl ifanc i greu amgueddfa decach a datblygu eu sgiliau a'u creadigrwydd, trwy gyflogi 'Cynhyrchwyr' ifanc sy'n cyd-gynhyrchu arddangosfeydd, yn ail-fframio polisiâu ac yn cymryd drosodd lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

- Rhannodd **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent a Chyfoeth Naturiol Cymru** arferion da gan gydweithio i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, hyfforddiant llythrennedd carbon, Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent, Seilwaith EV.

- Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** wedi cyflwyno cerbydau wedi'u pweru gan hydrogen a beiciau trydan i annog staff i gerdded, beicio neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus trwy gymhellion fel 'Siarteri Teithio'n Iach'.

- Bu **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** yn cydweithio gyda Choed Cadw ar brosiect i blannu 8,000 o goed brodorol a 1,800 metr o wrychoedd. Bydd y coed yn dod o feithrinfâ goed Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym Mhlas Tan y Bwlch.

- Mae **Cyngor Sir Gaerfyrddin** wedi cynnull disgyblion o 15 ysgol i gefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae disgyblion yn cynnal digwyddiadau, yn codi ymwybyddiaeth o newid hinsawdd, yn arwain gweithredu yn eu cymunedau ac yn rhannu dysgu gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, sydd wedi arwain at greu Maniffesto Gweithredu Hinsawdd Sir Gaerfyrddin. Mae **Ysgol Bro Dinefwr**, Sir Gaerfyrddin hefyd yn ymdrechu i ddod yn garbon niwtral.

- Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** wedi edrych ar fanteision amgylcheddol a chymunedol posibl eu hystadau ac ysbyty newydd.

- Mae **Cyngor Sir Ceredigion** wedi hyfforddi staff mewn 'sganio'r gorwel', wedi ymgorffori cwestiynau'n ymwneud â meddwl am y dyfodol yn eu harolwg, ac wedi datblygu 'Gorwel' gyda 2 Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cyfagos i helpu i bontio bylchau data tymor canolig-hwy.

- Mae **Trafndiaeth Cymru** wedi defnyddio uwchgylchu, aildefnyddio a phrynu dodrefn lleol i ddodrefnu eu pencadlys newydd yn Llys Cadwyn.

- Mae **Cyngor Cymuned y Mwmbwls** wedi cynnwys trigolion mewn cynllun cymunedol, yn seiliedig ar nodau'r Ddeddf. Maent wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac wedi plannu blodau gwyllt, wedi datblygu perllan gymunedol a gwarchodfa natur, ac yn sicrhau bod ynni adnewyddol a lleihau gwastraff yn ganolbwynt gwyliau a digwyddiadau. Mae cynghorau tref eraill fel **Pontypridd, Creunant, Pennard, Criccieth a Llandrindod** yn gwneud pethau tebyg gyda chymorth Un Llais Cymru sydd â swyddogion ymroddedig i helpu.

Rwyf wedi hyrwyddo gwaith [Fforwm Arfordirol Sir Benfro](#), [Aber Food Surplus](#), [GwyrddNi](#), [Cymuned Carbon](#), [Y Gymdeithas Cadwraeth Morol](#) a [Mudiad 2025](#) yn fy nghylchlythyr.

Ac mae yna hefyd lawer o enghreifftiau o fusnesau nad oes yn rhaid iddynt greu adroddiad ar y ddeddf ond sydd yn gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys **Dŵr Cymru** – y busnes mawr cyntaf i alinio â'r nodau llesiant; **Arup** – a'i holl brosiectau wedi'u mapio yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig; a **Bluestone** sydd wedi bod yn defnyddio fframwaith busnes cyfrifol Busnes yn y Gymuned Cymru ac sy'n mabwysiadu cynllun cynaliadwydd sy'n cyd-fynd â'r saith nod llesiant o fewn y Ddeddf.



- Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru'n** parhau i fwrw 'mlaen â'u gwaith carbon positif – gan ffocysu ar gaffael, fflyd, ac asedau sydd i gyd wedi'u hastudio mewn ymdrechion i ddatgarboneiddio.

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020



Dewch i greu'r dyfodol gyda'n gilydd



Sut rwyf yn mesur perfformiad

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â dod â newid i fywydau pobl a newid ymddygiadau. Mae hyn yn gymhleth, yn cymryd amser ac yn her sefydliadol a dynol go iawn.

Rwyf wedi dewis dangosyddion perfformiad sy'n caniatáu i mi a'r rhai sydd am graffu ar fy ngwaith weld sut mae fy Swyddfa yn dylanwadu ar yr esblygiad hwn tuag at Gymru fwy cynaliadwy.

Y mesurau perfformiad strategol ar gyfer fy swyddfa yw:

- Fframio dadl a chael materion ar yr agenda
- Annog ymrwymadau disgysiol gan weinidogion, y Llywodraeth ac eraill
- Sicrhau newid gweithdrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o gwmpas pethau
- Effeithio ar gynnwys ac ymrwymadau polisi
- Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol mewn eraill

Fy rôl

Fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, fy nyletswydd gyffredinol yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rwy'n hyfforddwraig ac yn ffrind beirniadol i gyrff cyhoeddus, byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac unrhyw un a all helpu i gyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Rwy'n cefnogi ac yn herio cyrff cyhoeddus fel eu bod yn croesawu eu dyletswydd ac yn gwella pob agwedd ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol holl boblogaeth Cymru.



Beth mae fy nyletswydd yn ei gynnwys?

Fy nyletswyddau cyffredinol yw:

“Hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn benodol i weithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau maen nhw'n eu gwneud.”

“Monitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni.”

Rwy'n gallu:

- Rhoi cyngor i Gyrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cynnal adolygiadau ar y modd y mae cyrff cyhoeddus yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau
- Gwneud argymhellion yn dilyn Archwiliad

I gyflawni fy nyletswydd gyffredinol, mae gen i ystod o **swyddogaethau a phwerau** penodol:

- Adran 18 (a) Dyletswydd gyffredinol - Hyrwyddo'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- Adran 18 (b) Dyletswydd gyffredinol - Monitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni
- Adran 19 (a) Pŵer - Rhoi cyngor neu gymorth i gyrff cyhoeddus (sy'n cynnwys darparu cyngor ar newid hinsawdd)
- Adran 19 (b) Pŵer - Rhoi cyngor i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- Adran 19 (c) Pŵer - Rhoi cyngor i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â pharatoi eu cynllun llesiant lleol
- Adran 19 (d) Pŵer - Rhoi unrhyw gyngor neu gymorth arall i unrhyw bersonau eraill y mae'r Comisiynydd o'r farn eu bod yn cymryd camau a allai gyfrannu at gyflawni'r Nodau Llesiant
- Adran 19 (e) Pŵer - Annog arfer gorau mewn cyrff cyhoeddus i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- Adran 19 (f) Pŵer - Hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg cyrff cyhoeddus o'r angen i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- Adran 19 (g) Pŵer - Annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd a gyda phersonau eraill pe gallai hyn eu cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion llesiant
- Adran 19 (h) Pŵer - Gofyn am gyngor panel cynghori mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd

- Adran 20 i 22 - Pŵer i gynnal adolygiadau ac i wneud argymhellion. Mae'n ddyletswydd arnaf hefyd i roi cyngor i fyrdau gwasanaethau cyhoeddus ar eu hasesiadau llesiant a'u cynlluniau a'u pwerau drafft i dderbyn copïau o adroddiadau ac i ymgynghori â hwy ar wahanol achlysuron.

Rwyf wedi distyllu'r swyddogaethau a'r pwerau hyn yn bedwar Pwrpas Strategol:

Pwrpas 1

Tynnu sylw at y materion a'r heriau mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol a gweithredu arnynt

Pwrpas 2

Cefnogi a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Pwrpas 3

Adeiladu a bod yn rhan o'r mudiad dros newid sy'n ymwneud â'r Ddeddf.

Pwrpas 4

Gweithredu'r geiriau - ysgwyddo'r newid yr ydym am ei weld mewn eraill.

Mae fy Adroddiad Perfformiad wedi'i strwythuro o amgylch y pedwar pwrpas hwn.

Mae'r datganiadau ariannol yn dangos dadansoddiad o'r gwariant, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r mwyafrif yn mynd tuag at dalu ein pobl a'r costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn ei gyfanrwydd yn rhoi cyfrif o'r hyn yr ydym wedi defnyddio'r cyllid hwn ar ei gyfer - i weithio ar ein pedwar pwrpas strategol, y pethau yr ydym wedi'u gwneud, y cynnydd yr ydym wedi'i wneud, yr allbynnau a'r effaith. Mae'r Adroddiad Atebolrwydd ynghyd â'r Datganiadau Ariannol yn esbonio'r trefniadau llywodraethu corfforaethol ar gyfer fy swyddfa a'r modd yr wyf wedi defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni fy nodau a chyflawni fy swyddogaethau statudol.



Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

Cynhyrchais adroddiad statudol [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ym Mai 2020 ac mae'n parhau i fod yn sylfaen fy ngwaith.

A [thrwyr fersiwn ar-lein ryngweithiol o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020](#), gallwch lywio cymuned Gymraeg ddychmygol a'r adral gyfagos. Dyma weledigaeth lle mae llesiant yn ganolbwynt y broses benderfynu, yn cynnwys sut mae polisiau'n cael eu gwneud a sut mae arian yn cael ei wario. Mae'n dod â bywyd i'r Adroddiad.

Gweithrediad

Mae'n galonogol i weld bod eraill hefyd yn ei ddefnyddio

Eleni rwyf wedi manteisio ar Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol:

- I drwytho'r modd yr wyf yn monitro ac asesu cyrff cyhoeddus, gan edrych i weld sut mae fy argymhellion wedi cael eu gweithredu.
- I roi cyngor i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus.
- I drwytho Adolygiad Adran 20 y gwneuthum ei lansio ym mis Ionawr 2022 i'r modd y mae peirianwaith Llywodraeth Cymru'n rhoi datblygu cynaliadwy ar waith a diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Gan fanteisio'n benodol ar [Bennod 2](#). Gweler tudalen 71.



“ Wrth ddatblygu'n strategaeth hirdymor 'Amgueddfa Cymru 2030' roeddem eisiau sicrhau bod ein cynlluniau'n mynd i'r afael â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar ôl ystyried Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 fe wnaethom benderfynu mapio'n Canlyniadau 2030 (datganiadau sy'n disgrifio beth fydd natur llwyddiant) yn ôl yr argymhellion yn yr Adroddiad... Fe wnaethom ganfod 88 o ddolenni. **”**

Phil Evans, Rheolwr Cynllunio Strategol, Amgueddfa Cymru

“ Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 yn ddogfen ddogfn, drawiadol ac eang, sydd hefyd yn cydnabod y camau niferus sydd eisoes wedi eu cymryd. **”**

Jane Hutt, Gweinidog dros Gyfawnder Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru



“ Dangosodd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a thystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod y Ddeddf yn newid sgysiau a'r ffyrdd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio. **”**

Jane Hutt, Gweinidog dros Gyfawnder Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru



Rhaglen Lywodraethu

Addas ar gyfer y Dyfodol



Dylai Llywodraeth Cymru...

- 1 Buddsoddi mewn swyddi gwyrdd ar gyfer y dyfodol
- 2 Gweithredu ar fylechau rhyw a hil mewn diwydiannau gwyrdd
- 3 Cefnogi a chynyddu'r gweithlu gofalu
- 4 Gosod cynllun buddsoddi tymor hir i ddatgarboneiddio cartrefi Cymru
- 5 Creu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol
- 6 Harneisio pŵer diwylliant i adeiladu'n ôl yn greadigol

Rhaglen Lywodraethu Addas ar gyfer y Dyfodol

Cafodd llawer o'm hargymhellion eu hadlewyrchu hefyd ym manifestos y pleidiau gwleidyddol gan gynnwys Llafur Cymru a Phlaid Cymru cyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021. Mae dros hanner y rhain bellach yn ymddangos fel ymrwymadau yn y [Rhaglen Lywodraethu](#), ac mewn strategaethau fel [Cymru Sero Net](#), a [Llwybr Newydd](#) a gellir eu holrhain i gyngor a roddwyd gennyf i.



Maniffesto y Dyfodol

Rwyf wedi ei gwneud yn glir iawn yn fy nghyngor i'r Llywodraeth ers cyhoeddi fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol bod gennyf ddiddordeb yn y 'beth' a'r 'sut' wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o fewn y Ddeddf ac nad yw datganiadau cyffredinol am gydymffurfiaeth yn ddigon. Mae arnom angen gweld tystiolaeth glir o'r broses benderfynu fel sy'n ofynnol yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ei hun ar Wneud Penderfyniadau Da.

Yn dilyn yr etholiad, rwyf wedi gweld cynnydd yn y broses o osod amcanion a chmau llesiant Llywodraeth Cymru ac rwyf yn falch i weld bod y Llywodraeth wedi parhau i ddilyn fy nghyngor (a nodir ym [Mhenod 4](#)) wrth gyhoeddi'r amcanion a'r Rhaglen Lywodraethu ar yr un pryd.

Buaswn wedi disgwyl gweld mwy o fanylion am weithrediad arfaethedig yr amcanion a'r camau (amserlenni penodol ar gyfer pob amcan o fewn tymor y Senedd a thu hwnt a dyraniadau arfaethedig adnoddau ar gyfer pob un neu o leiaf y prif gamau). Buaswn hefyd wedi hoffi gweld y modd y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r saith maes newid corfforaethol (a nodir yn y [canllawiau statudol](#)) i gyflawni eu hamcanion llesiant.

Yn arbennig, hoffwn archwilio ymhellach y modd y mae peirianwaith llywodraeth yn cynorthwyo ac yn galluogi datblygiad polisi – gan greu cysylltiadau ac integreiddio ar draws Llywodraeth Cymru. Gyda'r trawsnewid i Ysgrifennydd Parhaol newydd (a Llywodraeth newydd) yn 2021-22, mae angen i Lywodraeth Cymru ffocysu o'r newydd ar argymhellion Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal yn berthnasol yn 2022. Buaswn yn disgwyl ei weld yn cael ei ddefnyddio.

“Ta'n bod yn un o'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd llesiant y Ddeddf, rydym ni hefyd yn geidwaid y ddeddfwriaeth a gennym rôl fel arweinwyr yn y gwaith o hybu datblygu cynaliadwy ar draws Cymru.”

“Byddwn yn gwneud ein hystyriaeth o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o'n mecanweithiau presennol a'n datblygiad polisi parhaus.”

“Argymhellion proses– Rwyf wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ystyried yr argymhellion hyn fel rhan o'r gweithredu parhaus i wneud datblygu cynaliadwy'n rhan annatod o egwyddor datblygu cynaliadwy'r Gwasanaeth Sifil. Mae'n hollbwysig bod y Gwasanaeth Sifil, wrth gynorthwyo Gweinidogion Cymru, yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.”

Mark Drakeford,
AS, Prif Weinidog, Hydref 2020

Effaith – sut mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gwneud gwahaniaeth ar y lefel cenedlaethol

Yr argymhellion a wneuthum i Lywodraeth Cymru:

Buddsoddi mewn **natur** a blaenoriaethu cyllid a chymorth i adfer a chreu cynefinoedd a bywyd gwylt ar raddfa fawr.

Buddsoddi mewn **sgiliau a hyfforddiant** i gefnogi'r trawsnewid i ddyfodol gwell, gan greu swyddi newydd gwyrddach.

Datblygu strategaeth **system fwyd** i Gymru gan gysylltu pob rhan o'r system fwyd o'r fferm i'r fforc.

Sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad i **fannau gwyrdd** naturiol o fewn 300 metr i'w cartref.

Ymrwmo i **wyrrddio cymunedau** drwy ddarparu 20% o orchudd canopi coed ym mhob tref a dinas yng Nghymru erbyn 2030.

Treialu **Incwm Sylfaenol**.

Gwneud **tai** yn hawl ddynol.

Gosod targed cenedlaethol ar gyfer **newid moddol** i alluogi pobl i fabwysiadu dulliau teithio carbon isel.

Ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu newydd:

- Sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau i warchod ac adfer bioamrywiaeth.
- Cefnogaeth i gymunedau greu 30 o goetiroedd newydd a chysylltu ardaloedd cynefin.
- Sefydlu cynllun i gefnogi adfer morwellt a chynefinoedd morfa heli ar hyd ein harfordir.

- Helpu meysydd allweddol o'n heconomi i arloesi, tyfu a lleihau eu hól troed carbon.
- Cyflwyno'r Warrant Pobl Ifanc, gan gynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb o dan 25 mlwydd oed.
- Cefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau undeb ddod yn Gynrychiolwyr Gwyrdd yn y gweithle.

- Datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd o ffynonellau lleol yng Nghymru.

- Ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol.
- Datblygu cronfa llwybrau mawr newydd i wella atyniad a bioamrywiaeth ardaloedd ochr yn ochr â phrif lwybrau trafnidiaeth Cymru.
- Creu mwy o fannau gwyrdd cymunedol yng nghanol trefi.

- Creu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o Ogledd Cymru i'r De.
- Dynodi Parc Cenedlaethol newydd ar gyfer Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

- Treialu ymagwedd at yr Incwm Sylfaenol.

- Cyhoeddi Papur Gwyn i gynnwys cynigion ar gyfer hawl i dai digonol gan gynnwys rhenti teg a dulliau newydd o wneud cartref'n fforddiadwy i'r rhai ar incwm lleol.

- Gweithio tuag at ein targed newydd o 45% o deithiau trwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040, gan osod nodau mwy ymestynol lle bo modd.

Yr argymhellion a wneuthum i Lywodraeth Cymru:	Ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu newydd:
Ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad tai a ariennir yn gyhoeddus fod yn garbon niwtral .	Datgarboneiddio mwy o gartrefi drwy ôl-osod, darparu swyddi o ansawdd, hyfforddiant ac arloesedd gan ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol. Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu.
Parhau i arwain y ffordd ar aigylchu a gweithredu uchelgais i ddod yn wlad ddiwastraff, ddi-garbon.	Datblygu cyfleusterau aigylchu cymunedol yng nghanol trefi a hyrwyddo cyfleusterau atgyweirio ac ailddefnyddio i annog siopa diwastraff. Cefnogi 80 o ganolfannau ailddefnyddio ac atgyweirio yng nghanol trefi. Cyflwyno cynllun cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig i gymell busnesau i leihau gwastraff. Deddfu i ddileu'r defnydd o blastig untro sy'n creu'r gwastraff mwyaf. Dod â rhwydwaith o sefydliadau seiliedig ar le at ei gilydd i gefnogi newid diwylliannol mewn busnesau a chymunedau drwy herio pobl i fod yn ddiwastraff.
Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio'n llawn i holl bolisiau, canllawiau a strategaethau Llywodraeth Cymru.	Symleiddio'r broses gweithredu safonau'r Gymraeg. Cefnogi cynnydd yn y manau lle gellir siarad Cymraeg, gan gynnwys gweithleoedd.

Dywedodd Jane Hutt, AS, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, sy'n gyfrifol am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn Llywodraeth Cymru:

“Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 yn ddogfen ddogfn, drawiadol ac eang ei chwmpas, sydd hefyd yn cydnabod y camau niferus a gymerwyd eisoes...”

“Dangosodd yr Adroddiad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bod y Ddeddf yn newid sgysiau a'r ffyrdd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio.”

Effaith – y modd y mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gwneud gwahaniaeth ar lefel lleol

Roedd yna hefyd argymhellion ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill megis awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, byrddau iechyd ac awdurdodau tân ac achub.

Yr argymhellion a wneuthum i gyrff cyhoeddus:	Pa beth sy'n newid fel canlyniad?
Aelodau etholedig a phrif swyddogion cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n ymgymryd â hyfforddiant mewn llythrennedd carbon ac eco-lythrennedd.	Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi trefnu dwy sesiwn fawr ar Lythrennedd Carbon ar draws Gwent ar gyfer partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol. Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill megis Tai Cymunedol Cymru hefyd wedi cael yr hyfforddiant.
Ennill dealltwiraeth drwyadl o allyriadau .	Mae gan dri chwarter yr awdurdodau lleol gynllun gweithredu ar yr hinsawdd ac mae gwaith pellach ar y gweill yn awr mewn cyrff cyhoeddus, sy'n gweithio tuag at ein targedau sero net erbyn 2030.
Symud i ffwrdd oddi wrth gynllunio trafnidiaeth draddodiadol (megis seilwaith ffyrdd) a symud ymlaen at gyfuniad o atebion amgen sy'n cefnogi lleihau allyriadau carbon.	Mae Cyngor Casnewydd yn trefnu bod teithiau bws am ddim yn ystod mis Mawrth er mwyn blaenoriaethu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.
Dylai sgiliau ymwneud â llesiant ehangach, nid â ffyniant economaidd yn unig.	Mae Tîm Cyflogaeth a Sgiliau Cyngor Sir Fynwy yn blaenoriaethu gwella llesiant, er mwyn helpu trigolion i fynd yn ôl i addysg a hyfforddiant.
Dylai amcanion llesiant ar sgiliau fod wedi'u llunio tuag at gyflawni'r holl nodau llesiant yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar 'Gymru Lewyrchus'.	Mae Cyngor RhCT wedi dechrau “Rhaglen Menywod yn Arwain” ar y cyd â mentoriaid a hyfforddwyr, gyda'r bwriad o wella cydraddoldeb rhywedd.

Arweinydd CBS Caerffili Cyng. Philippa Marsden (fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022):

“Rydym yn croesawu'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf a'r llythyr atodol gan y Comisiynydd sy'n amlgu peth o'r gwaith rhagorol sy'n cael ei gyflawni yn y fwrdeistref sirol mewn perthynas â'r Ddeddf.”

“Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r ffordd y mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili wedi gwneud newidiadau radical i'w ffordd o weithio, trwy fabwysiadu ymagwedd gydweithredol seiliedig-ar-le tuag at ffocysu gwasanaethau mewn ardaloedd o amddifadedd uchel fel Parc Lansbury. Hefyd, mae'r adroddiad yn talu clod i'r modd y mae'r cyngor wedi gwneud buddion cymunedol yn rhan annatod o'i raglen Safon Ansawdd Tai Cymru gwerth £260 miliwn, gan arwain at ddarparu cyfleoedd hyfforddi, 44 o leoliadau gwaith, 114 o swyddi parhaol a 58 o brentisiaethau sydd wedi'u creu gyda'r gwasanaeth mewnol, contractwyr allanol a phartner cyflenwi'r cyngor.”

Pwrpas 1

Amlygu'r heriau a'r materion mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol

Yn 2017, pan oeddwn yn newydd i'r rôl, gwneuthum ganfod meysydd ffocws a fedrai gael yr effaith fwyaf ar y weledigaeth a'r nodau llesiant – sy'n gyfwerth â gosod fy amcanion llesiant i fy hunan.

Lleoedd a seilwaith

1. Tai
2. Trafnidiaeth
3. Cynllunio defnydd tir

Pobl a'u cydnherthedd

4. Sgiliau ar gyfer y dyfodol
5. System iechyd a lles
6. Atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)

Mae datgarboneiddio, caffael a chyllido wedi bod yn themau trawsbynciol.

Fel y rhagwelwyd, mae fy ngwaith ar y materion hyn wedi newid o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar gyfleoedd sydd yn aml y tu allan i fy rheolaeth. Rwy'n myfrio'n rheolaidd ar yr effaith yr ydym yn ei chael fel tîm a lle y gellid ffocysu orau ar hynny.

Cefnogi ein hymateb a'n hadferiad yn dilyn COVID

Roedd y pandemig COVID yn un o'r adegau hynny, lle'r adolygais y lle gorau i ffocysu fy nghyngor a fy nghymorth.

Wrth gydnabod bod gennym "gyfle unwaith mewn cenhedlaeth" i ailosod economi Cymru drwy'r buddsoddiad y byddai ei angen ar gyfer cynllun adfer, cyhoeddais [gynllun 5 pwynt](#). Roedd gorgyffwrdd cryf rhwng fy argymhellion â'r [Cynllun Ailadeiladu ac Adfer yn dilyn Covid-19](#) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.

Dyfyniad o'r Cynllun Adfer:

“Drwy adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac adeiladu ar flaenoriaethau presennol yn ein rhaglen lywodraethu, ein nod yw ailadeiladu Cymru yng ngoleuni'r pandemig coronafirws”

Yr hyn a ddywedais yn fy nghynllun 5 pwynt

Datblygu pecyn ysgogiad economaidd sy'n arwain at greu swyddi ac sy'n cefnogi datgarboneiddio cartrefi drwy **adeiladu tai carbon isel fforddiadwy** a buddsoddi mewn rhaglen genedlaethol i wella **effeithlonrwydd** ynni tai sy'n bodoli eisoes.

Buddsoddi mewn dulliau gwell o gysylltu a symud pobl trwy wella **cysylltedd digidol, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus**.

Buddsoddi mewn **sgiliau a hyfforddiant** i gefnogi'r newid i ddyfodol gwell, gan greu swyddi gwyrddach.

Buddsoddi mewn natur a blaenoriaethu cyllid a chefnogaeth ar gyfer adfer, creu a chysylltu cynefinoedd a bywyd gwyllt ar raddfa fawr ledled Cymru - gan gynnwys ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd naturiol, gweithredu'r goedwig genedlaethol newydd, a sicrhau bod y dulliau o reoli defnydd tir ac amaethyddiaeth yn cefnogi cadwyni a dosbarthiad bwyd lleol diogel.

Buddsoddi yn niwydiannau a thechnolegau'r dyfodol, a chefnogi busnesau a fydd yn helpu Cymru i arwain y chwyldro carbon isel a chloi cyfoeth a swyddi mewn ardaloedd lleol gyda buddsoddiad yn yr economi sylfaenol.

Pa beth sy'n newid fel canlyniad?

■ Mae'r Cynllun Ailadeiladu ac Adfer yn ymrwmo i brosiect peilot i leihau ôl troed carbon ysbyty mawr a nifer o gynlluniau ynni adnewyddol lleol newydd.

■ Mae cyllid ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi cynyddu o £19m yn 2019/20 i £92m hyd at 2024-25. Gan adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn tai carbon isel ar raddfa fawr ac uwchraddio'r stoc tai cymdeithasol.

■ Ymrwymiad i ddatblygu strategaeth ddatgarboneiddio ar gyfer ein system drafndiaeth.

■ Ymagwedd newydd radical tuag at symudedd yn Strategaeth Drafndiaeth Llwybr Newydd Llywodraeth Cymru a osododd leihad yn yr angen i deithio/teithio llesol ar frig hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy, fel y cynghorais, ac mae hyn yn ymateb i batrymau gwaith a theithio sy'n newid.

■ Hybu'r Rhaglen Band Eang Cyflym iawn sy'n cynorthwyo busnesau Cymru i gynyddu eu presenoldeb digidol, masnachu ar-lein ac arloesi digidol, sy'n hanfodol o gadw mewn golwg y newid enfawr yr ydym wedi'i weld mewn agweddau tuag weithio o bell ac yn ddigidol.

■ Ffocws ar 'adferiad gwyrdd, cyfawn a chyfartal' sydd hefyd yn cynnwys arwyddion o fuddsoddiad mewn diwydiannau gwyrdd a newidiadau ehangach i fywyd a gwaith a fydd yn helpu'r amgylchedd, megis ôl-osod tai carbon isel, buddsoddi yn y Goedwig Genedlaethol.

■ Cymhelliant prentisiaeth o hyd at £3,000 i fusnes, £9M tuag at raglenni fel menter diswyddo ReACT.

■ Mae adroddiad Adferiad Gwyrdd Cyfoeth Naturiol Cymru'n nodi mai datrysiadau seiliedig ar natur yw conglaen yr adferiad gwyrdd.

■ Argymhellion i symud i ymagwedd ariannu hirdymor lle mae arian ar gael dros nifer o flynyddoedd i annog cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.

■ Mae targedau gweithio o bell a buddsoddiadau mewn seilwaith band eang wedi ei gyhoeddi.


■ Cefnogaeth i fuddsoddi mewn Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru, i uwchsgilio pobl mewn dulliau modern o adeiladu tai. Mae buddsoddiad wedi'i gytuno yn awr mewn egwyddor.

■ Mae cynghorwyr a thasgluoedd gweinidogol (megis Ffennics a'r Tasglu Adferiad Gwyrdd) yn galw am fodel economaidd newydd i Gymru.

■ Cyllid ar gyfer treialu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol.



Wrth i'r pandemig symud yn ei flaen eleni, rwyf wedi parhau i gyfrannu at Gyngor Partneriaeth y Prif Weinidog. Croesewais y [Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi](#), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, sydd wedi defnyddio egwyddorion y Ddeddf fel sail i'w hymagwedd, gan osod gweledigaeth o economi llesiant sy'n sbarduno ffyniant, sy'n amgylcheddol ddilys, ac sy'n helpu pawb i ddeall eu potensial. Dyma un o fy mhrif argymhellion yn yr [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) (Y bennod Cymru Lewyrchus).



Ym mis Mai 2021, cyhoeddais y [Rhaglen Lywodraethu Addas ar Gyfer y Dyfodol](#) oedd yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â sgiliau, diwylliant, ariannu datgarboneiddio stoc dai a busnes fel cyfrwng dylanwad da.

Mae cyrff cyhoeddus hefyd wedi defnyddio'r Ddeddf a'r heriau newydd a gyflwynwyd gan COVID i feddwl yn wahanol. Er enghraifft:

- Yn hytrach na gwario £3m ar ganolfan newydd mae **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** wedi dewis buddsoddi'n ddigidol i wneud eu casgliadau'n fwy hygyrch.
- Mae **Cyngor Sir y Fflint** wedi cydnabod bod cyfyngiadau cyllidebol a COVID wedi eu helpu i edrych ar bethau'n wahanol. Maent wedi adnewyddu'r hen adeiladau fel canolfannau dydd ac wedi comisiynu mudiad y trydydd sector sy'n rhedeg y gwasanaeth yn llawer gwell – mae'r cynigion sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth wedi gwella'n fawr.

“Mae'r profiad o COVID a'r Ddeddf wedi plannu cydwybod o ddiben uwch ynom ac wedi gwneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch.”

Llyfrgell Genedlaethol Cymru


“Mae'r Ddeddf sy'n deillio o COVID yn bwysicach nag erioed o'r blaen. Mae'r nodau'n egwyddorion craidd ar gyfer pob gwlad ledled y byd. Rydym wedi dysgu llawer o wersi a dyna'r wlad yr ydym ni ei heisiau wrth ddod allan o'r pandemig. Yr ateb yw gweithio gyda'n gilydd. Mae'r pum Dull o Weithio'n bwysicach nag erioed ar ôl COVID.”

Cyngor Ynys Môn

Mae fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Pum Pwynt a'r Rhaglen Lywodraethu Addas ar gyfer y Dyfodol yn cynnig yn gyson bod gweithredu yn y meysydd polisi a ganlyn yn hanfodol i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

- Sgiliau
- Datgarboneiddio tai
- Trafnidiaeth a chysylltedd
- Natur
- Deall sut y bydd tueddiadau'r dyfodol yn effeithio ar anghydraddoldebau
- Incwm sylfaenol cyffredinol
- Wythnos waith fyrrach

Hawdd ei ddeall



Gweithio wythnos fyrrach

Adroddiad am beth rydyn ni'n meddwl sydd angen ei wneud




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Dyfodol Addas i Gymru: wythnos waith fyrrach i bawb (canfyddiadau a negeseuon allweddol)'.

Mehefin 2021



Sgiliau ar gyfer y dyfodol

Mae'r modd yr ydym yn buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant yn allweddol i genedlaethau'r dyfodol – o bersbectif y sgiliau y bydd eu hangen ar ein gweithlu a'n hymagwedd tuag at addysg a'r cwricwlwm cenedlaethol.



Fy ffocws eleni fu:

- Dadansoddi a yw'r llif sgiliau presennol yn barod ar gyfer twf mewn sectorau a fydd yn helpu i gyrraedd targedau di-garbon, cynyddu cydraddoldeb a gwella llesiant.
- Dadansoddi a yw'r buddsoddiad sydd wedi ei gynllunio ar gyfer y meysydd hyn o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru'n ddigonol.
- Sicrhau bod buddsoddiad a pholisïau mewn rhaglenni sgiliau a chyflogadwydd yn lleihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u gwneud yn waeth yn anfwriadol.
- Defnyddio'r tri cham a gynhwysir yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â phrentisiaethau, adolygu'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a thalu mwy o sylw i effaith hirdymor yr hyn y maent yn ei wneud.
- Olrhain cynnydd gydag argymhellion yr wyf eisoes wedi eu gwneud ar gyfer ailfeddwl yn radical am gymwysterau pobl ifanc 16 mlwydd oed.

Sgiliau Drwy Argyfwng

Gan adeiladu ar [ymchwil a wnaethpwyd gan TUC Cymru](#), ym mis Mai 2021 gweithiais ar y cyd â'r New Economics Foundation a chyhoeddais [Sgiliau drwy Argyfwng](#), gan ddangos potensial buddsoddi mewn swyddi a sgiliau gwyrdd ar gyfer adferiad gwyrdd a chyfartal yn yr adferiad yn dilyn pandemig COVID-19.

Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad yn cynnwys:

- Gellid creu dros 60,000 o swyddi yn yr economi gwyrdd erbyn 2022.
- Nid yw'r llif sgiliau presennol wedi paratoui ar gyfer y galw hyn gyda fy nadansoddiad yn awgrymu niferoedd isel o brentisiaethau hyfforddiant mewn sectorau allweddol o'i gymharu a'r potensial ar gyfer twf swyddi.
- Mae diffyg cyfatebiaeth rhwng lefelau cyflogaeth bresennol a'r potensial. Mewn gair, nid oes digon o athrawon, disgyblion yn cael eu dysgu, prentisiaethau'n cael eu sicrhau, cyrsiau coleg a phrifysgol yn cael eu haddysgu neu eu dysgu yn niwydiannau'r dyfodol sydd arnom eu hangen ar gyfer sicrhau Cymru lanach, wyrddach a mwy llewyrchus.
- Nid yw'r cyllid ar gyfer mynd i'r afael â'r diffyg hwn yn ddigonol i ymdopi â'r galw a'r raddfa.
- Mae angen gweithredu sydd wedi ei dargedu, ac sy'n barhaus i sicrhau bod diwydiannau twf gwyrdd yn darparu mynediad i bobl Dduon, Asiaidd a phobl o leiafrifoedd ethnig, menywod, pobl anabl a'r rhai hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur.

Mae'r ddelwedd hon yn dangos y potensial o fewn diwydiannau ar gyfer twf sylweddol mewn swyddi a'r diffyg cyfatebiaeth bresennol rhwng niferoedd y bobl sy'n medru cyflawni'r rolau hyn.



“Bydd y newid mewn strwythur diwydiannol sy’n deillio o’r polisïau a roddwyd ar waith i hyrwyddo datgarboneiddio yn arwain at bobl yn symud rhwng sectorau a galwedigaethau “hen” a “newydd”. Bydd y broses hon angen cefnogaeth y llywodraeth mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys cymorth i ail-sgilio. Un agwedd yn unig ar ffenomen lawer ehangach yw datgarboneiddio sy’n cyfiawnhau ymgyfraniad gweithredol y llywodraeth i amddiffyn y rhai sy’n agored i niwed trwy newidiadau economaidd.”

Adroddiad y Prif Economegydd i Lywodraeth Cymru, Rhagfyr 2021 tudalen 29.

Mae Canada’n gwario \$1.2m ar Uwchsgilio Cyflym ar gyfer prosiect Adeiladu Gwyrdd, gan drosglwyddo gweithwyr a gafodd eu heffeithio gan COVID i swyddi â galw mawr amdanynt. Bydd y cyflogwyr, yr undebau a’r darparwyr addysg sy’n ymgyfrannu yn cyflogi dros 500 o weithwyr o gymunedau ymylol a gafodd eu heffeithio fwyaf gan y pandemig, gan flaenoriaethu grwpiau sy’n cael eu tan-gynrychioli yn y sector adeiladu, yn arbennig fenywod a phobl ifanc sy’n profi hiliaeth.



Llun gan: Kate Bryony Jones



Effaith – sut mae’r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

Fy argymhellion i’r Llywodraeth

Pa beth sy’n newid fel canlyniad?

Buddsoddi mewn prosiectau seilwaith mewn **diwydiannau gwyrdd ac adfer natur**.

■ Gwnaeth Cymru Sero Net (Mis Hydref 2022) gydnabod hyn. Caiff sgiliau eu crybwyll ym mhob pennod sector – trydan/cynhyrchu gwres, trafniadaeth, tai, amaeth, gwastraff ac ati.

Dywed Cymru Sero Net:

“Mae’r degawd hwn o weithredu’n foment hollbwysig i ddatblygu sgiliau gwyrdd ar gyfer swyddi’r dyfodol... a sut i wneud yn siŵr bod y rhain yn cael eu dosbarthu’n deg yn y gymdeithas. Rydym yn ymrwymo i ddysgu gwersi o’r gorffennol ac adeiladu dyfodol i Gymru sy’n cefnogi economi llesiant.”

Mae yna yn awr ymrwymiad polisi ar gyfer Cynllun Sgiliau Sero Net.

Alinio buddsoddiad â chyfleoedd cynyddol ar gyfer **ailhyfforddi, ailsgilio a thrawsnewid** i ddiwydiannau sy’n newid.

■ Roedd y pecyn gwerth £65m a gyhoeddwyd gan Jeremy Miles AS, Gweinidog dros Addysg a’r Gymraeg yn cynnwys deunyddiau hyfforddi newydd i fyfyrwyr coleg ddysgu am garbon sero net (e.e. myfyrwyr adeiladu’n dysgu am ynni adnewyddol).

■ Mae Cyfrifon Dysgu Personol bellach yn targedu “diwydiannau addas ar gyfer y dyfodol”, sef iechyd a gofal cymdeithasol, logisteg, adeiladu gwyrdd ac ynni adnewyddol.

Sicrhau bod buddsoddiad yn ceisio cynyddu nifer y **grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol** yn sectorau allweddol y dyfodol.

■ Bydd y Cynllun Sgiliau Sero Net yn treialu dull o sefydlu cydraddoldeb, llesiant a phontio teg o’r cychwyn cyntaf.

■ Bydd panel arbenigol yn darparu’r sylfaen dystiolaeth, yr egwyddorion a datrysiadau i dîm polisi Llywodraeth Cymru i’w gwneud yn rhan annatod o’r rhaglenni cyflogadwyedd (fel ReAct Plus a Thwf Swyddi Cymru a Mwy), Gwarant Ieuenctid, Prentisiaethau ac ati. Mae fy nhîm yn rhan o’r panel.

■ Fe fydd yna gyllidebu ar sail rhywedd ar gyfer:

- Gwarant Pobl Ifanc
- Teithio Llesol
- Cyfrifon Dysgu Personol

■ Mwy o fuddsoddiad i gynorthwyo pobl ag anableddau i fanteisio ar gyfleoedd prentisiaeth.



Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

Fy argymhellion i'r Llywodraeth	Pa beth sy'n newid fel canlyniad?
Cynyddu buddsoddiad ar gyfer pobl ifanc yn arbennig oherwydd effaith COVID-19.	Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd cyffredinol yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru ar Warant Pobl Ifanc - £30m ychwanegol dros 3 blynedd. Bwriad hyn yw llenwi'r bylchau presennol mewn darpariaeth, cynyddu cydraddoldeb a thargedu diwydiannau'r dyfodol. <i>“Bydd llwybrau penodol i gefnogi recriwtio i mewn i sectorau twf, gan baratoi pobl ar gyfer swyddi'r dyfodol... ar eich pwynt am sgiliau gwyrdd a dewisiadau buddsoddi, rwyf yn disgwyl i'r warant fod yn rhan o hyn.”</i> Vaughan Gethin AS, Gweinidog yr Economi Mae fy nhîm yn rhan o'r grŵp rhanddeiliaid allanol.
Mae angen tynhau a diwygio'r system sy'n ymwneud â sgiliau. Dylid rhoi cymorth i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu mewnwelediad hirdymor a symud i ffwrdd oddi wrth ddarpariaeth sy'n cael ei harwain gan alw. Dylid cael cydweithredu rhwng y sectorau addysg a busnes.	Mae'r gyllideb yn ehangu Cyfrifon Dysgu Personol (fel cronfa i unigolion) a chreu ReACT Plus a fydd yn ceisio rhoi grantiau i ddileu rhwystrau i ddysgu/cyflogaeth. £66m ar gyfer Bargeinion Dinesig a Thwf dros dair blynedd. Ym mis Rhagfyr 2021, gwnaeth pob un o'r pedwar rhanbarth gyhoeddi Fframwaith Economaidd Rhanbarthol gyda blaenoriaethau ar gyfer eu Bargaen Twf. Mae pob strategaeth yn adlewyrchu egwyddorion llesiant economaidd a'r Ddeddf.
Croesawu dysgu gydol oes fel y norm newydd.	Mae nifer y bobl sydd wedi cofrestru mewn addysg bellach wedi disgyn o 43% yng Nghymru ers 2012. I wrthsefyll hyn, mae yna £63.5m ychwanegol dros gyfnod o 3 blynedd hyd at 2024-25 ar gyfer addysg ôl-16 sy'n cynnwys adolygu addysg oedolion er mwyn cynyddu nifer dysgwyr. Mae'r pecyn cymorth cyflogadwyedd (oddeutu cyfanswm o £90m) yn cynnwys ReAct Plus a fydd yn darparu cymorth ariannol i bobl symud rhwystrau i ailhyfforddi ac ailsigilio. Mae hyn i'w groesawi ond fe fyddai hyd yn oed yn well petai rhaglenni cyflogadwyedd yn cyfeirio dysgwyr sy'n oedolion tuag at sectorau sy'n addas ar gyfer y dyfodol/sgiliau gwyrdd ac yn sicrhau cyfartaledd cyfleoedd i bob sector cymdeithasol. Mae Prifathro Coleg Pen-y-bont ar Ogwr wedi awgrymu mwy o gyrsiau micro, ymyrraeth byr a sydyn i'w gwneud yn haws i oedolion ail-ymgysylltu ag addysg.

Bydd annog y newid hwn a gwneud mwy gyda llai yn golygu y bydd yr holl wahanol randdeiliaid (cyflogwyr, bargeinion dinesig/twf, partneriaethau sgiliau rhanbarthol, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd) yn gorfod gweithio gyda phartneriaid ac yn macsimeiddio'r cyllid sydd ar gael. Mae angen i'r Llywodraeth gymell ac annog y newid.

Ar y Cwricwlwm Cenedlaethol ac asesiadau

Gwneuthum argymell	Pa beth sy'n newid fel canlyniad?
Galw yn gyntaf am aifeddwl mewn dull radical am gymwysterau (16 oed) yn fy adroddiad “Addysg Addas ar gyfer Dyfodol yng Nghymru.” ynghyd ag eraill.	Cafodd arholiadau eu dileu a sefydlwyd Panel Annibynnol i ystyried dyfodol arholiadau yng Nghymru.
Ysgrifennais wedyn at Weinidogion, Cymwysterau Cymru a Phwyllgorau'r Senedd ar y pwnc hwn. Rhoi tystiolaeth i'r Senedd gan alw am newid.	Eleni, mae Cymwysterau Cymru wedi gwahodd fy nhîm i fod yn rhan o'r Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol Ail-ddychmygu TGAU lle mae asesiadau newydd yn cael eu penderfynu ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae dewis, hyblygrwydd, canlyniad dysgwyr, llesiant a sgiliau'r dyfodol i gyd yn egwyddorion sy'n ganolbwynt yr adolygiad – fel y galwais amdano yn 2019.
Dylai Llywodraeth Cymru ddod â'r holl sectorau ynghyd fel rhan o genhadaeth genedlaethol gydgysylltiedig i ddarparu addysg sy'n addas ar gyfer y dyfodol .	Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl ac wedi comisiynu adolygiad o'r modd y mae busnes yn ymgysfrannu mewn addysg.
Blaenoriaethu addysg iechyd meddwl a llesiant wrth ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru i helpu i feithrin cenhedlaeth o blant sy'n emosiynol gydnerth.	Mae cynllun gweithredu'r cwricwlwm newydd yn datgan y dylai gwahanol sectorau fod yn fwy cysylltiedig â'r cwricwlwm ac ag addysg – busnes, y cyhoedd, teuluoedd disgyblion, y gymuned ehangach er mwyn cefnogi cenhadaeth genedlaethol a gwireddu nodau'r cwricwlwm.
Cynyddu'r nifer o ymarferwyr addysgu a chefnogi athrawon i gyrchu dysgu proffesiynol parhaus, gan gynnwys mynediad i gynnwys sydd wedi'i ddatblygu'n briodol ac ymagweddau arfer gorau ledled Cymru a thu hwnt, er mwyn macsimeiddio potensial y Cwricwlwm newydd i Gymru.	Mae'r gyllideb ddrafft newydd yn nodi £90.2m ar gyfer llesiant mewn addysg. Cyhoeddwyd potiau cyllid amrywiol e.e. £2.5m ar gyfer cynorthwyo gwaith gyda ieuenctid ar faterion iechyd meddwl; rhan o'r £65m wedi ei gyhoeddi'n ddiweddar ar gyfer cymorth iechyd meddwl pobl ifanc ôl-16.
	“Cynllun Recriwtio, Adennill, Codi Safonau” i gynyddu capasiti addysgu, cynorthwywyr addysgu a chefnogi dysgu proffesiynol.
	Ymrwymwyd dros £150m yn 2021/22 i'r nod hwn, gan gynnwys £35.8m ar gyfer Recriwtio, Adennill, Codi Safonau, gan gadw 1,800 o staff a chymorth wedi'i dargedu at ddysgwyr agored i niwed.

Yr heriau system hyn sy'n dal i fodoli, yw rhai o'r rhesymau pam yr wyf yn cynnal Adolygiad Adran 20 o'r modd y mae peirianwaith Llywodraeth Cymru'n gweithredu'r Ddeddf, drwy lens sgiliau. Mae'r system bresennol yn cael ei harwain yn bennaf gan gyflogwyr, seiliedig ar alw. Nid yw hyn yn hirdymor ac nid yw ychwaith yn ymateb yn dda i heriau economaidd fel datblygu cymwysterau, cynyddu cyfranogiad mewn dysgu oedolion, pontio i economi gwyrdd.



Effaith – Sut y mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahniaeth

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** prosiectau Cronfa Adnewyddu Cymunedol.
 - Menter Pen-y-bont ar Ogwr - ei nod yw cefnogi pobl, yn enwedig menywod trwy eu helpu i ddatblygu sgiliau a hyder ar gyfer symud i hunangyflogaeth.
 - Y Bywyd yr ydych ei Eisiau - bydd y prosiect hwn yn datblygu porth ar-lein un-stop ar gyfer cefnogi pobl sydd am ddatblygu a gwella eu sgiliau neu ddilyn hyfforddiant newydd er mwyn cael gwaith newydd a gwella eu bywydau.
 - Trawsnewid Meddyliau Ifanc ar gyfer Yfory - annog mwy o ddisgyblion i ystyried gyrfaedd mewn gweithgynhyrchu a pheirianneg.
 - Pen-y-bont ar Ogwr 'Elevate a Prosper'- prosiect cymorth busnes yn ffocysu ar fentrau dros dro, busnesau newydd a microfusnesau.
 - Deorydd i Entrepreneuriaid Uchelgeisiol sy'n ffocysu ar fenywod - rhaglen hybu busnes i entrepreneuriaid benywaidd.
 - Cysylltu Athrawon â Diwydiant - hysbysu athrawon fel y gallant annog a rhannu manylion am y sectorau creadigol, digidol, amgylcheddol, uwch-ddeunyddiau a gweithgynhyrchu, gan ymroi i danio brwdfrydedd disgyblion.
- **Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir y Fflint** yn cydweithredu i gynyddu cyfleoedd dysgu awyr agored. Caiff dysgu awyr agored ei argymhell gan Llywodraeth Cymru fel dull allweddol o ddarparu'r Cwricwlwm newydd i Gymru.
- **Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg** yn cymryd rhan mewn cynllun 'kickstart' sy'n cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy a chynyddu eu cyfleoedd i ddarganfod cyflogaeth barhaus.



Datgarboneiddio Tai

Rwyf wedi bod yn gweithio ar y maes polisi tai am y chwe blynedd diwethaf gyda rhanddeiliaid gan gynnwys [Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, Tai Pawb](#) a [Siarter Cartrefi](#).

Eleni, bûm yn gweithio gyda'r [New Economics Foundation, Dr Donal Brown](#) (academydd o Brifysgol Surrey sy'n arbenigo'n benodol mewn ôl-osod), [Cartrefi Cymunedol Cymru](#) ac oddeutu 30 o rhanddeiliaid eraill i edrych ar y modd y gallwn ariannu datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru. Cynhyrchais gynllun clir ar y modd y gellid ariannu'r her ôl-osod tai.



Gwneuthum argymell

Bod fy adroddiad yn nodi'r buddsoddiad sy'n ofynnol i **ôl-osod pob cartref yng Nghymru** – gyda chyfraniad o £1.7bn i'w ddisgwyl oddi wrth Llywodraeth Cymru dros y degawd nesaf.

Dywedais y dylent ymrwymo i Grant Datgarboneiddio Tai Cymdeithasol newydd o £108m y flwyddyn a dyblu cyllid tlodi tanwydd i oddeutu £73m y flwyddyn.



Pa beth sy'n newid fel canlyniad?

Tachwedd 2021 - £150m ychwanegol i ail-osod cartrefi cymdeithasol gyda thechnolegau ac inswleiddio i help i leddfu allyriadau Cymru.

Ionawr 2022 - Defnyddiodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd fy adroddiad fel tystiolaeth i wneud argymhellion ar ran Llywodraeth Cymru.

Ionawr 2022 - Cyfeiriodd Ben Lake at godi hyn gyda Llywodraeth y DU, yn ei erthygl i'r Sunday Times yn Ionawr 2022 a oedd yn ymwneud â gwella effeithlonrwydd ynni ac fe ddyfynnodd o fy adroddiad:

“Gwella effeithlonrwydd gwresogi cartrefi: yng Nghyllideb yr Hydref gwneuthum alw ar y Canghellor i fuddsoddi £3.6 biliwn, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r sector preifat, i wella inswleiddio cartrefi yn dilyn cynigion a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru cyntaf. Byddai'r buddsoddiad hwn yn ysgogi cyflogaeth ac yn helpu i roi diwedd ar dlodi tanwydd o fewn y degawd drwy gyflawni arbedion mewn biliau tanwydd o £418 ar gyfartaledd i drigolion Cymru”.

Gweler: [Mae gan ein hargyfwng costau byw ddatrysiaid gwyrdd – Plaid Cymru](#)

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio ar Safon Ansawdd Tai Cymru 2 gan nodi y bydd datgarboneiddio a mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn flaenoriaeth allweddol i'r rhaglen hon (i'w lansio cyn diwedd 2022).



Manteision y buddsoddiad hwn fyddai:

- **Cymru Lewyrchus** - Creu 26,500 o swyddi newydd (dros y ddegawd), £19.32bn mewn CMC ychwanegol, a £3.54bn o fudd treth net erbyn 2030, gan helpu i wrthbwyso effaith economaidd a cholli swyddi yn sgil y pandemig diweddar.
- **Cymru Gydnerth a Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang** - Mae lleihau allyriadau carbon, yn helpu i gyrraedd targedau newid hinsawdd ac arbed £8.3bn mewn biliau ynni. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr niweidiol i gyrraedd sero net erbyn 2050 – a daw 10% o allyriadau Cymru o'r sector preswyl, un o'r meysydd yn y DU i ddatgarboneiddio.
- **Cymru Iachach** – Arbed £4.4bn mewn buddion iechyd erbyn 2040 gan helpu i leihau'r straen ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig yn ystod y gaeaf. Mae gan bobl sy'n agored i niwed sy'n byw mewn cartref oer fwy o siawns o salwch difrifol neu farwolaeth, yn ôl y [Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal](#), ac maent mewn mwy o berygl o drawiad ar y galon, strôc, problemau anadlu, ffliw, iselder a chwympo.
- **Cymru Fwy Cyfartal** – Lleihau dyled ynni. Mae mwy na 66,000 o gartrefi yng Nghymru ar ei hôl hi gyda'u biliau ynni ers dechrau'r pandemig, meddai [Cyngor ar Bopeth](#), ac mae pobl anabl bedair gwaith yn fwy tebygol o fod mewn dyled ynni.



Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yw cyllido'r her ôl-osod. Dyna'r unig ffordd o dynnu miloedd o bobl allan o dlodi tanwydd.

“Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r achos dros fuddsoddiad ar raddfa 'Cynllun Marshall' er mwyn i Gymru ddilyn y trywydd iawn ar gyfer datgarboneiddio tai. Tra'n bod yn gweld rôl ganolog i'r llywodraeth yn y dasg o leihau tlodi tanwydd a helpu'r rhai ar incwm isel, rydym hefyd yn cynnig rôl o bwys i fuddsoddwyr preifat ar ffurf bondiau gwyrdd a morgeisi gwyrdd. O bwys yw nodi na fydd cyllid ar ei ben ei hun yn datrys yr her hon, gyda rheoleiddio, sgiliau a chydlynw yn hanfodol i gyflawni manteision helaeth y rhaglen hon dros y degawd nesaf.”

Prif awdur yr adroddiad, Donal Brown, cyfarwyddwr cynaliadwyedd Sustainable Design Collective.

“Mae'r stoc dai yng Nghymru ymhlith y rhai sy'n gollwng fwyaf yn y DU ac mae angen ei huwchraddio ar frys. Bydd hyn yn gostus, ond bydd hefyd yn dod â manteision aruthrol drwy greu miloedd o swyddi, lleihau biliau ynni a gwella iechyd y cyhoedd. Mae ein hadroddiad yn nodi map ffordd clir ar gyfer y degawd nesaf sy'n dod â chyllid cyhoeddus a phreifat ynghyd i helpu i gyfrannu at dargedau datgarboneiddio uchelgeisiol Cymru ond mae angen i lywodraeth Cymru arwain y ffordd gyda buddsoddiad cyhoeddus ar frys ac ar raddfa.”

Chaitanya Kumar, Pennaeth Pontio Amgylcheddol a Gwyrdd yn NEF

Effaith – sut fydd y Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

- Mae **Llywodraeth Cymru** wedi ymrwmo i:
 - 150m ychwanegol i ôl-osod cartrefi cymdeithasol gyda thechnolegau ac insiwleiddio i helpu i leddfu allyriadau Cymru.
 - Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel i'w rhentu dros y pum mlynedd nesaf.
 - Gwahardd ynni ffosil i gynhesu tai cymdeithasol newydd, gyda'r uchelgaïs o weld y sector preifat yn efelychu hyn erbyn 2025.
 - Bydd yn ofynnol i bob adeilad ysgol a choleg newydd ailwampio ar raddfa eang, ac angen i brosiectau ehangu gwrdd â'r targedau Carbon Sero Net o'r 1af Ionawr, 2022.
- Mae gan **Awdurdod Parc Cenedlaethol** Eryri gamau i 'Sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i ddarparu tai fforddiadwy'.
- Mae gan **Gyngor Sir Powys** gamau yn eu hamcanion llesiant i 'barhau i wneud gwelliannau i stoc dai'r cyngor, gan sicrhau bod ein holl denantiaid yn byw mewn cartrefi sy'n ateb y gofyn'.
- Mae **Cyngor Bro Morgannwg** yn trawsnewid hen ganolfan gofal iechyd yn [ddatblygiad tai](#), a fydd yn cael ei adeiladu drwy ddefnyddio dulliau cynaliadwy ac yn cynnwys gwresogi ynni'n effeithlon, paneli solar a chynaeafu dŵr glaw. Mae'r Cyngor hefyd yn cynllunio i osod goleuadau stryd LED, plannu coed a gosod blychau adar a bywyd gwyllt lleol ar [Ystad Tai'r Barri](#).
- Mae **Cyngor Abertawe** wedi dod o hyd i gartrefi hirdymor ar gyfer cannoedd o bobl yn ystod y pandemig drwy ddefnyddio eiddo gwag. Mae gwrandu'n astud ar grwpiau cyfranogiad tenantiaid ac aelodau o dîm Tai'r cyngor wrth gyflwyno [prosiect ôl-osod Craig Cefn](#) wedi arwain at insiwleiddio gwell mewn cartrefi ac ychwanegu ynni adnewyddadwy megis paneli solar.





Trafnidiaeth – Llwybr Newydd a'r Adolygiad Ffyrdd

Mae trafndiaeth yn cynhyrchu 17% o'n holl allyriadau, gyda dim ond ychydig o newid ers 1990, felly mae'n rhaid i hyn chwarae rhan os yr ydym i gyrraedd ein targed o allyriadau sero net erbyn 2050.

Ers i mi gychwyn ar fy swydd, rwyf wedi cyngori a herio'r llywodraeth ar bolisi a chynllunio trafndiaeth. Mae wedi bod yn un o'r prif feysydd y bûm yn ffocysu arno ac mae'r cyngor hwn yn talu ar ei ganfed gyda chyhoeddi cynlluniau a chynigion cyffrous i symud i ffwrdd oddi wrth or-ddibyniaeth ar geir unigol a dulliau anghynaliadwy o symud o gwmpas sy'n dyst i'r newid y mae'r Ddeddf wedi ei gyflawni.



Cyn y Ddeddf	Fel canlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Ffocysu ar Seilwaith	Edrych ar fanteision ehangach cysylltedd gwell
Prosiectau seilwaith ffyrdd: 2/3 o wariant cyfalaf	Prosiectau seilwaith ffyrdd: 1/3 o wariant cyfalaf
Yn is na'r cyllid a argymhellwyd ar gyfer teithio llesol	Mwy o gyllid ar gyfer teithio llesol SPECIFIC
Mwy o adeiladu ffyrdd	Llai o adeiladu ffyrdd
	Annog mwy o gerbydau trydan a theithio carbon isel
Dibynnu'n fawr ar geir	Annog teithio cynaliadwy drwy'r hierarchaeth teithio cynaliadwy

Rwyf wedi cyngori a dylanwadu ar y [strategaeth drafndiaeth genedlaethol](#) a'r [Adolygiad Ffyrdd](#) – sydd â'r nod o'n dwyn tuag at newid moddol a lleihad mewn allyriadau trafndiaeth.

[Mae Llwybr Newydd](#) y nodi dull newydd o feddwl sy'n gosod pobl a newid hinsawdd ar flaen ac yng nghanol ein system drafndiaeth, gan ffocysu ar yr hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy, newid moddol a blaenoriaethau sy'n cynorthwyo pob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol – yn dda i bobl, cymunedau, yr amgylchedd, yr economi, lleoedd, diwylliant a'r Gymraeg. Bydd yn helpu Cymru i symud i ffwrdd o or-ddibyniaeth ar gar preifat gan greu mwy o le ar gyfer beicio a cherdded; rhwydwaith dibynadwy o lwybrau bysiau; a gwell trenau, gwasanaethau a gorsafoedd i gysylltu pobl â chyflogaeth, iechyd a hamdden.

“Mae strategaeth drafndiaeth Cymru'n newid go radical o'i chymharu â ble'r oeddem ni. Rwyf yn credu bod gofynion y Ddeddf wedi trwytho ac wedi helpu i egluro'r ymagwedd a fabwysiadwyd yn y strategaeth honno.”

**Tim Peppin, Cyfarwyddwr
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**



Llwybr Newydd Strategaeth Drafndiaeth Cymru 2021

Mae rhoi saib ar adeiladu ffyrdd yn gam enfawr i'r cyfeiriad cywir ar gyfer Cymru iachach, lewyrchus, gydnerth a mwy cyfartal, gan ddangos y gwahaniaeth y mae cael Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei wneud.

Penodwyd aelod o'm tîm, Dr Eurgain Powell, i'r [panel annibynnol](#) i gynnal yr Adolygiad, o dan gadeiryddiaeth Dr Lynn Sloman MBE, arbenigwr trafndiaeth yng Nghymru sydd, cyn hyn, wedi bod yn rhan o Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yr Arglwydd Burns ac wedi ymgyfrannu yn natblygiad Strategaeth Drafndiaeth Cymru. Mae 55 o gynlluniau ffyrdd wedi cael eu hoedi hyn o bryd ac yn cael eu hadolygu.



“Mae'r argyfwng hinsawdd yn ei gwneud hi'n hollbwysig i ni osgoi unrhyw fuddsoddiad sy'n cynyddu allyriadau carbon, yn enwedig yn y 15 mlynedd nesaf pan fydd y rhan fwyaf o geir ar y ffordd yn dal i fod yn gerbydau petrol a disel. Ond mae angen i ni hefyd ddeall y problemau y mae cynlluniau ffyrdd wedi eu dylunio i fynd i'r afael â hwynt – p'un ai diogelwch, ansawdd aer neu ddiffyg annibynadwyaeth – ac ystyried y modd y gellir mynd i'r afael â'r problemau hynny heb gynyddu carbon.”

**Lynn Sloman Cadeirydd y Panel
Adolygu Ffyrdd**



Beth ddigwyddodd fel canlyniad?

- 55 o gynlluniau ffyrdd wedi eu hatal.
- Lleihau gwariant ar ffyrdd o ddwy draean i draean o gyllid Llywodraeth Cymru (dadansoddiad a gomisiynwyd gennyf i o'r New Economics Foundation).
- Dros £115 miliwn yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol i'w wario ar brosiectau trafnidiaeth a fydd yn cynorthwyo ymrwymadau Llwybr Newydd.
- Llywodraeth Cymru'n gwrthio am £8.1bn o fuddsoddiad mewn seilwaith gwyrdd erbyn 2025.
- Yn nodedig bod gan Gymru ymrwymiad i sicrhau y bydd o leiaf 45% o deithiau'n cael eu gwneud drwy ddefnyddio dulliau cynaliadwy o deithio erbyn 2040.

Mae'r Ddeddf yn ganolog i'r hyn y mae trafnidiaeth Cymru'n ei wneud

- Mae'r rhan fwyaf o ddodrefn ym mhencadlys Trafnidiaeth Cymru'n cael ei aildefnyddio, llawer ohono'n dod o sefydliadau eraill. Dim ond cyfran fechan sy'n newydd (llai nag un rhan o bump).
- Gwnaed peth o hwn â llaw yn Pentre gan weithwyr Sefydliad y Deillion Merthyr. Derbyniodd yr holl staff y Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Defnyddiwyd paent wedi ei ailgylchu i baentio'r tu mewn.
- Mae hyn wedi arbed oddeutu 100,000kg o garbon deuocsid. Ac mae Sefydliad y Deillion Merthyr wedi dyblu mewn maint ers hynny, ac wedi sicrhau cwsmeriaid newydd o'r sector cyhoeddus megis Dŵr Cymru.
- Sicrhawyd cyllid oddi wrth y cynllun Lleodedd Lleol ar gyfer Natur i wella bioamrywiaeth lleol mewn 22 gorsaf reilffordd ac yn agos atynt (o fewn milltir). Mae gwelliannau'n cynnwys muriau gwyrdd, planwyr, basgedi crog, coed a chasgenni dŵr. Bydd gwestai gwenyn, tai adar, blychau ystlumod, gwestai pryfed, tai draenogiaid a thai buchod coch cota hefyd yn cael eu cyflwyno i hybu bioamrywiaeth leol.

“ Ni fyddai creu'r buddion ehangach hynny sy'n deillio o gynlluniau trafnidiaeth yn bodoli oni bai am y Ddeddf oherwydd byddai pobl yn edrych arno'n unig fel modd o gyflawni'r cynllun hwn i leihau allyriadau carbon, er enghraifft. Ond nawr byddech chi hefyd yn archwilio effeithiau ar iechyd, ar gydlynad cymunedol, effeithiau ar werth cymdeithasol, gan edrych ar fentrau cymdeithasol megis siopau trwsio beiciau. Rydych yn edrych ar y peth mewn dull llawer mwy cynhwysfawr. **”**

Natalie Rees, Pennaeth Datblygu Cynaliadwy a Newid Hinsawdd, Trafnidiaeth Cymru





Effaith - sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

- Mae **Beiciau OVO** ar gael am ddim i staff **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** i gefnogi llesiant ac annog teithio llesol.
 - Mae **cynghorau Powys a Sir Fynwy** yn gweithio ar lwybrau teithio llesol – yn cynyddu gwell cysylltedd i atal teithiau car byr.
 - Mae **llwybr Ebwy Fawr Blaenau Gwent** yn hybu teithio llesol, yng nghanol tirweddau gwyrdd tra'n gwerthfawrogi diwylliant drwy gyfrwng gosodiadau celf unigryw sy'n cael eu dylunio yng nghyffiniau'r llwybr.
 - Mae strategaeth naw-pwynt **Caerdydd** wedi ei dylunio i ddyblu nifer y bobl sy'n defnyddio bysiau yng Nghaerdydd erbyn 2030. Mae cynlluniau'n cynnwys prisiau teithio rhatach mor isel â £1, yn cynyddu'r nifer o fysiau di-garbon ar y ffyrdd, cyflwyno un tocyn integredig y gellir ei ddefnyddio ar drenau a gwahanol gwmnïau bysiau, a chreu coridorau bysiau newydd 'clyfar' ochr yn ochr â ffurfiau llesol o deithio. Mae'n cynnwys 36 bws trydan newydd heb ddim allyriadau, sy'n cyfrif am 24% o fflyd bysiau Caerdydd.
 - **Casnewydd** wedi ychwanegu dyraniad o ofod ffyrdd ar hyd yr A48 i flaenoriaethu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mesur tymor byr i fynd i'r afael â thagfeydd lleol drwy deithio ar fysiau am ddim drwy gydol mis Mawrth 2022.
 - Fel rhan o Fetro De Cymru, mae **Cyngor Torfaen** yn gwella Gorsaf Reilffordd Pontypwl a New Inn i gynyddu cyfleoedd i bobl deithio'n fwy cynaliadwy a chynorthwyo trigolion yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig lle mae nifer perchnogwyr ceir yn isel.
 - Mae **Cyngor Sir Penfro** yn cynllunio cyfnewidfa drafndiaeth gyhoeddus fodern gwerth £8miliwn ar gyfer Hwlfordd i wella'r dre a galluogi pobl i gyrchu'r ganolfan yn haws. Bydd y cynllun yn darparu hwb modern ac arloesol, integreiddio pob dull trafndiaeth, yn cynnwys gwell cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr, a gorsaf fysiau mwy effeithlon ac integredig.
 - Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** wedi cyflwyno cerbydau pweru gan hydrogen a beiciau trydan i annog staff i gerdded, beicio neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus drwy fentrau fel 'Siarteri Teithio lach'.
 - Dangosodd astudiaeth Gwaith Cartref **Cyfoeth Naturiol Cymru** bod datgarboneiddio cymudo staff yn hollbwysig ar gyfer helpu i leihau allyriadau gweithio mewn swyddfa drwy gynyddu'r defnydd o deithio llesol a cherbydau allyriadau isel.
 - Fel rhan o **Fetro De Cymru**, mae gorsafoedd rheilffordd ar draws gwahanol gynghorau'n cael eu hailwampio i annog mwy o ddinasyddion i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn arbennig drwy gynorthwyo'r rhai mewn ardaloedd difreintiedig tra'n integreiddio dulliau cynaliadwy eraill o drafndiaeth.
 - Partneriaeth Rheilffordd newydd yw **South-West Wales Connected** a sefydlwyd gan Drafndiaeth Cymru ac a drefnir gan 4theRegion. Ei nod yw annog mwy o ddefnydd o wasanaethau rheilffordd drwy gynyddu cyfranogiad cymunedau lleol yn eu llinell rheilffordd a thrwy ystod o weithgareddau yn eu gorsaf ac ardaloedd cyfagos er mwyn darparu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i drigolion ac ymwelwyr i'r rhanbarth.
- A lle mae teithiau mewn car yn anhepgor:**
- Mae **Bargen Ddinesig Bae Abertawe** yn cynnwys gwefru cerbydau trydan a modelu ansawdd aer.
 - Mae **Cynghorau Bro Morgannwg a Chaerffili** wedi cychwyn eu trawsnewidiad i gerbydau trydan.
 - Mae **Cyngor Gwynedd** wedi caffael [tryc trydan](#) ar gyfer ei fflyd ailgylchu.
 - Cynyddodd **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** seilwaith gwefru trydan yn y parciau cenedlaethol.
 - Ac mae yna ragor o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ym **Mhowys** i hybu ynni adnewyddol mewn trafndiaeth.






Buddsoddi mewn Natur – y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol

Rwyf wedi bod yn arwain galwadau am [Wasanaeth Natur Cenedlaethol](#) ers sawl blwyddyn; roedd yn un o'r argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Fframwaith yw'r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol i sefydlu'n gyflym gyfleoedd newydd sy'n ymwneud â sgiliau, swyddi ac adferiad amgylchedd naturiol Cymru.

Wedi'i chynnull gan Cyfoeth Naturiol Cymru, bu fy Swyddfa'n gweithio gyda'r Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad a Peter Davies CBE, i ddatblygu cynigion i'w dwyn ymlaen ar fyrder. Mae angen i newid ddigwydd yn gyflym a gall prosiectau a chynlluniau fel Gwasanaeth Natur Cenedlaethol weithredu fel sefydliad disglair, i ddangos y pethau y gellir eu cyflawni fel y gall eraill eu hefelychu.

Yn dilyn cyfarfod gyda Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Lee Waters AS, rhannwyd cynnig gyda Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022. Roedd yn cynnwys senarios wedi'u costio ar gyfer profi'r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol fel cysyniad ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd, yn ogystal â gwybodaeth a gyflwynwyd gan [Dŵr Cymru](#), [Parc Cenedlaethol Eryri](#), [RSPB Cymru](#), [Partneriaeth Sgiliau](#), [Rhanbarthol Gogledd Cymru](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro](#) a [Chyngor Sir Penfro](#).

Yng ngwanwyn 2022, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o dros £160,000 i ddatblygu [Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yng Nghymru](#).



Gallai Gwasanaeth Natur Cenedlaethol gyfrannu at y nodau llesiant canlynol:


- **Cymru Lewyrchus** - Creu miloedd o swyddi o ansawdd da a darparu bywoliaethau o ansawdd da. Darparu swyddi ar lefel mynediad a graddedig, gan alluogi pobl ddiwaith a thangyflogedig i ddarganfod hyfforddiant a gwaith cyflogedig mewn cadwraeth natur.
- **Cymru Lewyrchus** - Cynorthwyo gwirfoddoli, prentisiaethau, lleoliadau, cyfleoedd yn deillio o bresgreibio cymdeithasol a chyfleoedd mewn swyddi presennol a swyddi newydd.
- **Cymru Gydnerth** - Gwarchod ac adfer amgylchedd naturiol Cymru.
- **Cymru Iachach** - Trawsnewid cymunedau sy'n annog ffordd iach o fyw, creu mannau gwyrdd newydd a darparu gwell cyfleoedd ar gyfer buneseu lleol.
- **Cymru Iachach** - Darparu £4.4bn mewn buddion iechyd erbyn 2040 gan helpu i leihau'r straen ar wasanaethau iechyd a gofal, yn arbennig yn ystod y gaeaf. Mae gan bobl agored i niwed sy'n byw mewn cartrefi oer fwy o gyfle i ddioddef salwch difrifol neu farwolaeth, yn ôl y [Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal](#), ac maen mewn mwy o berygl i gael trawiad ar y galon, strôc, problemau anadlu, iselder a chwympo.
- **Cymunedau Cydlynus** - Cynorthwyo gweithredu cymunedol lleol, gan fanteisio i'r eithaf ar addewid gweithwyr llawrydd a chyrrff cyhoeddus i ailddychmygu trefi a dinasoedd Cymru.
- **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** - Creu partneriaethau rhwng sefydliadau diwylliannol a chwaraeon i helpu i hybu ymarfer corff ac ymgysylltu â'r awyr agored, treftadaeth leol, y Gymraeg, iechyd meddwl a thwristiaeth.
- **Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang** - Dangos Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.



Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

Gwneuthum argymell bod	Pa beth sy'n newid fel canlyniad
Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chyrrff cyhoeddus i ddarparu 20% o orchudd coed ym mhob tref a dinas yng Nghymru erbyn 2030.	- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o Ogledd Cymru i'r De. Bydd hyn yn creu ardaloedd o goetir newydd, yn helpu i adfer a chynnal rhai o'n coetiroedd hynafol unigryw ac ymhen amser yn ffurfio rhwydwaith cysylltiedig o goetiroedd ledled Cymru. - Bydd Parc Cenedlaethol newydd hefyd yn cael ei ddynodi ar gyfer Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
Manteisio i'r eithaf ar fannau naturiol gwyrdd a glas i gynorthwyo llesiant.	Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynlluniau i wella bioamrywiaeth ar hyd ffyrdd ac ymylon. Mae hyn yn cynnwys y Fenter Coridorau Gwyrdd. Mae llawer o awdurdodau lleol, yn cynnwys Abertawe, yn plannu blodau gwyllt lluosflwydd ar hyd priffyrdd i annog pryfed peillio.
Ymrwymo i wahardd cyrrff cyhoeddus rhag defnyddio plaladdwyr a gosod targedau blynyddol ar gyfer cael eu gwared yn y pen draw.	Mae Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi gwahardd defnyddio plaladdwyr ar eu tir, a fedr gael effaith niweidiol ar iechyd pobl a bywyd gwyllt.
Dylai cyrrff cyhoeddus sicrhau cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn seilwaith gwyrdd a glas bioamrywiol a gorchudd canopi coed yn eu hardaloedd a'u tir.	- Mae Cyngor Caerffili yn cydweithio gyda'r grŵp Mannau Gwyrdd, Coleg Ystrad Mynach ac Ysgol Gynradd Ystrad Mynach i blannu 5,000 o goed ar gyfer Wythnos Plannu Coed ym mis Mawrth 2022. - Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi dyrannu £50,000 tuag at blannu dros 600 o goed bach, glasbrennau, rhesi o wrychoedd. Bydd y coed brodorol hyn yn cael eu plannu mewn parciau a mannau agored nad ydynt yn foamrywiol. - Bu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cydweithio gyda Choed Cadw ar brosiect i blannu 8,000 o goed brodorol a 1,800 metr o wrychoedd. Bydd y coed yn dod o feithrinfa goed Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym Mhlas Tan y Bwlch.
Dylai cyrrff cyhoeddus ddefnyddio daliadau tir i facsimeiddio gwerth bioamrywiaeth ; cynyddu cyfran y cyllid sy'n cael ei wario ar ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur ; a chymryd camau brys ar fyrder ac ar raddfa i frwydro yn erbyn colli bioamrywiaeth	- Mae Cymorth Naturiol Cymru'n gweithio gyda ffermwyr, awdurdodau lleol a chyrrff amgylcheddol i gyflawni rheoli tir cynaliadwy. Maent hefyd wedi defnyddio 'daliwr coed' i leihau'r perygl o lifogydd i 490 o eiddo yn ardal Trelai a'r Tyllgoed yng Nghaerdydd. - Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi gosod goleuadau lefel isel yn lle'r goleuadau oedd yno eisoes, ar lwybr cerdded poblogaidd er mwyn amddiffyn ystlumod sy'n clwydo ac osgoi gorlifad golau a allai darfu ar bysgod sy'n silio yn yr afon. Maen nhw hefyd wedi cefnogi Cyngor Cymuned Ogwr i drawsnewid golchfa lo segur yn hafan i natur a bywyd gwyllt. - Mae prosiect cydweithredol Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot, 'Mawndiroedd Coll' wedi gweld canlyniadau cadarnhaol o ran llesiant llygod pengrwn y dŵr sydd bellach i'w gweld yn ffynnu yng nghynefinoedd gwlyb ucheldir RhCT.

Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth


Gwneuthum argymell bod	Pa beth sy'n newid fel canlyniad
Darparu adnoddau a blaenoriaethu hyfforddiant carbon ac eco-lythrennedd ; Hyrwyddo a chymhell datrysiadau unigol i gefnogi newid ymddygiad.	- Mae Cyngor Dinas Casnewydd ac Amgueddfa Cymru, ill dau, yn arwain y ffordd ar lythrennedd carbon. - Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn mobileiddio disgyblion o 15 ysgol i gefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae Disgyblion yn cynnal digwyddiadau, yn codi ymwybyddiaeth o newid hinsawdd, yn arwain gweithredu yn eu cymunedau ac yn rhannu dysgu gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, sydd wedi arwain at greu Maniffesto Gweithredu ar yr Hinsawdd Sir Gaerfyrddin. Mae Ysgol Bro Dinefwr, Sir Gaerfyrddin hefyd yn ymroi i ddod yn garbon niwtral. - Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Sir y Fflint yn cydweithio i gynyddu cyfleoedd dysgu awyr agored i roi cymorth i athrawon gynyddu'r amser sy'n cael ei dreulio yn, am a dros yr amgylchedd naturiol.
Dylai cyrrff cyhoeddus nodi ffyrdd o helpu i gysylltu pobl o bob oed, gallu a chefnidir â byd natur.	- Mae cronfa bensiwn Dinas a Sir Abertawe wedi lleihau ei hól troed carbon o bron 60% a'i nod yw cyflawni sero carbon net erbyn 2037. Cyflawnwyd hyn drwy leihau faint o arian a fuddsoddir mewn cwmnïau olew a sefydliadau eraill sydd ag ôl troed carbon uchel a buddsoddi mewn mentrau gwyrdd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi lansio gweithgor staff o'r enw CTM Gwyrdd i sicrhau bod egwyddorion gwyrdd a chynaliadwyedd yn rhan annatod o bob agwedd ar waith y Bwrdd Iechyd. - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi ffurfio Tasglu Datgarboneiddio i arwain eu gwaith i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwella'r amgylchedd naturiol, a chefnogi llesiant staff a'r cyhoedd. - Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi ymuno â'r ymgyrch Bond Hinsawdd Lleol – 'buddsoddiad dinesig cymunedol' yw bond lleol y disgwylir iddo ddod yn allweddol i awdurdodau lleol wrth iddynt ariannu pontio i sero-net. Bydd buddsoddiadau o'r fath yn galluogi awdurdodau lleol i godi cyfalaf i ariannu mentrau "gwyrdd" fel ffermydd gwynt, gosod paneli solar, ail-wylltio, a chynlluniau cerbydau trydan, drwy fodel cyllido torfol rheoledig.
	



Lluniwch eich Dyfodol

Ynghyd â Rhaglen Dyfodol Democratiaeth [Sefydliad Berggruen](#), cynhaliodd fy swyddfa gynulliad rithwir o'r enw [Lluniwch Eich Dyfodol](#) a ddaeth â phobl ifanc ynghyd i ystyried y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol. Cyn y digwyddiad, gofynnwyd i gyfranogwyr gyflwyno ffotograffau a gafodd eu trafod wedyn fel dull o ysgogi mewnwelediadau ar gyfer Gwasanaeth Natur Cenedlaethol:

- Dylai Gwasanaeth Natur Cenedlaethol fod yn hygyrch i bawb.
- Mae mannau gwyrdd a chyfleoedd i gael mynediad i fyd natur wedi dirywio oherwydd esgeulustod a diffyg dyraniad adnoddau. Mae angen i ni annog a meithrin natur mewn delweddau o'r mannau yr ydym yn dymuno eu hadeiladu yn y dyfodol.
- Yn gyffredinol mae buddsoddiad mewn cymunedau a mannau agored cymunedol yn annigonol. Mae ar fentrau cymunedol angen mwy o gefnogaeth ac adnoddau.
- Mae pobl ifanc yn wynebu pryderon digynsail o safbwynt tai ac amodau byw a ddaw yn sgil newid hinsawdd – maent hwy yn wynebu'r mater.



Effaith – mae ymgyfraniad fy nhîm yn y gwaith hwn wedi helpu i:

- Sicrhau cyllid ar gyfer Gwasanaethau Natur Cenedlaethol fel cysyniad ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd.
- Sicrhau newid gweithdrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o'i chwmpas hi, yn amrywio o ddileu pensiynau, rheoli tir mewn dull cynaliadwy a chynlluniau i gynyddu bioamrywiaeth.
- Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol mewn cyrff cyhoeddus ac eraill, yn amrywio o blannu coed, cadwraeth mewn ardaloedd trefol, dysgu awyr agored a CTM Gwyrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.



Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol

Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar iechyd a llesiant unigolion a chymunedau ac wedi effeithio ar feysydd ehangach megis y modd yr ydym yn gweithio ac ar argaeledd swyddi. Nid yw'r effeithiau hyn, fodd bynnag, wedi'u teimlo'n gyfartal. Y rhai a oedd eisoes yn dioddef iechyd gwael, yn byw mewn tlodi neu mewn cymunedau ymylol sydd wedi cael eu taro waethaf.

Wrth i sylw'r byd droi at COP26 ym mis Hydref 2021 a'r angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, cyhoeddais dystiolaeth newydd yn amlinellu'r modd y mae tueddiadau'r dyfodol yn effeithio ar anghydraddoldebau yng Nghymru, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Roedd yn ffocysu ar dri thuedd allweddol a welir yn y dyfodol (newid hinsawdd, byd gwaith, a newid demograffig) a'r modd y bydd y rhain yn effeithio ar anghydraddoldebau presennol yng Nghymru.



Cyhoeddwyd hwn ochr yn ochr â [Ymgodi o'r Gaeaf](#), cerdd gan aelodau Grŵp Atal Llifogydd Llanrwst, wedi ei golygu gan fy Mardd Preswyl Taylor Edmonds.

Cynhaliwyd yr ymchwil ac ymgysylltiad rhanddeiliaid mewn partneriaeth â Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dr Alison Parken a Dr Sara Macbride-Stewart, a nododd faterion penodol a meysydd ar gyfer gweithredu mewn perthynas â phob un o'r tri thuedd a welir yn y dyfodol.

1. Dyfodol gwaith

Oni chaiff sylw, bydd y twf a ragwelir mewn swyddi gwyddoniaeth, technoleg a gwyrdd o fantais i'r rhai sydd eisoes yn freintiedig oherwydd y diffyg amrywiaeth presennol mewn addysg, hyfforddiant a swyddi perthnasol. Mae grwpiau poblogaeth sy'n cael eu tangynrychioli mewn addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd yn cynnwys menywod, cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a phobl anabl.

■ **Argymhelliad:** Dylai paratodau ar gyfer dyfodol lle bydd gwaith yn newid ffocysu ar ailddylunio swyddi a hyfforddiant, yn hytrach na mynd i'r afael â chanlyniadau dadleoli swyddi. Rhaid i benderfyniadau a wneir ar ailgynllunio swyddi gynnwys ymgyfraniad y rhai yr effeithir arnynt fwyaf a rhaid sicrhau bod cefnogaeth ar gael, fel bod hyfforddiant yn hygyrch i bawb.

■ **Argymhelliad:** Mae angen i bolisiau newydd, megis Incwm Sylfaenol Cyffredinol a gweithio o bell ystyried cydraddoldeb. Er enghraifft, drwy ystyried potensial anghenion ychwanegol ac amgylchiadau unigolion.

2. Newid Hinsawdd

Tra mai'r poblogaethau tlotaf a mwyaf ymylol sy'n lleiaf gyfrifol am newid hinsawdd, nhw sydd fwyaf tebygol o fod yn agored i'w effeithiau negyddol, ac sydd â'r lleiaf o adnoddau i ymateb, ymdopi ac adfer.

■ **Argymhelliad:** Gallai lliniaru newid hinsawdd fod o fudd i gymunedau ymylol os y caiff ei wneud yn dda, er enghraifft drwy gynnwys profiadau byw cymunedau amrywiol wrth greu polisiau a gwneud penderfyniadau, ond maent yn debygol o gynyddu anghydraddoldebau os na fydd yr effeithiau ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas yn cael eu hystyried mewn pob penderfyniad a wneir ar seilwaith a pholisi.

■ **Argymhelliad:** Mae angen i weithredu newid hinsawdd ymwneud â mwy na dim ond mynd i'r afael â datgarboneiddio, a dylai hefyd gwmpasu persbectifau cydraddoldeb drwy gynnwys ymgyfraniad y rhai yr effeithir arnynt fwyaf newid hinsawdd a datgarboneiddio wrth wneud penderfyniadau polisi a chreu cyfleoedd mewn economi carbon isel, naill ai drwy lwyfannau presennol neu drwy dreialu llwyfannau newydd, megis rhai a fydd yn creu fforymau dinasyddion fel rhan o ymagwedd pontio cyfiawn. Mae diffyg integreiddio yn bodoli o fewn y Gyllideb Ddrafft a Sero Net Cymru, nad ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i gydraddoldeb.





3. Newid Demograffig

Bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn newid y modd y mae ieuchyd a gofal cymdeithasol, cyflogaeth ac addysg, a phensiynau'n gweithredu, a bydd angen i'r systemau hyn addasu os yr ydynt am weithredu yn yr hirdymor.

- **Argymhelliad:** Wrth fynd i'r afael â heriau'r dyfodol megis unigrwydd ac arwahanrwydd mae angen cadw anghenion pob cenedlaeth mewn golwg neu fod mewn perygl o roi un dan anfantais ar draul y llall a/neu fethu cyflawni uchelgeisiau.
- **Argymhelliad:** Rhaid i 'adferiad a arweinir gan ofal' osod gofal plant ac anghenion gofal pobl hŷn ar yr un lefel â 'swyddi gwyrdd' er budd ieuchyd, yr amgylchedd a'r economi.

Yr [Adroddiad](#) oedd un o fy mhrif adnoddau ar gyfer cynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth iddynt ddrafftio eu hasesiadau llesiant.



Ar y cyfan, yn gyffredinol cafwyd ystyriaeth dda ar draws yr asesiadau gyda phob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod effaith y pandemig ar anghydraddoldebau presennol. Mae tua hanner yr asesiadau yn mynd ymhellach i archwilio a deall heriau mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig yn eu hardaloedd yn well. Fodd bynnag, mae'r ystyriaeth a roddir i groestoriadedd yn gyfyng a'r modd y mae'n effeithio ar bobl, ac mae cyfeiriadau at rai o'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn anghyson.

Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

Fe wnaeth yr ymchwiliad hwn ac ymgysylltiad rhanddeiliaid helpu i:

- Fframio trafodaeth a rhoi materion ar yr agenda mewn perthynas â chydaddoldeb a thueddiadau'r dyfodol ac amlygu'r materion a chanlyniadau anfwriadol penderfyniadau a deimlir mewn rhai cymunedau. Mae [fideo](#) fy mardd preswyl Taylor Edmonds a Grŵp Atal Llifogydd Llanrwst yn helpu pobl i ymgysylltu â'r pwnc.
- Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol mewn cyrff cyhoeddus ac eraill – er enghraifft yn y modd y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi mabwysiadu ymagwedd tuag at eu hasesiadau llesiant. Un o effeithiau cadarnhaol yr Adroddiad yw ei fod wedi ysgogi cysylltiad rhwng fy swyddfa a chyrff cyhoeddus i siarad mwy am anghydraddoldebau.
- Effeithio ar gynnwys polisi ac ymrwymadau – defnyddiwyd yr Adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn eu hymateb ymgynghorol i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau mewn iechyd meddwl.
- Sicrhau newid gweithdrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn bwrw ati i wneud pethau, er enghraifft sefydlu panel arbenigol, o dan arweiniad Dr Alison Parken (Prifysgol Caerdydd) i helpu Llywodraeth Cymru i brif ffrydio cydraddoldeb a llesiant yn benodol wrth lunio polisiau, profi hyn ar ddatgarboneiddio a'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net.




Llun gan: Keith Freeburn

Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol, gyda'r argymhellion yn canu cloch gyda llawer sector, a'r fideo a'r gerdd o ddifrif yn dod â'r mater yn fyw mewn dull teimladwy iawn. Rwyf yn ddiolchgar i Taylor a'r plant a thrigolion Llanrwst am eu hymgyfraniad.

“Annwyl Sophie, Diolch am eich adroddiad ‘Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol’ y gwneuthum ei ddarllen gyda diddordeb. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu nifer o'r themâu a amlygwyd yn ein maniffesto ‘Wales Can Seize the Moment’ sy'n amlygu'r modd y gall Cymru sicrhau datblygu cynaliadwy yn dilyn COVID-19. Mae CBI Cymru'n cefnogi'r mwyafrif o'r syniadau a gynigir isod; byddem yn hapus i drafod sut fedrwn ni helpu.”

Ian Price, Cyfarwyddwr CBI Cymru



Llun gan: Huw John





“Annwyl Sophie, Diolch o galon am anfon y neges bwysig hon ymlaen. Diolch hefyd am eich holl ymdrechion ac am gynrychioli Cymru yn Nglasgow. Rydym yn pryderu am ‘eco-allu’ ac rydym am wneud yn siŵr ein bod i gyd yn ymgyfrannu mewn trafodaethau wrth i ni ganfod ffyrdd nid yn unig o wrthbwysio ein hôl troed carbon, ond hefyd sicrhau na chaiff y rhai hynny sydd o dan anfantais economaidd ac eraill eu heithrio o’r sgysiau am sut i greu dyfodol mwy diogel, glanach a chyfartal... “Mae eich argymhellion yn glir iawn – mae angen i ni gael y camau gweithredu sydd nid yn unig yn gyraeddadwy, ond sydd hefyd yn cael eu cymeradwyo gan bawb. Gwerthfawroga i y darn gan Gymuned Atal Llifogydd Llanrwst, yn enwedig gan fy mod yn byw yn Nyffryn Conwy. Byddaf yn trosglwyddo hyn i’r Ymddiriedolwyr a thîm staff Celfyddydau Anabledd Cymru i weld a allwn helpu i ddatblygu unrhyw beth i gefnogi’r gwaith pwysig hwn.”

**Ruth Fabby, Cyfarwyddwr -
Celfyddydau Anabledd Cymru**

“Yn falch iawn o fod wedi derbyn yr adroddiad isod – roeddem yn hapus i gyfrannu at yr ymchwil. Yn awyddus i weithio gyda chi i helpu i ddatblygu/hyrwyddo’r gwaith hwn ymhellach gan fy mod yn meddwl y bydd yn allweddol ar ôl y pandemig ac mewn Cymru sy’n newid.”

**Ross Thomas, Rheolwr Materion
Cyhoeddus, Tai Pawb**

Newidiadau ymarferol o fewn cyrff cyhoeddus wrth symud tuag at Gymru Fwy Cyfartal:

- Mae **Cyngor Rhondda Cynon Taf** wedi ymrwmo i ddod yn Sefydliad Anabledd Clyfar.
- Mae hefyd wedi datblygu gwybodaeth ar faterion LHDTG+ i athrawon yn eu hysgolion fel eu bod yn fwy hyderus i gynorthwyo ac addysgu disgyblion yn y pynciau penodol hyn a sefydlu gweithgor LHDTG+ i wella cymorth i blant a phobl ifanc sy’n cyrchu gwasanaethau Cyngor neu’n mynychu eu Hysgolion.
- Lansiodd **Cyngor Caerdydd** rhaglen hyfforddi o’r enw ‘Hybu Cydraddoldeb’ i alluogi athrawon ac arweinwyr ysgol i addysgu, llywio a thrin hiliaeth mewn ysgolion.
- **Bro Morgannwg**, mae sylweddoli gwerth hyfforddiant i helpu staff i ddeall y materion a wynebier gan bobl â nodweddion gwarchodedig, wedi cynyddu hygyrchedd yr hyfforddiant hwn (a’i wneud yn fyrrach, a haws ei gyrchu).
- Mae gan **Chwaraeon Cymru** Fodel Buddsoddi newydd sy’n alinio cyllid â’u grwpiau blaenoriaeth: Pobl Dduon, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig, anabledd, menywod a merched ac amddifadedd cymdeithasol.

Incwm Sylfaenol Cyffredinol

Gallai Cymru fod yn faes prawf ar gyfer menter arloesol i roi incwm sylfaenol i ddinasyddion oddi wrth y llywodraeth a gweithredu wythnos waith fyrrach.

Mae’r ddau argymhelliad hyn o fy Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol wedi dod yn arbennig o allweddol ers i’r pandemig amlygu anghydraddoldebau cymdeithasol eang a natur hynod ansicr trefniadau gweithio modern cymaint o bobl.

Ym mis Tachwedd 2021 cynhyrchais y sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr gyntaf yng Nghymru yn dangos sut y gallai Incwm Sylfaenol Cyffredinol ddileu tlodi a’ helpu i gyflawni ein nodau llesiant.



Rhaglen y llywodraeth yw’r Incwm Sylfaenol Cyffredinol lle mae pob dinesydd yn derbyn swm sefydlog o arian yn rheolaidd. Mae’n daliad isaf sylfaenol, wedi ei ddylunio i gwrdd ag anghenion sylfaenol, i’w dalu at bawb yn unigol, yn rheolaidd ac yn ddiamod.

Universal Basic Income pilot launched in Wales - How much could be paid out?


WALES is to launch a pilot scheme for Universal Basic Income, the First Minister Mark Drakeford has revealed. How much will UBI be in Wales?

By ALISS HIGHAM
PUBLISHED: 09:11, Sun, May 16, 2021 | UPDATED: 14:20, Sun, May 16, 2021

Darganfu fy ymchwil y byddai incwm sylfaenol cyffredinol yn lleihau graddfeydd tlodi cyffredinol yng Nghymru o 50% a byddai tlodi plant yn lleihau o 64%, gan ei ddisgyn i gyfradd o lai na 10% yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae ar 28% - y gwaethaf yn y DU, tuedd sy’n achosi pryder a amlygwyd yn asesiadau llesiant byrddau gwasanaethau cyhoeddus (wedi ei amlinellu isod ar dudalen 60).

Gallai Incwm Sylfaenol Cyffredinol newid bywydau’n sylweddol ledled y DU ar adeg pan mae enillion pobl wedi dod yn gynyddol ansefydlog, drwy wella llesiant meddyliol, rhoi mwy o ryddid i ddewis, gwella cyrhaeddiad addysgol, lleihau cyfraddau trosedd a chaethiwed i sylweddau, a lleddfu pwysau ar wasanaethau cyhoeddus fel gofal iechyd. Mae wedi cael ei ddisgrifio fel GIG y genhedlaeth hon.





Gallai incwm sylfaenol cyffredinol gyfrannu at y nodau llesiant canlynol:

- **Cymru Lewyrchus** - Mae'n rhoi i unigolion sicrwydd ariannol ac annibyniaeth a gall ysgogi gweithgaredd entrepreneuriaidd a chreadigrwydd. Mae hyn yn ei dro yn lleihau costau a'r baich ar y system iechyd, sydd wedi cynyddu fel canlyniad i'r pandemig, yn ogystal â hybu economïau lleol a referniw treth drwy wariant uwch.
- **Cymru Iachach** - un o'r canlyniadau mwyaf cyson o dreialon rhyngwladol yw'r effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol cyfranogwyr. Mewn gwirionedd gallai Incwm Sylfaenol Cyffredinol dalu am ei hunan yn gymharol gyflym, o ystyried yr arbedion enfawr ynghyd â llai o faich ar y GIG, gan fod tlodi'n costio biliynau i'r gwasanaeth iechyd yn flynyddol.
- **Cymru sy'n Fwy Cyfartal** - cynyddu gwytnwch yn wyneb natur newidiol gwaith a'r economi. Disgwylir i awtomeiddio a gwaith ansicr gyflwyno heriau cynyddol i gyflogaeth a gallai cael Incwm Sylfaenol Cyffredinol fod yn arf defnyddiol i helpu i amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol rhag ergydion economaidd.

- **Cymru o Gymunedau Cydlynus** - dywedodd cyfranogwyr yn y treialon Incwm Sylfaenol Cyffredinol eu bod yn teimlo'n hapusach ac yn fwy cydweithredol yn eu cymunedau, gyda chyfradd uwch o ymgysylltu a gwirfoddoli'n lleol. Bu yna hefyd astudiaethau'n dangos bod cyfranogwyr yn datblygu mwy o ymddiriedolaeth mewn sefydliadau cenedlaethol.

Pa beth sy'n newid fel canlyniad?

Bydd Cymru yn awr yn cynnal cynllun peilot ar incwm sylfaenol o £1600 y mis i rai sy'n gadael gofal gan gychwyn y flwyddyn nesaf.

Mae fy adroddiad a gomisiynwyd drwy'r felin drafod flaengar Autonomy, yn cynnwys pol piniwn yn dangos y byddai 69% o bobl yng Nghymru yn cefnogi treialu Incwm Sylfaenol Cyffredinol.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i incwm sylfaenol yn hynod o arwyddocaol – mae'n foment fawr i'r ymgyrch, yr wyf yn falch fy mod wedi bod yn rhan ohoni.

Effaith – Sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

Yr hyn a ddywedais

Mai 2020 – argymhellodd fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) y

“dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd i dreialu wythnos waith pedwar diwrnod, wedi'i halinio ag incwm sylfaenol cyffredinol, gan adeiladu ar dystiolaeth a gasglwyd o gynlluniau peilot mewn gwledydd eraill.”

Mis Hydref 2020 - [Manifesto y Dyfodol](#) Argymhelliad 28:

“Treialu Incwm Sylfaenol.”

Gorffennaf 2021 – Lansio [Cerdd a lleisiau'r gymuned ar Incwm Sylfaenol Cyffredinol](#) gan Taylor Edmonds a chyhoeddi [llythyr at y Prif Weinidog](#) yn galw am gynllun peilot Ymadawyr Gofal+

Tachwedd 2021 - Cyhoeddi astudiaeth dichonoldeb gyda Autonomy - [Dyfodol Addas i Gymru: Incwm sylfaenol i bawb](#).

A darparu tystiolaeth i [Bwyllgor Deisebau'r Senedd](#) ar ddeiseb P-06-1224

“Dylunio peilot Incwm Sylfaenol Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl”.

Pa beth sy'n newid fel canlyniad?

Mehefin 2021 – Roedd y Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys ymrwymiad i gynnal cynllun peilot ar rai'n gadael gofal.

Ionawr 2022 - Argymhellodd Pwyllgor Deisebau'r Senedd hefyd bod y cynllun peilot yn cael ei ehangu.

Chwefror 2022 - Llywodraeth Cymru'n gweithredu treial incwm sylfaenol i rai'n Gadael Gofal a fydd yn ffocysu ar daliadau diamedd i adran fach o gymdeithas. Tra bo'r rhai sy'n gadael gofal heb amheuaeth yn haeddu mwy o gymorth, ni fydd y cynllun peilot a gaiff ei ddylunio, hyd y gwn, o reidrwydd yn arwain at y wybodaeth sydd ei hangen i bennu gwir effaith polisi incwm sylfaenol.

Mae'n dal i fod yn un o'r cynlluniau incwm sylfaenol mwyaf hael i'w dreialu erioed yn y byd i'r rhai sy'n gadael gofal eleni.

Tra fy mod yn falch o'r cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru, rwyf wedi galw am gynllun peilot mwy uchelgeisiol, gan gynnwys ystod ehangach o gyfranogwyr mewn ardal ddaearyddol i ganfod a chasglu data ar yr effaith gymunedol ehangach, sef yr elfen fwyaf buddiol efallai, o'r cynllun peilot ar Incwm Sylfaenol Cyffredinol.

Dywedodd Catherine Fookes, cyfarwyddyd, Rhwydwaith Menywod Cymru:

“Gallai Incwm Sylfaenol Cyffredinol o bosib gael effaith fawr iawn ar gau'r bwlc ar anghydraddoldeb rhywedd yng Nghymru.”





**Dywedodd Jonathan Williams,
sefydlydd UBI Lab Cymru**

“Mae'n hynod bwysig ein bod yn dylunio'r peilot hwn yn iawn. Os yr ydym am ddeall yn iawn pa effaith y gallai'r polisi ei gael ar gymdeithas, rhaid i ni gynnwys pob demograffeg. Gallai canlyniadau peilot eang arwain at newid arwyddocaol yn nhermau cynnwys pobl sy'n dal i fod heb eu hargyhoeddi ynghylch rhinweddau incwm sylfaenol i bawb.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd cam enfawr i'r cyfeiriad cywir trwy fod yn ddigon dewr i gyhoeddi y byddant yn cynnal treial. Nawr mae'n rhaid iddynt gyflwyno'r ddadl i Lywodraeth y DU mai peilot sylweddol yw'r hyn y mae'r cyhoedd yng Nghymru eisiau ei weld.”

Mae fy Mardd Preswyl, Taylor Edmonds, wedi ysgrifennu cerdd bwerus 'Reconsidering Future', sy'n dychmygu Cymru mewn dyfodol lle caiff 'pawb ddigon i fyw bywyd yng ngwir ystyr y gair' mewn cefnogaeth i gynllun peilot llawn ar Incwm Sylfaenol Cyffredinol, [yma](#).




Wythnos waith fyrrach

Prin fod strwythur yr wythnos waith wedi newid mewn 100 mlynedd. Ac eto yn sgil y pandemig, mae llawer o bobl ledled y Byd yn chwilio am gydbwysedd iachach rhwng bywyd a gwaith – mae cyfrifoldebau gofalu cynyddol am boblogaeth sy'n heneiddio, cynnydd mewn materion iechyd meddwl sy'n cael eu dwysáu gan weithio oriau hir a straen cyson, a sylweddoliad nad oes angen i batrymau gwaith fod mor anhyblyg, i gyd yn ffactorau sy'n gwneud wythnos waith fyrrach yn fwy deniadol.

Ym mis Chwefror 2021, cynhyrchais [dystiolaeth](#) i ddangos manteision llesiant wythnos waith fyrrach ar y cyd â'r felin drafod [Autonomy](#), gan wneud cyfres o argymhellion ynghylch y modd y gellid ei threialu yng Nghymru, a'i threialu yn fy swyddfa fy hun.

Rhoddais dystiolaeth i Bwyllgor Deisebau'r Senedd, a rhoddwyd sylw eang i'r adroddiad yn y cyfryngau a chreodd ddiddordeb cyhoeddus enfawr, gyda nifer o brif erthyglau mewn nifer o gyhoeddiadau. Cafodd sylw mewn 49 o ddarnau yn y cyfryngau gan gynnwys cyfryngau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a chyrrhaeddodd dros 25,000 o bobl ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn dangos bod awydd mawr i leihau oriau gwaith gyda 76% o'r cyhoedd yng Nghymru'n cefnogi rhannu gwaith fel bod pawb yn gallu cael cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, a 57% o'r cyhoedd yng Nghymru'n cefnogi'r syniad o Lywodraeth Cymru'n treialu cynllun i symud tuag at wythnos waith pedwar diwrnod.



Gall wythnos waith fyrrach fod ar sawl ffurf, er enghraifft wythnos pedwar diwrnod neu lai o oriau drwy gydol yr wythnos, a dyna pam y dylid annog treialon mewn gwahanol sectorau a diwydiannau i weld beth allai weithio orau.

Gallai wneud cyfraniad i nifer o nodau llesiant, ac mae'n bwysig i roi prawf ar y syniad mewn cyd-destun Cymreig.

- **Cymru Lewyrchus** - Gallai hefyd, o bosib, greu 38,000 o swyddi yng Nghymru. Mae treialon ar draws y byd hefyd yn dangos y gall wythnos waith fyrrach arwain at gynydd mewn cynhyrchiant yn ogystal â gwell iechyd a hapusrwydd a llai o stres. Os fedr gweithwyr weithio llai o oriau am yr un cyflog, tra hefyd yn perfformio'n well a bod yn fwy cynhyrchol i'w cyflogwyr, yna mae pawb ar eu hennill.
- **Cymru Gydnerth** - byddai'n golygu lleihad arwyddocaol mewn allyriadau carbon – petai wythnos pedwar diwrnod yn cael ei chyflwyno ar draws y DU, byddai'n gyfystyr â thynnu 1.3 miliwn o geir oddi ar y ffordd yn flynyddol (heb sôn am y lleihad mewn allyriadau'n deillio o gymudo).
- **Cymru sy'n Fwy Cyfartal** - Gallai wythnos waith fyrrach ailddosbarthu swyddi mewn dull tecach a brwydro anghydraddoldeb yn y gweithle.
- **Cymru o Gymunedau Cydlynus** - gallai llai o stres a mwy o amser rhydd arwain at fwy o amser i ymgysylltu ac ymgysylltu yn y gymuned.





Mae clwstwr o sefydliadau yng Nghymru eisoes wedi cyflwyno'n llwyddiannus wythnosau gwaith byrrach, yn ogystal â llawer mwy ledled y DU:

- Technovent (cyflennydd offer meddygol wedi ei leoli ym Mhen-y-Bont ar Ogwr)
- Indycube (Darparydd gofod gweithio ar y cyd wedi ei leoli yng Nghymru)
- Slunks (salon gwallt wedi ei leoli yng Nghaerdydd)
- Cynllun peilot ar raddfa'r DU gyfan yn cychwyn gydag ystod eang o fusnesau ym mis Mehefin 2022.



Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

Mae fy ymchwil ar incwm sylfaenol cyffredinol ac wythnos waith fyrrach wedi helpu i:

- Newid polisi – ym mis Mehefin 2021, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru eu hymrwymiad i gynllun peilot a fyddai'n darparu incwm sylfaenol cyffredinol i rai'n gadael gofal. Bydd Cymru yn awr yn cynnal cynllun peilot ar £1600 y mis o incwm sylfaenol i rai sy'n gadael gofal gan gychwyn y flwyddyn nesaf.
- Annog sefydliadau i dreialu wythnos waith fyrrach a helpu i gysylltu partion â diddordeb.

Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos cynnydd o 90% yn y DU mewn hysbysebion swyddi sy'n hysbysebu rolau sy'n cynnig wythnos 4 diwrnod..



Llun gan: Matt Horwood

“ Mae [Dyfodol Addas i Gymru: y map ffordd i wythnos waith fyrrach] yn gyfraniad defnyddiol i'r diddordeb cynyddol mewn wythnos waith fyrrach a'i pherthynas â chynhyrchiant a llesiant... Rydym am annog mwy o gyflogwyr i ddarparu gweithwyr â mwy o ddewis ynglŷn â ble a phryd y maent yn gweithio. Rydym wedi ymrwmo i archwilio cynnydd a'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o gynlluniau peilot mewn gwledydd eraill ac i fanteisio ar y gwersi y gall Cymru eu dysgu. Mae eich adroddiad yn ychwanegu at y gwaith hwnnw o gasglu tystiolaeth ac mae'n rhoi syniadau diddorol ar y modd y gellir annog cynnydd pellach. Edrychwn ymlaen at drafod yr adroddiad a'i ganfyddiadau gyda phartneriaid cymdeithasol ac eraill. Rwyf wedi gofyn i swyddogion gadw mewn cysylltiad â'ch swyddfa wrth i'n syniadau am y materion hyn ddatblygu. ”

Ymateb Jane Hutt AS, Gweinidog dros Gyfawnder Cymdeithasol

Cyllideb Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi craffu ar y gyllideb genedlaethol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf oherwydd dyma'r set unigol fwyaf o benderfyniadau a wneir gan gorff cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn sy'n effeithio'n sylweddol ar lesiant yng Nghymru drwyddi draw. Yn ogystal â phennu sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu hariannu, mae proses a phenderfyniadau'r gyllideb yn anfon arwyddion pwysig am flaenoriaethau ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus, ac mae angen iddi ddangos sut mae'r blaenoriaethau hynny'n newid i wireddu dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyhoeddwyd cyllideb Llywodraeth Cymru o £24 biliwn ym mis Rhagfyr 2021 ac mae'n ymrwmo i greu “Cymru gryfach, decach a gwyddach” ac yn amlinellu cynlluniau gwariant llywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf a hyn yn cynnwys gwariant i gyflawni ymrwymadau sy'n rhan o Gytundeb Cydweithredol Llafur/Plaid Cymru a luniwyd yn ddiweddar.

Mae'r gyllideb hon yn arbennig o bwysig am y rhesymau canlynol:

- Dyma'r gyllideb gyntaf ers y Rhaglen Lywodraethu gyntaf a'r amcanion llesiant a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2021.
- Dyma'r gyllideb gyntaf yn dilyn ymrwymadau Llywodraeth Cymru yn COP26.
- Dyma'r gyllideb gyntaf ers lansio cynllun Cymru Sero Net ar gyfer 2021-25. Fel y cyfryw, ni fu'r angen i wneud llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ganolbwynt y gyllideb hon erioed mor bwysig.

“ Byddwn yn buddsoddi mewn Cymru gryfach gan fuddsoddi mewn pobl, gwasanaethau, seilwaith a busnesau. Cymru decach yn dathlu amrywiaeth, ailbwyo cyfoeth a darganfod ein hunaniaeth. A Chymru wyrddach, sy'n creu ymddygiadau sy'n cynorthwyo bioamrywiaeth ac sy'n mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ac yn annog ein holl bartneriaid i wneud yr un fath. ”

Dyfyniad o'r Gyllideb

Cydweithiais gyda'r [New Economics Foundation](#) i ddadansoddi'r gyllideb, ochr yn ochr â'm tîm o Ysgogwyr Newid a ddaeth ag arbenigedd mewn sgiliau ar gyfer y dyfodol, datgarboneiddio, cydraddoldeb, trafnidiaeth, tai a natur. Rhoddais dystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Cyllid y Senedd a rhoddais dystiolaeth yn bersonol ym mis Ionawr 2022.

Negeseuon allweddol:

- Croesawais wariant cyfalaf cynyddol ar argyfyngau hinsawdd a natur, ond mae angen o hyd i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad cynhwysfawr o effaith carbon eu penderfyniadau cyllidebol.
- Rwyf am weld aliniad cliriach rhwng ymrwymadau Sero Net Cymru ac ymrwymadau cyllidebol.
- Croesewais sefydlu Grŵp Cyngori ar Wella'r Gyllideb ac Effaith newydd ond mae angen mwy o gyngor, cymorth a chraffu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud mewn rhai meysydd – er enghraifft atal. Mae cyfranogiad hefyd yn faes i'w wella.
- Roedd y broses Asesiadau Effaith Integredig Strategol yn wan ac angen ei gwella – ychydig iawn o ddadansoddiad oedd ynddo ar y modd y bydd penderfyniadau gwariant yn effeithio ar wahanol gymunedau yng Nghymru. Ystyri'r demograffeg ond mewn seilo, gan anwybyddu croestoriadedd, ac roedd yn diffygiol mewn integreiddiad.
- Mae ar feysydd eraill, er enghraifft, cynllunio sgiliau, buddsoddi, caffael, contract economaidd – i gyd angen mwy o waith i alluogi newid system, ac mae'n rhaid i hyn fynd law yn llaw â blaenoriaethau cyllideb.
- Mae tryloywder yn dal i fod yn broblem ac mae'n anodd olrhain a yw llinellau gwariant wedi newid/cynyddu o'u cymharu â chyllidebau blaenorol.



Beth ddigwyddodd fel canlyniad yng nghyd-destun Hinsawdd

Cyfrannodd fy ngalwad am fwy o weithredu ar newid hinsawdd at ddatganiad argyfwng natur yng Nghymru, targedau datgarboneiddio newydd, sefydlu Gweinyddiaeth Hinsawdd newydd, a chynllun ar gyfer buddsoddiad o £1.8bn, wedi'i dargedu, yn cynnwys datgarboneiddio'r stoc dai, llifogydd, datgoedwigo, bioamrywiaeth, teithio llesol ac ynni adnewyddol.

Mae ymrwymïadau yn awr ar ddatgarboneiddio cartrefi (£580m, £1bn i gefnogi 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu, a £900m i ddatblygu ysgolion a cholegau di-garbon ac ati (sydd yn ei hanfod yn mynd â ni i dros £2bn). Mae amlygrwydd gwariant datgarboneiddio yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn parhau i ddangos cynnydd da.

Pwrpas 2

Cefnogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd, rwyf wedi gweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan roi cyngor, arweiniad a chymorth iddynt wrth iddynt gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi defnyddio fy mhwerau:

1. I gyfrannu tystiolaeth i Bwyllgorau'r Senedd.
2. I dreialu model cymorth newydd ar gyfer y 48 corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf.
3. I ymateb i 252 o geisiadau am gymorth i weithredu'r Ddeddf, 89 ohonynt oddi wrth gyrff cyhoeddus.
4. I gyflawni dyletswyddau statudol mewn perthynas â chynghori pob un o'r 15 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar eu hasesiadau llesiant.
5. I weithio'n agos gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ein priod ddyletswyddau statudol.
6. I gyflawni gwaith dilynol ar fy Adolygiad Adran 20 cyntaf i arferion caffael.
7. I gychwyn ail Adolygiad Adran 20 ar y modd y mae peirianwaith Llywodraeth Cymru'n cyflawni datblygu cynaliadwy ac yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i wireddu eu hanghenion.

Rwy'n falch bod llawer yn cydnabod bod y cymorth hwn yn ddefnyddiol. Mae bron yn her amhosibl i gefnogi 48 o gyrff cyhoeddus ar draws pob maes polisi tra hefyd yn sicrhau nad yw deddfwriaeth a chanllawiau newydd sy'n dod o Lywodraeth Cymru yn tanseilio'r Ddeddf a gallu cyrff cyhoeddus i'w gweithredu. Nid yw'n syndod bod y rhai yr ydym wedi llwyddo i'w helpu o'r farn fod y cymorth hwnnw yn werthfawr, ac mae eraill eisiau mwy o'n hamser.

Mae **48** Corff Cyhoeddus yn awr yn ddarostyngedig i'r Ddeddf wrth i Gydbwyllgorau Corfforaethol gael eu hychwanegu ym mis Rhagfyr 2021.

“Mae Chwaraeon Cymru wedi canfod bod y cymorth, yr adnoddau a'r cyngor gan y tîm yn amhrisiadwy. Mae'r modd y maent ar gael yn gyson i bob corff cyhoeddus yn her.”

Chwaraeon Wales

Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

Gwneuthum argymell	Pa beth sy'n newid fel canlyniad?
Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei wariant sydd wedi ei gyfeirio at ddatgarboneiddio'r economi Cymreig.	Ymrwymiad i wario £1.8bn (cyfalaf) ar hinsawdd a natur dros dair blynedd – yng nghyllideb 2020/21 roedd hyn yn £140m o gyfalaf, a £220m yn 2021/22, felly mae'n gynydd sylweddol ers hynny. Mae'n braf gweld Llywodraeth Cymru'n gosod hwn ar y blaen ac yn y canol. Gyda buddsoddiad blynyddol cynyddol o oddeutu £380m.
Dylai Llywodraeth Cymru symud i ffwrdd oddi wrth fuddsoddiadau mewn seilwaith ffyrdd a phrosiectau tebyg carbon uchel.	Mae gwariant cyfalaf wedi symud i ffwrdd yn sylweddol oddi wrth brosiectau ffyrdd mawr. Mae hwn yn newid cadarnhaol. Roedd prosiectau seilwaith ffyrdd yn arfer cyfrif am ryw 2/3 o wariant cyfalaf ar drafndiaeth; 1/3 ydyw bellach.
Dylai ymrwymïadau gwariant gefnogi a chyd fynd â chynllun Cymru Sero Net.	Crybwyllir Cymru Sero Net yn naratif y gyllideb yn achlysurol, ond nid yw'n ffurfio rhan ganolog ohono. Mae yna fwy o gyfeiriadau at ymrwymïadau i fod yn ddi-garbon ond dim croesfapio clir. Gellid gwella ar hyn.



“Mae ein perthynas â swyddfa'r Comisiynydd yn rhagorol. Rwy'n meddwl eu bod yn hynod wybodus, yn frwdfrydig iawn, yn gefnogol, fel y mae Swyddfa Archwilio Cymru, nid yn unig ar y Ddeddf, ond ar ein busnes ehangach lle maent yn medru rhoi barn i ni ar sut yr ydym yn dod ymlaen, sut yr ydym yn gwario arian cyhoeddus, ond yn bwysicach fyth, ein cyfeirio at arferion da a meysydd eraill y gall y byddwn yn dymuno eu harchwilio.”

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

“Rydym wedi ymgysylltu'n gyson â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac wedi derbyn llawer o gymorth ymarferol... Mae'r cymorth yr ydym wedi'i gael oddi wrthynt wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Roeddent yn barod i deithio i fyny i ogledd Cymru i roi gwybodaeth ychwanegol i ni, cyflwyniadau a chefnogaeth ar sut i sefydlu dulliau gweithredu. Rwy'n meddwl bod hynny'n cael ei weld fel cynnig cefnogol iawn i bob awdurdod ar draws gogledd Cymru.”

Cyngor Ynys Môn

“Rydym wedi defnyddio offer, adnoddau a gwybodaeth y Comisiynydd i sicrhau bod adnoddau ar gael ar draws y sefydliad... Roedd cefnogaeth a mewnbwn gan y Comisiynydd yn ddefnyddiol iawn, iawn.”

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Pwynt Cyswllt penodedig

Roedd Adroddiad Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 2021 'Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: y Stori Hyd yn Hyn' yn cydnabod bod gwaith fy nhîm yn cael ei werthfawrogi'n fawr ond hefyd, nad oes gennyf ddigon o adnoddau.

“Clywsom lawer o enghreifftiau penodol yn dangos y modd yr oedd arbenigedd a chanllawiau swyddfa'r Comisiynydd wedi llywio gwasanaethau cyhoeddus er gwell neu wedi helpu i sefydlu'r newid diwylliant sydd mor ganolog i weithrediad llwyddiannus y ddeddfwriaeth hon.”

“Dro ar ôl tro dywedwyd wrthym gan gyrff cyhoeddus nad oedd gan swyddfa'r Comisiynydd yr adnoddau i allu darparu'r lefelau cymorth yr oedd eu heisiau ar gyrff cyhoeddus.”

Dywedodd sawl corff cyhoeddus wrth y Pwyllgor eu bod yn dymuno cael mwy o gysylltiad â'm swyddfa.

“...yr hyn rwyf eisiau mwy ohono gan swyddfa'r Comisiynydd: rwyf eisiau mwy o amser. Rwy'n meddwl eu bod yn ardderchog. Does dim digon ohonyn nhw, ac maen nhw'n ceisio gwneud llawer iawn gydag adnoddau bach iawn... Perthynas ragorol, byddem yn hoffi treulio mwy o amser gyda thîm y Comisiynydd. Adnodd rhagorol ond cyfyngedig.”

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

“...Dydw i ddim yn gwybod beth yw adnoddau'r Comisiynydd ond yn sicr byddai cael cyswllt uniongyrchol (yn ddefnyddiol), pe bai ganddi'r adnoddau.”

Cyngor Sir Powys



“Cael cynrychiolydd o swyddfa'r Comisiynydd ym mhob rhanbarth fel y gallwn gael mynediad atynt. Mwy cyfleus iddynt fod yn bresennol ym mhob rhanbarth (nid sir oherwydd nad oes ganddynt ddigon o staff).”

Cyngor Ynys Môn

Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn ynghylch fy ngwaith:

Argymhelliad 3: Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrrff cyhoeddus Cymru sicrhau eu bod yn datblygu cysylltiadau adeiladol. Mae'r anghysondeb yn eu cysylltiad wedi cyfyngu ar effaith gwaith y Comisiynydd.

Argymhelliad 4: Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol roi blaenoriaeth i gefnogi cyrrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni'r ddeddfwriaeth hon.

Gwneuthum weithredu'r argymhellion hyn drwy sefydlu pwyntiau cyswllt ar gyfer pob corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf. Dros gyfnod o chwe mis, mae'r Pwyntiau Cyswllt wedi:

- Adeiladu cysylltiadau cyson ac adeiladol
- Gwella cyfathrebu
- Darparu cyngor a chefnogaeth
- Arddangos arfer da
- Cyfeirio at adnoddau defnyddiol ac enghreifftiau o arfer da

Gwneuthum werthuso effeithiau'r model hwn, ac ystyriais sut i ymateb i anghenion strategol a gweithredol cyrrff cyhoeddus, y maent wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- **Cyngor a chefnogaeth wedi'i deilwra, sy'n benodol i'r sector**, er enghraifft bod yn ffrind beirniadol ar ddarnau mawr o waith fel gosod amcanion llesiant, [asesiadau effaith integredig a'r saith maes newid corfforaethol](#).
- **Cefnogaeth barhaus** trwy gydol y prosiectau hyn - nid yn unig asesiad ar y diwedd.
- **Cymorth parhaus wrth gymhwyso ein hoffer a'n hadnoddau**, a'u helpu i gael gwared ar rwystrau sefydliadol.
- Helpu i **greu ymagwedd sefydliadol** lle mae staff ar bob lefel yn ystyried y Ddeddf yn awtomatig yn eu gwaith drwyddi draw, gan ofyn i ni ymestyn y tu hwnt i arweinwyr corfforaethol ar draws y sefydliad.
- **Presenoldeb parhaus mewn cyfarfodydd perthnasol** i gynnig cefnogaeth amser real a mewnbwn fel ffrind beirniadol. Byddent yn hoffi mwy o weithdai a sgysiau i feithrin y berthynas.
- Yr angen am **gefnogaeth gyson ar weithredu a rhwydweithio**.

Mynd ymlaen?

Bydd cael pwynt cyswllt cyson ac ymroddedig yn parhau i fod yn nodwedd o'm swyddfa, os medraf sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar ei gyfer. Ar gyfer fy nghyllideb gweler yr adran ar Bwrpas 4.

Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

Gellir dangos effaith y gwaith hwn drwy'r tystebau hyn lle mae cyrrff cyhoeddus wedi dweud wrthyf sut y maent yn croesawu'r ymagwedd hon:

“ [Rydym] yn croesawu penderfyniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) drwy greu pwynt cyswllt penodedig o fewn tîm Cenedlaethau'r Dyfodol. ”

Llythyr oddi wrth Fwrdd Iechyd

“ Rwyf i wir yn croesawu'r ffordd yma o gydweithio. Mae cael pwynt cyswllt cyson a rheolaidd yn wych. ”

Cyngor Sir Ddinbych

“ Mae cael y pwynt cyswllt hwnnw gyda'r Comisiynydd a swyddfa'r Comisiynydd yn fenter i'w chroesawu. ”

Cyfarfod gydag arweinydd cyngor lleol

“ Mae pwynt cyswllt yn rhywbeth sydd ei angen, ac rydym wedi bod yn gofyn am hyn ers cryn amser. Mae'n dda cael cydnabyddiaeth nad creu adroddiadau yw'r unig ffordd o gyfathrebu â chyrrff cyhoeddus. ”

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

“ Rwy'n bendant yn cefnogi'r fenter hon, cyn hyn nid oedd llawer o ryngweithio rhyngom â'r Swyddfa a nawr mae'n teimlo fel ein bod yn cael sgwrs ddwy ffordd. ”

Cyfarfod gydag Aelod Cabinet o fewn cyngor lleol

“ Mae'r berthynas yn gweithio'n dda iawn drwy gael y cyswllt rheolaidd a ninnau'n dod i adnabod ein gilydd a chael y cyswllt hwnnw. ”

Cyngor Bro Morgannwg


“ Mae wedi gwneud byd o wahaniaeth (i gael pwynt cyswllt) ”

Llyfrgell Genedlaethol



Rhoi cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus

Yn 2021-22, ymatebais i dros 138 o geisiadau oddi wrth gyrff cyhoeddus, 9 cais oddi wrth fyrdau gwasanaethau cyhoeddus a 270 cais arall oddi wrth sefydliadau amrywiol eraill, fel y byd academaidd, y sector gwirfoddol, grwpiau cymunedol, busnesau, ac ati. Rwyf wedi cael 1,183 o geisiadau ers mis Mai 2018 pan ddechreuais gadw record ohonynt.




Mae gwaith fy nhîm ymroddedig newydd wedi arwain at gynydd o 184% o geisiadau oddi wrth gyrff cyhoeddus.

Mae gennyf feini prawf i'm helpu i ddethol pwy i'w cynghori o fewn fy adnoddau cyfyngedig i sicrhau fy mod:

- Yn cael yr effaith fwyaf posibl
- Yn aros o fewn ffiniau fy mhwerau statudol
- Yn ysgogi'r newid yr wyf am ei weld yn y dull mwyaf effeithlon

Fy mlaenoriaeth yw cefnogi'r 19 bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a'r 48 corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf ac yn benodol Llywodraeth Cymru sy'n pennu polisiau cenedlaethol sy'n effeithio ar bawb.

Ffigwr 2:





Mae enghreifftiau o gymorth yr wyf wedi'i ddarparu eleni yn cynnwys:

- Cynghori **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** ar fanteision amgylcheddol a chymunedol posibl eu hystadau ac ysbyty newydd.
- Wedi gwneud sylwadau ar Adroddiad Perfformiad Corfforaethol **Cyngor Rhondda Cynon Taf**.
- Cynghori'r Prif Swyddog Tân a **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** mewn perthynas â gweithredu'r Ddeddf.
- Rhoi sylwadau ar adroddiadau blynyddol **Chwaraeon Cymru** ar amcanion llesiant.
- Cefnogi **Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru** i baratoi camau a chanllawiau cliriach i fyrrddau gwasanaethau cyhoeddus a'r modd y gallant wneud y dyfodol a'r hirdymor yn rhan annatod o'u hasesiadau a chynlluniau llesiant.
- Cydweithio gyda **Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru** ar y modd y gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus gynnwys pobl mewn asesiadau llesiant a chynllunio.
- Rhoi adborth ar **Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru**. Tynnu sylw at yr angen am feddwl yn yr hirdymor, newid moddol, ystyried pob dimensiwn llesiant ac integreiddio ar draws nodau.
- Cynnal nifer fawr o gyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru i drafod sut y bydd y **Cyd-bwyllgorau Corfforaethol** yn bwrw 'mlaen gyda'u dyletswyddau o dan y Ddeddf heb lethu ymhellach y baich ar y dirwedd or-gymhleth. Awgrymu sawl opsiwn ar gyfer integreiddio rhwng cyrff cyhoeddus, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ac amcanion llesiant lleol, yn ogystal â rhywfaint o newid iaith i sicrhau bod hyn yn cyd-fynd yn llawn â Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Darparu cyngor manwl i Lywodraeth Cymru ar y **Contract Diwylliannol** a chefnogi ac arwain **Cynghorau Conwy a Chasnewydd** mewn perthynas â'u Cynigion Dinas Diwylliant.
- Cefnogi **Cyngor Sir Ddinbych** ar feysydd polisi amrywiol fel caffael a datgarboneiddio.
- Cefnogi **Cyfoeth Naturiol Cymru** ar fframwaith drafft eu cynllun llesiant, a helpodd wedyn i drwytho eu mewnbwn i asesiadau llesiant.
- Cyfrannu at ystod o rwydweithiau i gynghori ar bynciau penodol megis **caffael**: Partneriaeth Ymchwil a Mewnwelediad Gogledd Cymru; Fforwm Caffael Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru; Rhwydwaith Caffael Cenedlaethol; a'r Tasglu Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol.

Rwyf hefyd wedi cynorthwyo cyrff cyhoeddus:

- Drwy weithredu'n bersonol gannoedd o ymrwymadau lle gwneuthum roi cyngor i arweinwyr a staff rheng flaen ac unigolion o wahanol rannau o Gymru a thu hwnt. Rwyf wedi adeiladu dealltwriaeth o'r Ddeddf drwy lawer o ddigwyddiadau, sesiynau hyfforddi, gweithdai, cynadleddau a sesiynau ffocysu gyda byrddau.

“Bore ysbrydoledig mewn sesiwn datblygu Bwrdd – ffocws ar wella iechyd y boblogaeth, moddion wedi ei bersonoli, gofal iechyd digidol a her ddilys oddi wrth Sophie Howe ar y modd yr ydym ni mewn gwirionedd yn herio ein hunian i wneud llesiant ein cymunedau'n ganolbwynt popeth yr ydym yn ei wneud.”

**Paul Mears, Prif Swyddog
Gweithredol Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**



- Darparu cymorth drwy ail garfan [Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol](#) lle bydd uwch arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus yn medru cyrchu mentora o chwith gyda 32 o arweinwyr y dyfodol a chyfleoedd i brofi datblygiad polisi gyda'r Academi. Ariennir y rhaglen hon yn llawn gan sefydliadau partner ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.
- Cyfrannu at gyfarfodydd chwarterol [Cydllynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru](#) + rhwydwaith proffesiynol o lunwyr polisi ac ymarferwyr sy'n gwneud datblygu cynaliadwy'n rhan annatod o'r 44 corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i redeg a chymryd rhan yng nghyfarfodydd rhwydwaith Cydllynwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a gynhelir 3-4 gwaith y flwyddyn. Mae wedi bod yn gadarnhaol i weld egni a chyfranogiad gweithredol y cydllynwyr yn y cyfarfodydd hyn. Rydym hefyd yn defnyddio'r cyfarfodydd rhwydwaith, bwletinau chwarterol, gweminarau ar-lein a dulliau eraill o rannu arfer da/gorau gyda BGCau – mae hyn yn arbennig o bwerus pan fyddwn yn clywed oddi wrth FGCau sy'n teimlo'u bod yn cyflawni agweddau ar y Ddeddfau yn dda yn eu hardaloedd.

- Cyhoeddi ['fersiynau cryno' o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) sydd wedi'u teilwra ar gyfer sectorau ac adrannau penodol mewn cyrff cyhoeddus. Mae fy nhîm wedi cynnal sesiwn gyda gwahanol gyrff sectoraidd, er enghraifft Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru (NWPOG) a Cynllunwyr Ifanc Cymru i'w huwchgilio ar ddefnyddio'r adnoddau hyn. Gallwch ddod o hyd i'r adnoddau hyn [yma](#).
- Ychwanegu'n barhaus at gronfa o [astudiaethau achos](#) yn dangos beth sy'n newid o ganlyniad i'r Ddeddf. Bydd rhannu arfer da yn ysbrydoli ac yn hybu gweithgaredd pellach.





“Rydym yn hoff iawn o fformat y ddogfen, sy'n syml, deniadol, hawdd ei ddefnyddio. Credwn fod yr Ystadegau a'r Tueddiadau yn nodi'n glir iawn beth yw'r problemau ac mae'n rhoi sylw cyfartal i argyfyngau cynhesu byd-eang a cholli bioamrywiaeth. Mae model toesen Oxfam yn dangos sut yr ydym ni yng Nghymru'n byw tu hwnt i'n cyfran deg o adnoddau'r byd. Rydym yn croesawu'r arweiniad y mae'r ddogfen yn ei roi fel gweledigaeth glir iawn o'r hyn y dylai Cymru fod yn anelu ato.”

Adborth gan Gorff Cyhoeddus Cenedlaethol

“Mae hyn yn dda - dwi'n hoffi hwn. Ffordd wych o ddarlunio ac egluro rôl a phwysigrwydd tai o safbwynt y cyfleoedd a'r buddion ehangach ac ati. Ffordd ddefnyddiol iawn o gyflwyno'r cysylltiad rhwng Tai a Chenedlaethau'r Dyfodol – yn enwedig i bobl leyg.”

Adborth gan Awdurdod Lleol

Edrych ymlaen at 2022 a thu hwnt

Mae'r dyfodol yn cyflwyno mwy fyth o angen am y math hwn o gymorth wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu:

- **Adfer ar ôl COVID-19:** Rwyf yn derbyn mwy a mwy o geisiadau i helpu cyrff cyhoeddus i 'ddysgu'r gwersi' a glynu wrth y pethau cadarnhaol o'r pandemig. Mae cyrff cyhoeddus hefyd wedi dweud bod galw, ar ôl covid, am ailrymuso negeseuon ynghylch y Ddeddf.
- **Etholiadau Awdurdodau Lleol:** Mae cyrff cyhoeddus wedi tynnu sylw at angen cynyddol am gymorth a chefnogaeth yn dilyn etholiadau Mai 2022. Bydd hyn yn arwydd o newidiadau tebygol i gynlluniau corfforaethol, amcanion llesiant a chynllunio hirdymor, yn ogystal â'r angen i gryfhau negeseuon y Ddeddf a'u hyrwyddo.
- **Cyd-destun Llywodraeth Cymru:** Mae cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu newydd eisoes yn creu galw, a gallai ffactorau allanol, fel newid yn arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru, hefyd effeithio ar yr angen am gyngor.

Hefyd, bu llawer o alw am fy nghyngor o du'r sector preifat, y sector gwirfoddol, sefydliadau proffesiynol, ysgolion a phrifysgolion. Mae cwrdd y ceisiadau'n amrywio'n fawr ond mae'n golygu y gallaf roi help i bobl lle a phryd y mae ei angen arnynt.

Eleni, rwyf wedi:

- Darparu cefnogaeth a gwybodaeth ar gyfer ymchwil Traws-genedlaethol Ymddiriedolaeth Carnegie y DU ar ymagweddau llesiant seiliedig ar ganlyniadau.
- Cefnogi [Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru](#) gyda'u sesiynau briffio i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gydraddoldeb, effeithiau diwyllianol Brexit a COVID-19.
- Darparu gwybodaeth ac adnoddau i nifer o academyddion ynghylch ymchwil amrywiol.
- Rhoi darlith am y Ddeddf i fyfyrwyr MSc Prifysgol Caerdydd.
- Cwrdd â, a darparu gwybodaeth ac adnoddau am y Ddeddf i nifer o sefydliadau rhyngwladol sydd â diddordeb yn yr ymagwedd Gymreig tuag at weithredu.

“Mae'r Ddeddf wedi cael mwy o effaith nag a ragwelwyd gennym yn wreiddiol”... “Mae'r hyn yr ydym wedi'i weld mewn gwirionedd, wedi dod yn y ffordd o weithio ymhlith cyrff cyhoeddus. Ac o ran awdurdodau lleol, mae wedi darparu fframwaith y mae bron popeth yn mynd drwyddo. Felly, yn yr ystyr hwnnw, mae wedi helpu i annog mwy o feddwl ar lefelau uwch am elfennau'r Ddeddf, sy'n beth cadarnhaol.”

**Tim Peppin, Cymdeithas
Llywodraeth Leol Cymru**

Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

- Mae mwy o ymgysylltu a chynghor gan fy nhîm wedi helpu i sicrhau newidiadau gweithdrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd i'r afael â chaffael, iechyd, tai, systemau bwyd, datgarboneiddio, gwerth cymdeithasol, ymgysylltiad y gymuned a fframweithiau mesur.
- Mae fy nghyngor i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi eu helpu i wneud ystyriaethau'r dyfodol ac hirdymor yn rhan annatod o'u hasesiadau llesiant.
- Codi ymwybyddiaeth o'r [saith maes newid corfforaethol](#) o dan y Ddeddf. Er enghraifft, ar gynllunio a rheoli ystadau, arweiniodd fy nghyngor i Fwrdd Iechyd Hywel Dda at ymrwymadau ynghylch y manteision posibl y gallai ysbyty newydd eu cael ar Gymru Gydnerth a Chymru o Gymunedau Cydlynol.
- Wedi sicrhau ymrwymadau amrywiol gan Weinidogion a'r Llywodraeth ynghylch y modd y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn bwrw ymlaen â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf heb roi mwy o faich ar y dirwedd or-gymhleth. Wedi awgrymu sawl dewis ar gyfer integreiddio rhwng cyrff cyhoeddus, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ac amcanion llesiant lleol, yn ogystal â rhywfaint o newid iaith i sicrhau bod hyn yn cyd-fynd yn llawn â Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Dylanwadu ar bolisi ac ymrwymadau mewn meysydd sy'n cynnwys cynllunio trafnidiaeth. Amlygodd fy adborth manwl ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd yr angen am feddwl hirdymor, newid moddol, ystyriaeth o bob dimensiwn llesiant ac integreiddio ar draws nodau. Mae hwn wedi bod yn faes cyngor parhaus dros nifer o flynyddoedd.



Cyflawni fy nyleswyddau statudol

Mae wedi bod yn amser pwysig i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus oherwydd o Hydref 2021, maent wedi dechrau cyhoeddi eu hail asesiadau llesiant.

O dan y Ddeddf, rwyf yn ymgynghorai statudol ar yr asesiadau drafft. Gweithiodd fy swyddfa gydag Is-adran Partneriaeth Llywodraeth Cymru i rannu disgwyliadau ar gyfer yr asesiadau llesiant sydd i ddod. Roedd y canllawiau hyn yn nodi'r hyn yr oeddem yn disgwyl ei weld yn ystod yr ail rownd o gynllunio llesiant gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, a'r hyn y byddem yn ei wneud i'w cefnogi i eithaf ein gallu yn y broses hon.

Dros gyfnod o chwe mis yn 2021-22, rhoddais 14 set o gyngor manwl ac unigolyddol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar eu hasesiadau llesiant.

Yr heriau mawr a ddaeth i'r amlwg oedd:

1. Mae **costau byw** yn parhau i fod yn her sylweddol sy'n debygol o waethygu.
2. Nid yw byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bob amser yn gwneud **cysylltiadau** â'r ysgogwyr sydd ganddynt i wella llesiant, megis yr economi cylchol, caffael lleol, a chynllunio defnydd tir; ochr yn ochr â sectorau allweddol megis twristiaeth, bwyd ac amaethyddiaeth.
3. Mae bylchau sylweddol yn y dystiolaeth o du **'lleisiau nas clywir yn aml'** megis y rhai sy'n LGBTQ+, ac ystyriaeth gyfyngedig iawn o groestoriadedd.
4. Mae **newidiadau demograffig** yn golygu bod Cymru'n debygol o wynebu argyfwng o ran darparu gofal â thâl, tra bod niferoedd gofalgwyr di-dâl wedi cynyddu.
5. Mae Covid-19, costau byw, demograffeg sy'n newid, dyfodol gwaith a newid hinsawdd i gyd yn debygol o waethygu'r **anghydraddoldebau** presennol yng Nghymru os na chymerir camau i harneisio cyfleoedd a chyfyngu niwed.

Y cryfderau amlwg oedd:

1. Mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn deall yr **argyfyngau hinsawdd a natur** yn well nag erioed o'r blaen.
2. Roedd yna enghreifftiau cryf o **gydweithio**.
3. Tystiolaeth dda o **feddwl cydgysylltiedig** a chreu cysylltiadau.
4. Ceir rhai enghreifftiau cryf o **ymgyfraniad**. Mae'r rhan fwyaf o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi gweithio'n galed i ennyn ymgysylltiad trigolion lleol ac ymgorffori eu barn yn eu hasesiadau.
5. Roedd lefel da o **fyfyrion gonest** hyd yn hyn, ar y broses yn ogystal ag ar effaith Covid.
6. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi gwneud yn dda i ystyried **penderfynyddion ehangach canlyniadau cymdeithasol** megis drwy gysylltu iechyd â mynediad i fannau gwyrdd, anghydraddoldeb incwm ac ansawdd tai ac ati.
7. Ar y cyfan, mae cyrff cyhoeddus yn dangos eu bod yn ystyried gwybodaeth am **dueddiadau'r dyfodol**.

Mae hwn yn welliant clir mewn cymhariaeth â'r rownd gyntaf.

Cynllunio llesiant: crynodeb o amserlenni ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus

Paratoi asesiadau llesiant

- Ymgynghorwyd â hwynt rhwng Tachwedd 2021 a Mawrth 2022 a rhoddwyd cyngor ar yr asesiadau llesiant drafft.
- Rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi eu Hasesiadau Llesiant erbyn 6 Mai 2022.

Paratoi cynlluniau llesiant lleol: cyngor y Comisiynydd

- Byddaf yn rhoi cyngor i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar sut i gymryd camau i gyflawni amcanion lleol i'w cynnwys yn eu cynlluniau llesiant, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mai 2022 - Medi 2023 (ymgynghoriad statudol 14 wythnos).

Paratoi cynlluniau llesiant lleol: ymgynghori pellach a chymeradwyaeth

- Cyngor a chanllawiau pellach ar gynlluniau llesiant byrddau gwasanaethau cyhoeddus, rhwng hydref 2022 a Chwefror 2023.

“Rwyf eisiau cyfleu ein diolch i chi a'ch cydweithwyr am eich adborth ar ein hasesiad llesiant. Gwerthfawrogwyd gennym ni yn fawr iawn lefel yr ymgysylltiad â'r asesiad a natur adeiladol yr adborth.”

Cyngor Caerdydd

Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth?

- Sicrhau newidiadau ymarferol yn y modd y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio technegau'r dyfodol i archwilio tueddiadau hirdymor, cynnwys cymunedau, cydweithio gydag awdurdodau cyfagos, a gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol faterion.
- Meithrin cysylltiadau cadarnhaol gyda'r cyrff cyhoeddus dan sylw, a fydd yn ein helpu i barhau i gydweithio mewn ffordd agored ac adeiladol ar eu cynlluniau llesiant.





Tueddiadau, Dangosyddion a Cherrig Milltir

Ni fu erioed yn bwysicach i deall y Byd o'n cwmpas a'r byd a ragwelir ar gyfer yfory.

Yn 2021, cyflawnodd Llywodraeth Cymru eu dyletswyddau o dan y Ddeddf drwy gyhoeddi Llundio Dyfodol Cymru. Roedd hyn yn cynnwys:

1. Y don gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol Cymru o dan y saith nod llesiant.
2. Ail argraffiad o [Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol](#).
3. Diweddaru'r gyfres bresennol o ddangosyddion cenedlaethol (lle adroddir ar gynnydd drwy'r adroddiad blynyddol '[Llesiant Cymru](#)').



Mae'r dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir yn helpu i adrodd hanes cynnydd yn erbyn nodau llesiant Cymru.

Mae ail [Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol](#) yn tynnu sylw at lawer o'r un materion sy'n cael eu hamlygu yn fy adroddiad '[Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol](#)'.

- Mae 1 o bob 5 o bobl yn dal i fyw mewn tldi yng Nghymru, ac mae anghydraddoldeb incwm ac anghydraddoldeb sy'n pontio cenedlaethau yn dal i gynyddu.
- Mae lleiafrifoedd ethnig hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn tldi incwm cymharol yng Nghymru.
- Mae ein planed yn tyfu'n boethach, ac mae 17 y cant o rywogaethau a geir yng Nghymru mewn perygl o ddiplannu.

Rhaid i ni ddefnyddio Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol fel ffynhonnell swyddogol data dibynadwy ar y dyfodol i lywio'r broses o lunio penderfyniadau.

Yn fy [ymateb](#) fel ymgynghorai statudol, roeddwn yn falch bod cwmpas y dangosyddion a'r cerrig milltir yn cwmpasu pob un o'r nodau llesiant.

- Rwyf eisiau i'r llywodraeth fod yn fwy uchelgeisiol wrth osod eu cerrig milltir – er enghraifft, dylid dileu'r bwlch cyflog parthed rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd cyn 2050.
- Rwyf eisiau gweld ymrwymiad gan y Llywodraeth i fynd tu hwnt i Gymru'n defnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r byd erbyn 2050.
- Mae'n beth cadarnhaol bod sgiliau a chyflogaeth wedi'u cynnwys yn y don gyntaf o gerrig milltir y Llywodraeth. Fodd bynnag, rhaid rhoi blaenoriaeth i uwchsgilio ein cymunedau mewn meysydd a fydd yn eu helpu i ffynnu yn niwydiannau'r dyfodol a dylid hefyd gefnogi ein gallu i gyrraedd targedau newid hinsawdd drwy sicrhau ein bod yn blaenoriaethu sgiliau mewn diwydiannau gwyrdd.
- Ni sicrhawyd bod data ar gael neu wedi ei ddadansoddi ar gyfer ethnigrwydd a grwpiau poblogaeth eraill yn nhermau pobl ifanc mewn addysg neu waith; cyn belled ag y gwyddom dim ond data ar sail rhywedd sydd ar gael nad yw'n adlewyrchu Cynllun Gweithredu Hil y Llywodraeth ei hun nac ymrwymïadau ar anabledd.

- Roeddwn wedi gobeithio gweld cerrig milltir interim yn cael eu cynnwys i fesur cynnydd a sicrhau bod Cymru ar y trywydd iawn t newid arwyddocaol ac effeithiol. Tra bo'r uchelgais hirdymor yn bwysig iawn, byddai marcwyr interim yn helpu i ffocysu ar weithredu a chyflawni polisi.
- Peth i'w groesawu byddai gweld naratif ac uchelgais y tu hwnt i 2050 i egluro a gosod allan beth sy'n digwydd pan fyddwn yn cyrraedd 2050, a yw'r cerrig milltir yn cael eu cyflawni ai peidio.

Rwy'n edrych ymlaen at yr ail don o gerrig milltir a fydd yn dilyn yn 2022. Hoffwn weld ymrwymiad yn cael ei wneud i osod carreg filltir mewn perthynas â hapusrwydd a llesiant pobl mewn ymdrechion i ymgorffori cymunedau cydlynol ac ymdeimlad o gymuned gan fod y set bresennol yn cael eu fframio'n bennaf drwy lens unigolyddol.







Yn 2020-21, cynhaliais fy Adolygiad Adran 20 cyntaf i arferion caffael naw corff cyhoeddus a chyhoeddais 'Caffael Llesiant yng Nghymru' gydag argymhellion ar y modd y mae'n rhaid i gaffael fod yn sbardun ar gyfer newid cadarnhaol.

Fy nghanfyddiadau oedd bod:

- Llywodraeth Cymru wedi methu dangos arweiniad clir, cydgysylltiedig ar rôl caffael.
- Cyfathrebu ac integreiddio gwael rhwng gwahanol flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â diffyg argaeledd cymorth i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar lawr gwlad.
- Cyfleoedd i wneud gwariant i weithio'n galetach yn cael eu colli oherwydd diffyg cefnogaeth i'r proffesiwn caffael a diffyg atebolrwydd ar lefel arweinyddiaeth.
- Diffyg unrhyw waith monitro parhaus o ymagweddau tuag at gaffael neu ganlyniadau caffael ar gyfer medru canfod ble mae pethau'n mynd o'i le, a hefyd ble mae cyfleoedd yn cael eu colli, a diffyg canfod a rhannu arfer gorau.

Roedd gan y naw corff cyhoeddus a adolygais y ddyletswydd i gyhoeddi ymateb cychwynnol o fewn tri mis (ac fe wnaethant).

Cynnydd dilynol yn 2022 – ffocws ar gaffael ac allyriadau carbon

Dyluniwyd yr argymhellion i hyrwyddo a chynnal newid cadarnhaol, ond i gael yr effaith fwyaf posibl mae angen eu hystyried yn gyflym – o fewn 12 mis.

Fy ffocws eleni fu deall sut mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wedi gweithredu'r argymhellion dros y cyfnod hwn.

Eleni penderfynais ffocysu fy nadansoddiad ar gaffael a datgarboneiddio, o ystyried bod penderfyniadau caffael yn cyfrif am 50-70% o allyriadau carbon, ac o'r naw corff cyhoeddus a oedd yn destun yr Adolygiad, dim ond tri oedd wedi ymateb gyda gwybodaeth am y modd y byddent yn gweithredu fy argymhelliad - oedd yn ffocysu ar effaith carbon eu penderfyniadau caffael.

“Er mwyn cyrraedd targedau allyriadau carbon, dylai pob corff cyhoeddus nodi sut y maent wedi ystyried effaith carbon eu penderfyniadau caffael, ac yn achos contractau adeiladu neu seilwaith dylid ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau fod yn ddi-garbon yn ystod eu hoes.”

Argymhelliad o fy Adolygiad Adran 20 i arferion caffael



Gwybodaeth gyd-destunol am gaffael a lleihau allyriadau carbon (cwmpas 3)

Mae ysgogwyr eraill yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnwys targedau datgarboneiddio yn y nwyddau a'r gwasanaethau y maent yn eu prynu. Mae "Nodyn Polisi Caffael Cymru 12/21: Datgarboneiddio trwy gaffael - Mynd i'r afael â CO2e mewn Cadwyni Cyflenwi" yn dweud:

“Mae pwysigrwydd mynd i'r afael ag elfen Cwmpas 3 (caffael a'r gadwyn gyflenwi nwyddau a gwasanaethau a brynwyd) yn cael ei danlinellu gan ymchwil sy'n dangos y gall y rhain gyfrif am tua 60% o gyfanswm ôl troed CO2e sefydliad (59% Prosiect Carbon Bositif Cyfoeth Naturiol Cymru 2017; 62% Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-2030 Mawrth 2021; 58% Cyngor Sir Ddinbych yn 2019/20)”

- Mae hyn yn bwysig yng nghyd-destun ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac asesu effaith carbon gwariant presennol. Mae hefyd yn bwysig oherwydd yr ymrwymiad i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030; roedd yn rhaid i bob corff cyhoeddus adrodd ar y targed hwn (a chyflwyno data i Lywodraeth Cymru) am y tro cyntaf ar ddiwedd 2021.
- Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf o adrodd "fe'i hanelwyd yn bennaf at ymgysylltu â'r holl gyrff cyhoeddus, cael data sylfaenol a chynnal cyfnod dysgu i ddechrau mireinio prosesau casglu a chynllunio camau gweithredu".
- Mae sefydliadau sy'n rhoi cymorth i gyrff cyhoeddus ar fesur a lleihau allyriadau carbon yn cynnwys adolygiadau aeddfedrwydd caffael cynaliadwy WRAP a chymorth datgarboneiddio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i awdurdodau lleol.

Dadansoddais 65 o gontractau GwerthwchiGymru 20 o gyrff cyhoeddus o safbwynt y modd y mae effaith carbon penderfyniadau caffael yn cael eu gwneud ganddynt. Canlyniadau fy nadansoddiad o'r 65 contract hyn eleni, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael i'r cyhoedd, yw nad yw'n ymddangos bod lleihau allyriadau carbon yn ofynnol!

Mae'r canfyddiadau hyn yn ysgytwol ac yn siomedig. Er bod Llywodraeth Cymru yn darparu Nodiadau Polisi Caffael (PPNs), rwy'n pryderu nad ydynt yn cael eu gweithredu o fewn gwybodaeth neu ddogfennaeth contract cyhoeddus.

Mae 12 corff cyhoeddus wedi gofyn am gymorth ar gaffael dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys Cyngor Caerdydd, Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae llawer o'r ceisiadau hyn yn amlygu'r angen am fwy o gymorth, yn benodol ar ddatgarboneiddio.

Rwyf eisoes wedi cyfrannu at ystod o rwydweithiau i gynnig cymorth a chynghor, gan gynnwys [Partneriaeth Ymchwil a Mewnwelediad Gogledd Cymru, Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru](#), Fforwm Caffael, [y Rhwydwaith Caffael Cenedlaethol](#), [a'r Tasglu Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol](#).

Rwyf hefyd yn ystyried darparu dysgu a datblygu pellach ar gaffael fel cam nesaf fy ngwaith gyda chyrff cyhoeddus, gan eu helpu i gyflawni (neu gymryd camau i gyflawni) eu hamcanion llesiant.





Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

- Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru bellach yn adlewyrchu'r pum Dull o Weithio ac mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru'n cyfeirio at y saith nod llesiant. Bydd effaith lawn i'w weld yn y gweithredu gan fod angen cefnogaeth ychwanegol i'r cyrff cyhoeddus.
- Mae strategaeth Sero Net Cymru Llywodraeth Cymru'n mandadu defnyddio cynlluniau lleihau carbon ar gyfer contractau'r llywodraeth gwerth £5m neu fwy o fis Ebrill 2022. Rhaid i gynigwyr gynnwys cynlluniau lleihau carbon fel rhan o'u tendrau.
- Mae Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2022 – 2026 yn nodi y bydd lleihau allyriadau yn cael ei fandadu o fewn contractau caffael newydd ar gyfer cyflenwyr mawr, ac y bydd GIG Cymru wedi lleihau allyriadau carbon o 16% yn unol â tharged interim 2025.
- Mae Gweinidogion wedi ymrwymo i alinio'r Bil Diwygio Caffael a Phartneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bu ffocws ar agwedd 'Gwaith Teg' y Bil newydd, yn ogystal â monitro ac asesu.
- Sicrhawyd ymrwymiad i Ganolfan Ragoriaeth Gaffael i ddarparu gwell cydlynad a chefnogaeth i gyrff cyhoeddus. Cymerais ran yn y cyfweiliadau ar gyfer Cyfnod Darganfod Llywodraeth Cymru ac mae'r Ganolfan bellach yn cael ei symud ymlaen i gyfnod lle bydd yr ymagwedd yn cael ei threialu'n fuan mewn un maes gwasanaeth.
- Mae fy nghyngor a her i gyrff cyhoeddus yn arwain at newidiadau ymarferol, yn cynnwys:
 - a) Mae fferm solar wedi ei sefydlu yn ysbyty Treforys (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) a fydd yn cwrdd â thua 26% o bŵer Treforys (ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn). Bydd y fferm 4MW yn cyflenwi tua chwarter pŵer Treforys, gan dorri'r bil trydan o oddeutu £500,000 y flwyddyn a lleihau allyriadau.
 - b) Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i ddod yn gyngor di-garbon net ac yn gyngor ecolegol-gadarnhaol erbyn 2030, yn rhannol trwy leihau allyriadau carbon o'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynir.
 - c) Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n anelu at gyflawni cynlluniau i fod yn garbon garbon sero net erbyn 2025, gyda ffocws ar newidiadau'n dod yn rhan o "fusnes fel arfer".
 - d) Mae Trafnidiaeth Cymru'n defnyddio dorefn lleol sydd wedi'u huwchgylchu, eu hailddefnyddio a'u prynu i ddodrefnu eu pencadlys newydd yn Llys Cadwyn.

Adolygiad Adran 20 i'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu'r Ddeddf

Ym mis Ionawr 2022, dechreuais Adolygiad Adran 20 arall, y tro hwn i'r modd y mae peirianwaith Llywodraeth Cymru'n cyflawni datblygu cynaliadwy ac yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r Cylch Gwaith [yma](#).

Mae'r modd y gwneir penderfyniadau (y prosesau y tu ôl i'r llenni) yr un mor bwysig â'r polisiau eu hunain ac mae'n bwysig bod dealltwriaeth dda o'r modd y bydd deddfwriaeth, polisiau, arweiniad a chyfeiriad gan y Llywodraeth yn cael eu cyflawni a'u hariannu.

Ni ellir cyflawni'r newid diwylliannol y mae angen i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ei gyflawni oni bai bod gwaith mewnol cyrff cyhoeddus – prosesau (fel datblygu a chyflawni polisi) a'r gweithlu – yn hyrwyddo ac yn galluogi datblygu cynaliadwy.

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl arbennig o bwysig i'w chwarae, fel arweinydd cyrff cyhoeddus ac am eu bod yn gosod polisiau cenedlaethol ar gyfer pawb yng Nghymru. Rwyf wedi defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i bennu bod angen Adolygiad ar hyn o bryd, gan gynnwys:

- Fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol\(2020\)](#) i fy hunan
- Adroddiad yr Achwilydd Cyffredinol [Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(2019\)](#)
- Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus [Cyflawni dros Genedlaethau'r Dyfodol: y Stori Hyd yn Hyn \(2021\)](#)

Pob rhwystr a amlygwyd a meysydd i'w gwella sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf o fewn Llywodraeth Cymru.

Drwy'r adolygiad hwn, rwy'n archwilio'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau (a) eu prosesau; (b) diwylliant gweithio; ac (c) bod arweinwyr y sector cyhoeddus yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn talu mwy o sylw i effaith hirdymor y pethau a wnânt, gyda'r bwriad o ganfod arfer da a gwneud argymhellion posibl ar y modd y gellid gwella'r peirianwaith wrth fynd ymlaen.

Mae'r adolygiad yn ffocysu'n bennaf ar dri cham sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n berthnasol i brentisiaethau fel y brif astudiaeth achos. Mae'r adolygiad hefyd yn manteisio ar nifer gyfyngedig o feysydd polisi eraill i ddeall prosesau ar gyfer integreiddio ar draws y llywodraeth ac i'm galluogi i wneud argymhellion posibl sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru yn ei chyfarwydd.

Tra byddaf yn cyhoeddi fy nghanfyddiadau ym mis Tachwedd 2022, fy nod yw rhoi cyngor wrth i mi fynd ymlaen i ddylanwadu ar bolisi a phrosesau Llywodraeth Cymru wrth iddynt gael eu datblygu, yn hytrach nag ar y diwedd pan fyddant eisoes wedi eu penderfynu.

Cydweithredu ac ymglyfrannu

Mae Llywodraeth Cymru a minnau wedi ymrwymo ar y cyd i ddysgu parhaus a gwneud gwelliannau yn y modd y caiff y Ddeddf ei gweithredu, gan ganfod arfer da a rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda'r sector cyhoeddus ehangach. Mae'r adolygiad yn cael ei arwain gan [Grŵp Llywio](#) sy'n dod o ystod o gefndiroedd gan gynnwys academyddion, y rhai hynny â phrofiad o sgiliau a pholisi prentisiaethau, a'r rhai hynny sydd â phrofiad o weithio o fewn Llywodraeth Cymru a'r DU. Rydym yn ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid ac yn ennyn ymglyfraniad y rhai hynny sydd â phrofiad byw perthnasol i drwytho'r adolygiad.

Rwyf wedi comisiynu dau ddarn o ymchwil

- Roedd y cyntaf yn ymwneud â darparwyr prentisiaethau, cyflogwyr a phrentisiaid er mwyn medru deall y system a'r prosesau presennol a thrwytho ein sgysiau gyda thimau Sgiliau a Phrentisiaethau Llywodraeth Cymru. Cynlluniwyd yr ymchwil hwn fel darn addysgiadol mewnol nad oedd i'w gyhoeddi.
- Yr ail ddarn o ymchwil oedd deall tueddiadau'r dyfodol a fyddai'n effeithio fwyaf ar systemau llywodraethu, a'r hyn y mae gwledydd eraill yn ei wneud i fynd i'r afael â'r rhain, fel cymariaethau defnyddiol.

Effaith – Sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

- Mae'n gynnwys yn y dydd, ond rwy'n gweld rhai arwyddion bod yr Adolygiad hwn eisoes yn helpu i godi ymwybyddiaeth, a sicrhau newid ymddygiad gweithdrefnol ac ymarferol o fewn Llywodraeth Cymru sy'n helpu i ddiogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.



Pwrpas 3

Mudiad dros Newid

Mae angen i newid cenedlaethol fod yn gyd-ymdrech ac yn draws-sector, lle mae ystod gyfan o sefydliadau a chymunedau'n gweithio gyda'i gilydd tuag at weledigaeth y Ddeddf.

Codi ymwybyddiaeth

Eleni gwelwyd cynnydd mewn gwaith cyfryngau, gyda nifer o fy adroddiadau'n tynnu sylw rhyngwladol. Mae fy nhîm wedi sicrhau mwy na 200 o ddarnau o sylw ar lwyfannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Roedd y rhain yn cynnwys darnau print yn y Guardian, Independent, Big Issue, Positive News, sawl podlediad yn cynnwys Positive Thinking Radio 4 a 39 Ways to Save the Planet, sylwebaeth gyson ar BBC Politics Wales ac ITV Sharp End. Roedd sylw yn y cyfryngau byd-eang yn cynnwys Malaysia, Portiwgal ac Awstralia.

Rwyf wedi gweithio gydag unigolion i amlygu materion trwy brofiad byw, i broffilio straeon i gyd-fynd â'n hadroddiadau, gan gynnwys ar dai ac anghydraddoldebau. Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddais ein bod yn recriwtio ein [Bardd Preswyl](#) newydd, Taylor Edmonds. Roedd hyn yn cynnwys taeniad dwy dudalen yn y Western Mail, a darnau arweiniol yn Nation Cymru, Bro Radio, Llenyddiaeth Cymru, Penarth Times a Wales Arts Review ymhlith eraill. Cafodd ein fideo i gyflwyno Taylor hefyd ei wyllo 3,000 o weithiau ar gyfryngau cymdeithasol.



Ym mis Tachwedd 2021, arweiniodd y Guardian ar fy [adroddiad Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol](#). Roedd hyn yn cynnwys straeon pobl a oedd wedi profi bywyd mewn cymunedau a gafodd eu taro gan lifogydd. I gyd-fynd â'r adroddiad, rhyddhaodd fy swyddfa fideo o blant ysgol yn darllen cerdd, Emerging from Winter, gan Grŵp Llifogydd Llanrwst a olygwyd gan ein Bardd Preswyl, Taylor Edmonds – gyda dros 1,000 o bobl wedi ei wyllo erbyn hyn. (Ymddangosodd y stori hefyd yn y Western Mail fel tudalen ddwbl, ar Nation Cymru ac ar draws teledu a radio BBC Cymru ar y diwrnod lansio.)

Yn ddiweddarach y mis hwnnw, denodd fy [adroddiad](#) ar gynllun Incwm Sylfaenol Cyffredinol sylw cenedlaethol. Cyhoeddais adroddiad a oedd yn dangos y byddai tlodi'n cael ei haneru yng Nghymru pe bai Incwm Sylfaenol Cyffredinol yn cael ei lansio. Rhoddodd y Daily Mirror sylw i'r adroddiad ynghyd â lluo o gyhoeddiadau eraill mewn print ac ar-lein. Wrth i mi ryddhau'r adroddiad, rhoddais dystiolaeth i Bwyllgor Deisebau'r Senedd, ac rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru ers hynny wedi penderfynu bwrw ymlaen â chynllun peilot Incwm Sylfaenol.

Cyn y gynhadledd fawr ar yr hinsawdd, COP 26, bu fy nhîm yn ymgysylltu â'r cyfryngau, gan greu pecyn cyfryngau yn manylu ar y ddeddfwriaeth a'r llwyddiannau ac ymddangosiadau a thasgau Sophie, a'n prif linell newyddion oedd y dylai gwledydd a sefydliadau eraill ddilyn arweiniad Cymru a deddfu i amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol. Ymddangosais ar raglen Jeremy Vine ar y BBC ar ffordd osgoi Llanbedr a hefyd ar LBC News ar ddiwrnod olaf COP. Cyhoeddwyd erthygl hefyd ar flog y Sefydliad Materion Cymreig lle rhybuddais fod lleisiau yn dal ar goll wrth fwrdd y trafodaethau hinsawdd. Yn ogystal, cymerais ran mewn podlediad Radio 4: Political Time Zones ar faterion gwleidyddol tymor byr.

Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddais adroddiad gyda'r felin drafod Autonomy, yn galw ar Lywodraeth Cymru i lansio treial wythnos waith fyrrach. Cafodd yr adroddiad sylw mewn papurau newydd cenedlaethol, a dyma'r stori fwyaf poblogaidd ar wefan y Guardian ar ddiwrnod ei gyhoeddi. Ymhlith y papurau newydd cenedlaethol eraill a gyhoeddodd erthyglau roedd yr Independent, Metro, y Sun a'r Evening Standard. Yn rhyngwladol ymddangosais ar Euronews ac RTE One, tra cyhoeddwyd erthyglau yn Deutsche Welle a'r Polish Express.

Cefais wahoddiad i ymddangos yn fyw ar BBC Wales Today i drafod yr adroddiad a dywedais wrth y cyfryngau:

“Gall wythnos waith fyrrach arwain at fwy o gynhyrchiant, gweithlu hapusach ac iachach a fydd o fudd enfawr i gyflogwyr. Nid yw'r wythnos waith wedi newid ers dros 100 mlynedd, ac ymddengys bod nawr yn gyfle perffaith i Lywodraeth Cymru ymrwymo i dreial arloesol ac adeiladu tystiolaeth ar gyfer mwy o newid ledled Cymru.”

Mae dros 3,000 o bobl yn tanysgrifio i'm cylchlythyr misol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae wedi cynnwys erthyglau ar lansiad ein hadroddiad [Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod, COP26](#) a galwadau am [Incwm Sylfaenol Cyffredinol](#). Yn ddiweddar, fe wnaethom hefyd gyflwyno adran 'Cwrdd â'r Tîm' i'n cylchlythyr lle mae aelod o'r tîm yn siarad am eu hamser gyda'i swyddfa ac yn rhannu rhai o'u mewnwelediadau.

Rydym yn parhau i fod â phresenoldeb cryf yn y cyfryngau cymdeithasol, sy'n helpu i roi mewnwelediad i ni o farn ein rhanddeiliaid, gyda'n prif sianeli – trydar ac Instagram – yn gweld cynnydd yn nifer dilynwyd ac ymgysylltwyr o fis i fis. Os oes gennych unrhyw syniadau neu ffyrdd newydd o gyfathrebu, byddem wrth ein bodd i glywed oddi wrthyh. Cysylltwch â ni ar [@futurecymru](#).

Nifer dilynwyd ar:

12.7k

1.5k

2.3k

**Daeth y Pwyllgor Cyfrifon
Cyhoeddus i'r canlyniad bod:**

“Y Comisiynydd a'i swyddfa wedi datblygu proffil cyhoeddus cadarnhaol ac wedi hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf mewn dull effeithiol. Mae ganddynt gryn arbenigedd mewn datblygu cynaliadwy, sy'n sylfaen i'r cymorth a'r cyngor y maent yn ei roi i gyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru.”



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations
Commissioner**
for Wales

Bardd Preswyl Taylor Edmonds

Mae fy mardd Preswyl Taylor Edmonds (a ddygwyd ymlaen ar y cyd â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru a Llenyddiaeth Cymru) wedi darganfod dulliau newydd o gyfleu nodau'r Ddeddf, un ohonynt yn Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Y thema eleni yw 'Cymru i'r Byd' - sy'n amlygu pwysigrwydd gweledigaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rôl Cymru yn y byd.

Cyflawnwyd dros 30 o ddarnau, gan gyrraedd dros 187,000 o bobl ar y cyfryngau cymdeithasol.

Un o'r cerddi a ysgrifennodd Taylor oedd i gofio am Betty Campbell, adeg dadorchuddio'r cerflun efydd hyfryd yn Sgwâr Canolog Caerdydd. Mae 'When I speak of Bravery' yn sôn am fywyd ac etifeddiaeth addysgwraig ysbrydoledig sydd wedi dod y fenyw go iawn gyntaf yng Nghymru i gael ei chofo ar ffurf cerflun. Crëwyd y cerflun gan Eve Shepherd a chafodd ei gomisiynu'n dilyn ymgyrch Merched Mawreddog a drefnwyd gan Monumental Welsh Women.



'When I Speak of Bravery'

*Born in Tiger Bay, never left,
I hear she was a force to be reckoned with.
Called herself a trailblazer, path curator,
constructed schoolbooks from scraps
to tell the full version of history.
Showed her children something true:
They'd always been here, rooted in the soil
through wars and riots, carnivals and industry.
That they stood powerful, worthy
of greatness, never out on their own
with Mrs Campbell fighting their corner.
When Betty was told she couldn't, her dreams
out of reach for a Black girl from Butetown
who should never want too much,
never take space, never shake things up —
she only wanted harder.
A life of determinations, woman of firsts,
all the while people waited to watch her fail.
So she learnt to nod her head,
say the right things, butter them up
to beat them at their own game.
Listen close — I hear the streets
still call her name after dark,
her school stands, flourishing,
in testament to her story.
And If you kick away the patches
of loose gravel from pavements,
you'll find locket of her memories.
A mother, teacher, mentor,
wife, activist, advocate,
I'll tell my future daughters about Betty
when I speak of bravery.
Her legacy goes on, immortalised
in clay and stone. Let them come
from far and wide, to see
how just one woman can touch
so many lives.*

“Cerdd anhygoel am fy mamgu #BettyCampbell. Daeth â dagrau i'n llygaid ni i gyd. Gwych!”

Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales

Home ▶ News ▶ Future Generations Commissioner's Poet in Residence, Taylor Edmonds, shares a powerful new poem

Future Generations Commissioner's Poet in Residence, Taylor Edmonds, shares a powerful new poem

Published **Mon 26 Jul 2021** - By **Literature Wales**





Ymglyfrannu

Mae cyfranogiad yn ganolbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae angen bod yn agored i ddylanwad, yn hytrach na chael eich trwytho'n unig gan farn pobl a rhanddeiliaid. Mae ymagweddau ymglyfraniad yn gweithio'n fwyaf effeithiol gyda phobl pan fyddant yng nghyfnod cynharach gwneud penderfyniadau, er enghraifft trwy helpu i ganfod problemau a datrysiadau posibl.

Y llynedd, deuthum ag adnoddau ymglyfrannu a chydaddoldeb ychwanegol i'm tîm gyda phenodiad Artist ymglyfrannu a Dadansoddwr Newid (Cydraddoldeb). Galluogodd hyn i mi gryfhau fy mherthynas ag ystod eang o sefydliadau trydydd sector a chymunedol, grwpiau nas clywir yn aml, busnesau a rhanddeiliaid rhyngwladol.

Rwyf wedi:

- Gweithio gyda mwy o bobl, rhwydweithiau a sefydliadau i amlygu gwahanol safbwyntiau a phrofiadau o fewn ein gwaith – gan gefnogi'r mudiad dros newid ledled Cymru i adeiladu'r Gymru a garem. Er enghraifft, [WeALL Cymru](#), [Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector](#), [Siarter Catrefi](#), [Cyswllt Amgylchedd Cymru](#), [UBILabs Cymru](#), [Hinsawdd Cymru](#), [Cynghair Hil Cymru](#), [Anabledd Cymru](#), [Chwarae Teg](#) a [Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru](#).
- Cynyddu effaith fy ngwaith ar dai, datgarboneiddio, incwm sylfaenol cyffredinol, tueddiadau'r dyfodol ac anghydraddoldebau, trwy gynnwys profiad o fyw.
- Cydweithio gyda rhanddeiliaid ar ein Manifesto ar gyfer y Dyfodol a chryfhau'r symudiad y tu cefn i argymhellion allweddol. Gellir alinio ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu â 48% o'r argymhellion yn y Manifesto ar gyfer y Dyfodol.
- Fel rhan o'n cydweithrediad ar y [6 Egwyddor](#) gydag XR, Canolfan Dechnoleg Amgen a Coed Cadw, roedd 27 o aelodau'r Senedd a etholwyd wedi addo cefnogaeth.
- Mae treialu'r model Pwyntiau Cyswllt ar gyfer rheoli ein cysylltiad â chyrrff cyhoeddus (gweler tudalen 57) wedi cryfhau ymhellach ein hymagwedd tuag at ymglyfrannu.



- Cynyddu effaith ein gwaith [manifesto](#) drwy weithio gyda [Chynghair Llesiant Cymru](#), gan wneud polisiau llesiant yn rhan annatod o'u 'ap' pleidleisio cyn etholiadau'r Senedd.
- Mae ennyn cyfraniad rhanddeiliaid yng nghynhyrchiad ein cylchlythyr wedi cynyddu cyrhaeddiad ein cynulleidfaoedd o dros 100% gyda darllenwyr arlein wedi cynyddu o 900 i 1,970.
- Cynhaliwyd sesiynau Cinio a Dysgu gyda [Give Your Best](#), [Cymorth i Ferched Cymru](#), a'r [Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu](#).



Rwyf hefyd wedi gweithio gyda phobl ifanc i gryfhau eu lleisiau ac annog cyrrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, i ennyn ymglyfraniad cenedlaethau'r dyfodol yn eu penderfyniadau:

- Mae Academi Arweinwyr Cenedlaethau'r Dyfodol yn grŵp o bobl ifanc 18–30 oed sy'n gweithredu'r Ddeddf yng Nghymdeithas Cymru – drwy greu cynlluniau cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer eu gweithleoedd a'u cymunedau, mentora arweinwyr Cymru a thrwytho fy ngwaith i fy hun.
- Gweithredu mewn partneriaeth â sefydliadau ieuencid megis [Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru](#), [yr Urdd](#), [y Sgowntiaid](#), [Senedd Ieuencid Cymru](#), [Coleg y Mynydd Du](#), [UCM Cymru](#), [Coleg yr Iwerydd](#), [Uprising](#) ac [Un Byd Ifanc](#).
- Cydweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru, gan gyfarfod yn rheolaidd i alinio ein gwaith a deall blaenoriaethau'r bobl ifanc y mae'r Comisiynydd wedi ymgysylltu â nhw.
- Gweithio gydag ysgolion, gan gynnwys ymglyfraniad Ysgol Bro Gwydir yn ein lansiad ['Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol'](#), Ysgol Gynradd y Rhath, gan gysylltu â 15 o ysgolion trwy ein hymgyfraniad yn y fenter [Creative Cascade](#) a chyflwyno i ysgolion sy'n ymwneud â'r prosiect Eco Warriors.
- Cadeirio COPFfug ynghyd ag actifyddion ieuanc hinsawdd.
- Cydweithio gyda Choleg Brenhinol y Seicolegwyr ac aelodau'r Senedd i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol (GRhG) i roi llwyfan i lais pobl ifanc ar fater Hinsawdd, Natur a Llesiant. Wedi cysylltu'r GRhG â'n Hacademi a hefyd y bartneriaeth Blwch Democratiaeth, drwy ymestyn ein haelodaeth ni ein hunain ar y grŵp i gynnwys pobl ifanc o'r ddau brosiect.
- Ac yn olaf, bûm yn gweithio gyda [Rhaglen Dyfodol Democratiaeth Sefydliad Berggruen](#) a [Chomisiwn Bwyd](#), [Ffermio a Chefn Gwlad Cymru](#) ar brosiect ffotograffiaeth ar eu perthynas â byd natur.

Fy martneriaeth gyda'r Blwch Democratiaeth

Er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy (fy Nyletswydd) ac i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, pobl ifanc yn arbennig, euthum i mewn i bartneriaeth â phrosiect [Y Blwch Democratiaeth](#) (dan arweiniad Omidaze Productions) ym mis Tachwedd 2021.



Ein pwrpas cyffredin oedd cynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad ymhlith pobl ifanc mewn democratiaeth a datblygu cynaliadwy. Byddai hyn trwy ddiwylliant a'r celfyddydau; a thrwy ddatblygu llwyfan a rennir i bobl ifanc gael cymryd rhan weithredol wrth gyfathrebu pwrpas a chynnwys y Ddeddf i bobl ifanc eraill.

Mae prosiect y Blwch Democratiaeth yn cynnwys pobl ifanc 16-26 oed o bob rhan o Gymru fel cyd-greuer cyflogedig i archwilio a datblygu dulliau newydd o esbonio hanfodion ein democratiaeth a hysbysu ac ymgysylltu â phobl ifanc eraill a phawb yn ein democratiaeth yng Nghymru a'r DU.





Pa beth ddigwyddodd fel canlyniad?

Mae 30 o gyd-grewyr ifanc wedi creu fideos, caneuon, cerddi sy'n esbonio pam mae'r Ddeddf yn bwysig iddyn nhw. Mae'r rhain wedi'u datblygu gan y bobl ifanc sydd wedi cael eu talu am eu hamser a'u cefnogi gan fy nhim a'r Blwch Democratiaeth, sy'n fodel gwahanol iawn i gomisiynau masnachol traddodiadol.

Rydym hefyd wedi cymryd rhan yn 'Blwch Democratiaeth Creative Cascade' gan dreialu'r gwaith o raeadru gwybodaeth am ein democratiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ysgolion.

“Mae ein lleisiau fel pobl ifanc mor bwysig oherwydd ni yw'r dyfodol, felly dylem godi ein llais am faterion er mwyn llunio'r dyfodol gorau i ni ei etifeddu.”

Eva Franklin,
cyfranogydd y Blwch Democratiaeth

“Roeddwn i eisiau rhoi gwybod i chi fod y plant yn Ysgol Gynradd Thornhill wedi treulio'r wythnos hon yn canolbwyntio ar bob un o feysydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Daeth Julie Morgan (AS) i ymweld â ni i ddod i wybod am waith y plant yn ein dosbarth Derbyn sydd wedi bod yn gweithio ar gymunedau cydlynus. Mae cymaint yn digwydd...”

Elizabeth Berry, Pennaeth Ysgol Gynradd Thornhill, cyfranogydd Creative Cascade

Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

- Wedi codi proffil Cymru a'r Ddeddf mewn cannoedd o gynadleddau a digwyddiadau'n cynnwys yn COP26, a'r Uwchgynhadledd World Expo. O'r Ffindir i'r India, mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn awr yn dylanwadu ar drafodaethau byd-eang.
- Wedi cyflawni 200 darn o sylw yn y cyfryngau o bob rhan o'r byd a chynyddu ein proffil cyfryngau cymdeithasol yn sylweddol.
- Fel canlyniad i ymddangos gerbron chwe phwyllgor y Senedd, rwyf wedi sicrhau ymrwymadau'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf a gwaith fy swyddfa. Rwyf wedi gweld fy nhystiolaeth yn cael ei hadlewyrchu yn eu hargymhellion, yn arbennig ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i weithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Wedi dod o hyd i ffyrdd creadigol o gyfleu fy neges, trwy farddoniaeth, ffilm a chynnwys gwneud profiad byw a llais cymunedol yn rhan annatod o fy ngwaith.
- Wedi ennyn ymgyfraniad mwy o bobl, rhwydweithiau a sefydliadau i amlygu gwahanol bersbectifau safbwyntiau gwahanol, safbwyntiau a phrofiadau o fewn ein gwaith – gan gefnogi'r mudiad dros newid ledled Cymru i adeiladu'r Gymru a garem. Er enghraifft, [WeALL Cymru](#), [Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector](#), [Siarter Catrefi](#), [Cyswllt Amgylchedd Cymru](#), [UBILabs Cymru](#), [Climate Cymru](#), [Cynghrair Hil Cymru](#), [Anabledd Cymru](#), [Chwarae Teg](#), a [RhCM Cymru](#).
- Wedi ymuno ag eraill, yn cynnwys Cynrychiadau Omidaze, lechyd Cyhoeddus Cymru, Llenyddiaeth Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac Ynys Blastig i enwi dim ond rhai! Mae'r partneriaethau hyn yn ein galluogi i ymhelaethu ar ein cydamcanion, cyfleu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a materion sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol, a gwerthfawrogi arbenigedd a sgiliau allanol.





Gwrando ar y bobl


Rwyf wedi addo gwrando ar bawb a all gyfrannu at wireddu'r Ddeddf. Er nad oes gennyf swyddogaeth gwaith-achos, rwy'n ceisio grymuso grwpiau cymunedol ac unigolion i ddefnyddio'r Ddeddf yn eu rhyngweithio gyda chyrrff cyhoeddus i annog gwell ymgyfraniad a chanfod materion systemig sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Yn 2021/22, derbyniais 243 o lythyrau yn ymdrin ag ystod o faterion, a'r prif themâu oedd y Ddeddf a'n Gwaith, pryderon yn ymwneud â chynllunio defnydd tir, newid hinsawdd a'r amgylchedd, a chynllunio trafniadaeth.

“Rwyf mor falch bod gan Gymru Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol... Mae'r hyn yr ydych yn ei wneud yn wych.”

“Ynghyd â'm disgyblion, mynychais y digwyddiad 'Cysylltu Cymru, Llais leuenctid a COP26' ar ddydd Mercher 10 Tachwedd ym Mharth Gwyrdd COP26. Gwnaeth yr holl banel argraff fawr arnaf ac roedd gennyf ddiddordeb arbennig yn rôl Comisiynydd y Dyfodol. Byddai hyn yn wych i'r Alban.”

“Rydym yn ddiolchgar am eich ateb prydlon dyddiedig 24 Rhagfyr 2021 ac am eich cyngor, arweiniad a didwylledd. Rydym yn nodi'r cyfyngiadau, y rhwystrau cyllidebol a'r materion capasiti a osodwyd gennych ar gyfer eich sefydliad. Yn sicr, yn ein barn ni, mae achos cryf i'ch sefydliad gael llawer mwy o adnoddau i weithredu'n rhagweithiol i ymchwilio ac ymyrryd lle mae awdurdodau lleol yn methu â chyflawni canllawiau a pholisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy.”



Roedd gan bobl ddiddordeb mewn cwestiynau amrywiol yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth ac roedd llawer eisiau rhannu barn ar fy adroddiadau diweddaraf ac ar fy meysydd gwaith. Roedd llawer o bobl hefyd eisiau mynegi eu cefnogaeth i'm gwaith ac i ymagwedd Cymru tuag at lesiant.





Rwyf hefyd yn parhau i dderbyn pryderon am benderfyniadau cynllunio y mae pobl yn teimlo nad ydynt yn cyd-fynd â dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae colli mannau gwyrdd ac ymgyfraniad yn themâu eilradd amlwg pan ddaw'n fater o ohebiaeth ynglŷn â chynllunio, sy'n nodi bod ymdrechion polisi yn dal i fethu dwyn ffrwyth ar lawr gwlad yn nhermau gwarchod safleoedd maes glas a symud o ymgynghori i ymgyfrannu.

“Ysgrifennaf atoch ar ôl darllen adran gynllunio adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a hoffwn yn gyntaf ddiolch i chi am y gwaith caled a'r ymchwil sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a dangos fy ngwerthfawrogiad o'r gwaith sy'n cael ei wneud i helpu i sicrhau dyfodol hapus ac iach i fy mhiant, eu cenhedlaeth a'r rhai sy'n dilyn.”

Yn y gorffennol, rwyf wedi cymryd camau ar faterion systemig mewn perthynas â chynllunio, trafnidiaeth, y cynnig gofal plant i Gymru a ffermio dofednod dwys. Eleni, rwyf wedi parhau gyda'r arfer hwn ac wedi ysgrifennu at Weinidogion mewn perthynas â'r canlynol:

- **Trwydded mwyngloddio pwll glo Aberpergwm** – rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ynghylch yr awdurdod cyfreithiol i ganslo'r drwydded mwyngloddio. Rwyf yn awr yn aros am ymateb Llywodraeth Cymru

“Mae angen datganoli cyfranogiad i lawr i lefel llawer mwy gronynnog fel bod pobl yn cael dweud eu dweud am faterion cynllunio ar lefel eu cynghorau tref a chymuned. Nid yw mewnbyn i Gynlluniau Datblygu Lleol ar lefel rhanbarthol yn ddigon.”

- **Ailgartrefi a thai fforddiadwy** – rwyf wedi gwrandao ar sefydliadau ymgyrchu a'r rhai sydd â phrofiad byw o'r argyfwng ac wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i nodi'r cysylltiadau rhwng yr argyfwng tai a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Rwyf wedi gweithio ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg ac wedi helpu i gysylltu sefydliadau ymgyrchu cymunedol â rhanddeiliaid trydydd sector i adeiladu mudiad o amgylch y mater hwn. Ar adeg ysgrifennu, rwyf wedi sicrhau cyfarfod rhwng grwpiau cymunedol a Llywodraeth Cymru i archwilio'r posibilrwydd o weld ymgyfraniad arwyddocaol cymunedau yn y dasg o ddylunio datrysiadau i'r argyfwng tai, sy'n argymhelliad o fy Adroddiad 2020.

- **Adolygiad o Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)** – rwyf wedi rhannu'r amrywiol bryderon ynghylch cymhwyso WelTAG17 – y mae pobl wedi tynnu fy sylw ato dros y blynnyddoedd – gyda chydweithwyr o dîm Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru i drwytho eu hadolygiad o WelTAG.



Sut yr wyf yn gweithio gyda aelodau etholedig

Rwyf yn ymgysylltu â'r Senedd mewn gwahanol ffyrdd. Maent yn cynnwys:

Sesiynau ac Ymgynghoriadau Tystiolaeth Pwyllgorau'r Senedd

Gofynnir i mi'n rheolaidd i ymddangos o flaen Pwyllgorau'r Senedd fel tyst i gynig cyngor ar ystod o bynciau. Yn 2021-22 rhoddais dystiolaeth i'r:

- Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (Medi 2021)
- Pwyllgor Deisebau (Tachwedd 2021)
- Y Pwyllgor Cyllid (Ionawr 2022)
- Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (Chwefror 2022)
- Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar dlodi tanwydd a'r rhaglen cartrefi cynnes (Mawrth 2022)

Cyfarfodydd a Gohebiaeth

Rwyf yn cyfarfod yn aml ag Aelodau'r Senedd i drafod fy ngwaith a thra nad ydwyf yn gallu ymgymryd ag achosion unigol, rwyf yn aml yn rhoi cyngor ar gymhwysiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar benderfyniadau mewn etholaeth aelod o'r Cynulliad neu ardal sydd o ddiddordeb.

“Roedd yr hyfforddiant yn ardderchog... Diolch am gyflwyniad defnyddiol a diddorol iawn.”

staff Comisiwn y Senedd

Rhannu adnoddau a dysgu

Rwy'n rhannu fy adroddiadau ac ymchwil gydag aelodau etholedig. Cyfeirir yn rheolaidd at adnoddau a gynhyrchir gan fy swyddfa mewn pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn, ac mae Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Craffu, ac Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, wedi bod o ddefnydd arbennig i aelodau etholedig, drwy ddarparu cyngor ymarferol, arweiniad ac offer i gyrff cyhoeddus i wneud y dyheadau a restrir yn y Ddeddf yn realiti i bobl yng Nghymru.

Rwyf wedi ymgynghori ar adnoddau sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er enghraifft, gan weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ddatblygu eu modiwl hyfforddi newydd diweddar ar y Ddeddf sy'n cael ei ddosbarthu i bob Cynghorydd newydd ledled Cymru.

Cyhoeddais hefyd y [Maniffesto y Dyfodol: ein hetholiadau lleol](#) (Mawrth 2022), gyda chyfres o argymhellion a syniadau i lywodraethau lleol ar yr hyn y gallant ei wneud i greu awdurdodau lleol sy'n mynd i'r afael ag anghenion heddiw, yn ogystal â bod yn addas ar gyfer y dyfodol.

Cyngor a hyfforddiant

Cyn cyhoeddi datganiadau neu gyhoeddiadau rwyf yn cyfarfod ag Aelodau'r Senedd a llefarwyr y pleidiau. Mae fy nhim hefyd wedi cynnal sesiynau hyfforddi i Bwyllgorau'r Senedd a gwasanaeth ymchwil yr aelodau, sydd wedi cael derbyniad da. A pharatoais bapurau briffio unigol ar gyfer Aelodau Seneddol newydd yn dilyn yr etholiadau gyda gwybodaeth am y Ddeddf sy'n berthnasol i'w hetholaeth.



Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

- Codi ymwybyddiaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhlith aelodau'r cyhoedd, cymunedau a chynrychiolwyr etholedig, yn cynnwys natur fy nyletswyddau a fydd yn cael eu cynnwys mewn sesiynau briffio'r Senedd yn y dyfodol.
- Llwyddo i gael materion ar yr agenda mewn perthynas ag echdynnu tanwydd ffosil, ffermio dofednod, cynllunio defnydd tir a chraffu ôl-ddeddfwriaethol.
- Annog ymrwymiadau hollgynhwysfawr gan Weinidogion, y llywodraeth a chyrff cyhoeddus ar faterion fel tai fforddiadwy a chael gwared pensiynau o danwydd ffosil.
- Darparu hyfforddiant ar y Ddeddf i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ac i Ymchwil yr Aelodau sy'n cael ei gofnodi ac sydd yn awr yn cael ei rannu yn y Senedd. Ac wedi sicrhau defnydd cynyddol o fy [Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Craffu](#).
- Dylanwadu ar gynnwys polisi ac ymrwymiadau megis cynllunio trafndiaeth a gwarchod mannau gwyrdd a chael gwared o bensiynau o danwydd ffosil.
- Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol mewn eraill, yn cynnwys grymuso cymunedau a grwpiau gweithredu i herio a dal cyrff cyhoeddus i gyfrif, a'r gorgyffwrdd rhwng yr hyn yr wyf i a'r Senedd yn ei wneud – gan annog mwy o gydweithio.

Gweithio gydag eraill ar feysydd a rennir

Proffilio fy nghydweithrediad â'r trydydd sector

Rwyf wedi blaenoriaethu ymgyfraniad cynyddol sefydliadau'r trydydd sector ac ymarferwyr cymunedol. Eleni rwyf wedi dyfnhau fy ngwaith ymgyfrannu, yn arbennig mewn:

- Sgiliau
- Anghydraddoldebau
- Ein Hadolygiad Adran 20, ac
- Ymgyfraniad pobl ifanc yn ein gwaith Mudiad dros Newid, yn cynnwys ennyn ymgyfraniad cyd-grewyr ifanc wrth lunio'r argymhellion ar gyfer ein Maniffesto Etholiadau Lleol.

Yn allweddol i'r gwaith hwn mae cydweithio gyda rhwydweithiau ledled Cymru, yn benodol i'r sectorau ac hefyd yn rhanbarthol, gan gynnwys:

- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector – mae cyd-gynhyrchu agendâu ar gyfer ein digwyddiadau bord gron gyda'r sector wedi arwain at drafodaethau llawer mwy agored a chynhyrchiol.
- Rhwydwaith Cefnogi'r Trydydd Sector yn adeiladu perthynas gryfach gyda Chyngorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru sy'n ddolen gyswllt bwysig i ecosystem amrywiol ymarferwyr cymunedol
- Cyfrannu i adolygiad o'r garreg filltir a'r dangosydd cenedlaethol ar wirfoddoli drwy fy aelodaeth o'r Grŵp Arwain Gwirfoddoli Cenedlaethol.

Mae enghreifftiau o ymarferwyr cymunedol yr ydym wedi cyfarfod â nhw i ddeall eu gwaith a'u blaenoriaethau lleol yn well, ac i archwilio cydweithio agosach yn y dyfodol yn cynnwys: [Valleys Kids](#), [Partneriaeth Ogwen](#), [Awel Aman Tawe](#), [Pafliwn Grange](#), [Llais y Goedwig](#), [Siarter Catref](#) ac eraill.





Drwy'r gwaith gwrandio hwn rydym wedi clywed am bryderon cymunedau lleol yng nghefn gwlad Cymru yn enwedig ynghylch tai fforddiadwy. Mewn ymateb i hyn rydym wedi cydweithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac wedi cynnal cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru i ddod â lleisiau cymunedol ar y pwnc yn nes at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae ein 'Mudiad dros Newid' sydd wedi ei gynnwys yn ein cylchlythyr misol, yn cynnwys sefydliadau o'r sector cymunedol / gwirfoddol er mwyn tynnu sylw at eu gwaith a'r modd y maent yn gwneud y Ddeddf yn rhan annatod o'u gwaith. Eleni, rydym wedi rhoi sylw, ymhlith eraill i: [Fforwm Arfordirol Sir Benfro](#), [Bwyd Dros Ben](#), [GwyrddNi](#), [Cymuned Carbon](#), [Y Gymdeithas Cadwraeth Morol](#) a [Mudiad 2025](#).

Yn 2021-22, fe wnaethom barhau i gyfarfod a chydweithio gyda'r [Gynghrair Economi Llesiant](#), rhwydwaith o dros 80 o sefydliadau llesiant ledled Cymru, gan gael mewnbwn i'n gwaith, a chydweithio ar ddatblygu eu Ap pleidleisio Llesiant yn y cyfnod yn arwain at etholiad y Senedd.

Adeiladu'r achos i fusnes alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae busnes yn chwarae rhan hanfodol yn y pontio i lesiant ac economi cynaliadwy. Mae busnesau yn arloeswyr, yn gyflogwyr, yn gyflenwyr, yn brynwyr ac yn aelodau o'r gymuned. Ac mae ganddyn nhw'r potensial i fod yn un o'r hyrwyddwyr mwyaf effeithiol dros newid yng Nghymru.

Llynedd, galwais ar rwydweithiau busnes blaenllaw a'u haelodau i alinio'u cynlluniau llesiant a chynaliadwyedd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – mae cyflawni'r Ddeddf yn dibynnu ar fusnesau'n gweithredu ac yn buddsoddi yn y nodau.

Eleni, rwyf wedi adeiladu ar hyn drwy'r camau canlynol:

- Cynllunio offer ar gyfer busnes ar y Ddeddf a gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r Ddeddf i fusnes.
- Cynhyrchwyd [argymhellion](#) i Lywodraeth Cymru ynghylch yr angen iddynt alinio polisïau busnes ac economaidd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys Busnes Cymru, y Contract Economaidd a Banc Datblygu Cymru.
- Galwodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd 2021 ar gyff cyhoeddus i fanteisio ar arbenigedd busnesau ac ar yr ymgysylltiad â nhw er mwyn cyflawni eu hamcanion llesiant.
- Cydweithio gyda Busnes Cymru ar ddatblygu eu Pecyn Cymorth Diogelu'r Dyfodol ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) ac rwyf i a Banc Cymru wedi ymrwmo i gydweithio ym Mlwyddyn Ariannol 2022/23 ar ddosbarthiad.
- Comisiynu [Cynnal Cymru](#) i gynhyrchu offeryn i gefnogi cwmnïau mawr yng Nghymru i ganfod ac adrodd ar y modd y maent yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar hyn o bryd, ac i nodi beth arall y gallant ei wneud. Mae deg cwmni mawr yng Nghymru wedi mynegi diddordeb mewn defnyddio'r offeryn – a gobeithiaf ei gyflwyno yn ystod y Flwyddyn Ariannol nesaf.
- Parhau gyda fy mhartneriaeth strategol gyda [Busnes yn y Gymuned Cymru](#) i gefnogi eu haelodau i alinio eu gweithrededd a'u buddsoddiadau ymhellach â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Wedi ymgysylltu â [Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain \(CBI\) Cymru](#), [Ffederasiwn Busnesau Bach \(FSB\) Cymru](#) a [Chyngor Busnes Cymru](#) i ganfod sut y gallaf weithio gyda rhwydweithiau busnes i hyrwyddo'r Ddeddf – a phob un wedi cytuno bod angen galw cyfarfod rhwydweithiau busnes yn rheolaidd i drafod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn rhannu a hyrwyddo arfer da.
- Ymhlith y gwaith hwn, mae canfyddiadau defnyddiol i gefnogi cyrff cyhoeddus, yn arbennig fy Adolygiad Adran 20 o'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu'r Ddeddf.

Mae **Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW)** yn gymdeithas fusnes flaenllaw sydd wedi ymrwmo i'r Ddeddf yn ei strategaethau. Rwyf wedi gweithio gyda CEW am fwy na phum mlynedd ar faterion adeiladu a thai. Eleni, rwyf wedi parhau â'm partneriaeth gyda nhw i ddatblygu Cyfeiriadur Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi'r sector adeiladu (gan gynnwys cyrff cyhoeddus) i weithredu'r Ddeddf.

Mae fy nhîm hefyd wedi dyfarnu gwobrau categori Arweinwyr y Dyfodol CEW, lle'r oedd rhai enghreifftiau o arweinyddiaeth addawol:

- Siaradodd **Tahra van Schalkwy (Encon Construction)**: am fod yn rôl-fodel i gael mwy o fenywod Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i mewn i'r diwydiant adeiladu. Hi sy'n arwain strategaeth sero net Encon Construction, sydd eisoes yn gwneud llawer o waith ar yr economi sylfaenol yn ne Cymru; mae'n gweithio i FBaCh a hi felly sydd wedi gwneud eu holl waith sero net o'r dechrau.
- **Ben Pullen (Atkins)**: hyrwyddwr angerddol a ganddo brofiad o ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel criteria ar gyfer asesu adeiladu trafnidiaeth – mae ei waith ar leihau carbon ac ymagwedd bywyd cyfan yn cael ei droi'n bapur technegol i Lywodraeth Cymru.
- **Nick Hamersley (Kier Construction)**: arweinydd ailddatblygu Ysgol Uwchradd Fitzalan lle mae wedi ennyn ymgyfraniad myfyrwyr mewn prosiectau lleihau carbon ar y safle ac yna eu hyfforddi a'u recriwtio i ymuno â'i gwmni – sydd hefyd yn ei helpu gyda'r prinder sgiliau y mae ei gwmni fel arfer yn ei wynebu.

Mae enghreifftiau o fusnesau, nad oes yn rhaid iddynt adrodd ar y ddeddf, yn cymryd camau i alinio â'r nodau llesiant yn cynnwys:

Bluestone - Mae'r busnes wedi bod yn defnyddio fframwaith busnes cyfrifol Busnes yn y Gymuned Cymru ac yn gweithio ar fabwysiadu cynllun cynaliadwyedd sy'n cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'r saith nod llesiant yn y Ddeddf. Yn ddiweddar, maent wedi cwblhau archwiliad o'u gweithrediadau busnes yn erbyn y nodau llesiant. Mae Man Gwyliau Parc Cenedlaethol Bluestone wedi bod yn defnyddio fframwaith busnes cyfrifol Busnes yn y Gymuned Cymru ac yn gweithio ar fabwysiadu cynllun cynaliadwyedd sy'n cyd-fynd â'r saith nod llesiant yn y Ddeddf. Yn ddiweddar, maent wedi cwblhau archwiliad o'u gweithrediadau busnes yn erbyn y nodau llesiant.

Dŵr Cymru - Wedi cyhoeddi strategaeth a gweledigaeth 30 mlynedd ar gyfer 2050 – gan alinio ei hun â'r nodau llesiant – y busnes mawr cyntaf yng Nghymru i wneud yr ymrwymiad hwnnw. Ar lawr gwlad, arweiniwyd buddsoddiad £23m Dŵr Cymru mewn gwaith ailosod a gwella pibellau drwy brosiect peilot Cymuned Gydnerth Rhondda Fach i facsimeiddio buddiannau ei fuddsoddiad a'i bresenoldeb yn yr ardal a gafodd ei alinio â thri amcan allweddol a gymerwyd o gynllun llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.

Arup - Mae holl brosiectau Arup wedi'u mapio yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac, yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei defnyddio ar lefel prosiect. Mae cleientiaid Arup yn cynnwys cyrff sector cyhoeddus sydd â'u hamcanion eu hunain o dan y Ddeddf sy'n cael eu cynnwys mewn cynlluniau cyflawni prosiectau. Ar lawr gwlad, bu Arup yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth gwefru cerbydau trydan i Gymru. Mae holl brosiectau Arup yng Nghymru wedi'u mapio yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar lefel prosiect. Mae cleientiaid Arup yn cynnwys cyrff sector cyhoeddus sydd â'u hamcanion eu hunain o dan y Ddeddf sy'n cael eu cynnwys mewn cynlluniau cyflawni prosiectau. Ar lawr gwlad, bu Arup yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth gwefru cerbydau trydan i Gymru. Roedd cydraddoldeb mynediad a chynhwysiant yn amcanion cymdeithasol allweddol.

Mott MacDonald - Wedi creu eu hofferyn arobryn eu hunain o'r enw'r offeryn Gwerthuso Effaith Llesiant (WELLIE) sy'n "archwilio effaith seilwaith a'r amgylchedd adeiledig ar lesiant cymunedol a llesiant unigolion."

“Cafodd WELLIE ei sefydlu i'n helpu i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond hefyd i wella'r ffordd yr ydym yn gyffredinol yn gwneud ein prosiectau a'n helpu i gyflawni canlyniadau diriaethol yn nhermau llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r cyfan wedi'i seilio mewn gwirionedd ar egwyddorion datblygu cynaliadwy: sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu'r gallu i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol... Mae'r Ddeddf nid yn unig yn rhoi caniatâd i ni ond hefyd yn arf cryf i gyflawni'r canlyniadau cymdeithasol hynny.”

Alexandre Egge, Uwch Gynllunydd Tref, Mott MacDonald





“Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ei hadeiladu o gwmpas y Ddeddf”

Natalie Rees, Rheolydd Cynaliadwyedd, Trafnidiaeth Cymru

Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

- Wedi gwrandio ar faterion a godwyd gan y sector gwirfoddol a busnes mewn perthynas â gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r profiad byw hyn yn peri i fy mholisi i fy hunan a gwaith hyrwyddo weithio'n fwy effeithiol, yn cynnwys y cymorth yr wyf yn ei roi i gyrrff cyhoeddus.
- Wedi deall sut i fobileiddio busnes i alinio'u camau â'r Ddeddf ymhellach, yn amrywio o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol o'r sector preifat, yn cynnwys pob un o'r prif rwydweithiau busnes, a hefyd Busnes Cymru. Rwyf wedi darganfod bylchau yn ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at fusnes ar y Ddeddf, ac wedi ceisio cael ymrwymadau ar y modd y gall cynlluniau cynorthwyo busnes adlewyrchu'r Ddeddf yn well.
- Wedi codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ymhlith pobl ifanc. Drwy fy mhartneriaeth â'r Blwch Democratiaeth a Creative Cascade, wedi rhoi cyfle i bobl ifanc fynegi'r Ddeddf yn eu geiriau (neu eu cerddoriaeth) eu hunain a chyflwyno hyn i bobl ifanc eraill.
- Wedi rhoi cymorth ac anogaeth i eiriolwyr cenedlaethau'r dyfodol ledled Cymru, gan roi iddynt lwyfan i rannu eu syniadau.
- Wedi codi ymwybyddiaeth o bethau da yn digwydd, mudiad, sy'n dwyn pobl at ei gilydd ac sy'n creu teimlad amlwg bod pethau'n newid.



Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn dilyn llwyddiant academi beilot 2020, mae Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dychwelyd yn 2021 i hyfforddi ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr Cymru.

Beth yw'r Academi?

Creais Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi pobl ifanc rhwng 18 a 30 oed, a fydd yn arweinwyr y dyfodol a chynnig cyfleoedd iddynt ddysgu a gwella eu sgiliau arwain yng Nghymru heddiw ac yn y dyfodol.

Bellach yn ei hail flwyddyn, mae'r rhaglen arweinyddiaeth uchelgeisiol ac arloesol hon wedi denu partneriaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru i gydweithio i hyfforddi pobl ifanc o bob rhan o Gymru ym maes datblygu arweinyddiaeth ac yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae ein rhaglen 8 mis (Tachwedd 2021 – Mehefin 2022) yn cynnwys cyfres o weithdai a phrosiectau rhyngweithiol ac ymarferol a fydd yn canolbwyntio ar feithrin y sgiliau sydd eu hangen i roi gweledigaeth Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Ategwyd y sesiynau hyn gan siaradwyr gwadd ac maent yn cynnwys cyfle i ddod yn fentor o chwith gydag un o brif arweinwyr Cymru.

Mae peirianwyr, ffeminyddion, biolegwyr morol, artistiaid, myfyrwyr, graddedigion, gweithwyr manwerthu, amgylcheddwyr, gweision sifil, cyfreithwyr a llawer mwy, yn ffurfio'r garfan wych ddiweddaraf o 32 o gyfranogwyr amrywiol o Gymru. Mae pob cyfranogydd yn dod â rhywbeth gwahanol i'r bwrdd ac maen nhw wedi bod yn teimlo mor gyffrous i gael dysgu oddi wrth ei gilydd a herio'i gilydd i wneud yn well ar gyfer ein pobl a'n planed.

Rwyf eto wedi partneru gyda UpRising i gyflwyno'r rhaglen eleni. Mae cyfranogwyr wedi cael eu cyflwyno i amrywiaeth o siaradwyr ysbrydoledig ym mywyd cyhoeddus Cymru ac wedi cyfarfod â Gweinidogion Cymru i drafod y Ddeddf. Mae rhaglen mentora o chwith wedi hwyluso cyfnewid cyngor ar bersbectifau arweinwyr ifanc ar y Ddeddf i arweinwyr cyrff cyhoeddus Cymru.





Fe wnaethom recriwtio carfan eleni trwy wahanol ffrydiau:


- Daeth 17 o'r cyfranogwyr o **sefydliadau nawdd**, sy'n ariannu'r Academi, ac mae pob un ohonynt wedi anfon un cyfranogydd o'u sefydliad.
- Mae 4 o'r cyfranogwyr wedi dod o **sefydliadau partner** – lleoedd 'cadw' i sicrhau bod gennym gynrychiolaeth o sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau lleiafrifol: Anabledd Cymru, yr Urdd, a Chynghrair Hil Cymru.
- Dewiswyd 11 o gyfranogwyr o gynllun **recriwtio agored** – roedd y ceisiadau'n agored i unrhyw un sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yng Nghymru.

Diolch yn fawr hefyd i'n holl noddwyr a phartneriaid diwyro, na fyddai'r Academi Arweinyddiaeth yn bosibl heb eu cefnogaeth.

“Mae'n gwneud i chi edrych ar bolisiau mewn dimensiynau newydd lluosog”... “Roedd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ehangu tu hwnt i'r swigen polisi at y modd y mae pobl yn ei defnyddio yn eu gweithle. Yn ogystal â sut mae pobl yn ceisio newid gwahanol agweddau yn y gweithle.”

**Megan Thomas, Anabledd Cymru.
Cyfranogydd yr Academi**

Proffil y garfan:



O bob rhan o Gymru:

- | | |
|-------------------|-----------------|
| Caerdydd | Bro Morgannwg |
| Rhondda Cynon Taf | Powys |
| Abertawe | Wrexham |
| Conwy | Ynys Môn |
| Gwynedd | Sir Gaerfyrddin |

Mae'r gefnogaeth rydym wedi'i rhoi hyd yn hyn yn cynnwys prynu gliniadur ar gyfer cyfranogydd oedd â mynediad i ffôn symudol yn unig i gymryd rhan yn y rhaglen, a chefnogi un cyfranogydd i gael mynediad i ap cymryd-nodiadau gan fod angen cymorth ychwanegol arnynt yn ystod y sesiynau ar-lein.

Traws sector:

- 16 cyfranogydd yn dod o gartrefi lle na wnaeth un o'r rhieni fynychu prifysgol
- 13 cyfranogydd yn dod o'r sector cyhoeddus
- 7 cyfranogydd yn dod o'r sector preifat a sefydliadau'r cyfryngau
- 11 cyfranogydd o'r sector gwirfoddol
- 2 gynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- 5 o bobl â chyfrifoldebau gofalu
- 1 yn ymadawydd gofal
- 8 o'r cyfranogwyr wedi eu nodi fel rhai ag anabledd, bregusrwydd, neu anghenion ychwanegol

Cofrestrodd 32 o brif weithredwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gymryd rhan mewn 'mentora o chwith' gan ein harweinwyr ifanc, yn cynnwys:

- | | |
|---|--|
| Noel Mooney -
Prif Weithredwr Cymdeithas Pêl-droed Cymru | Sarah Rees -
Pennaeth Oxfam Cymru |
| Dr Andrew Goodall -
Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru | Dafydd Gruffydd -
Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn |
| Jo Whitehead - Prif Swyddog Gweithredol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Ruth Marks -
Prif Weithredwr CGGC |
| Peter Perry -
Prif Swyddog Gweithredol Dŵr Cymru | Shavanah Taj -
Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru |
| Iain Mansfield - Prif Swyddog Gweithredu
Cymdeithas Adeiladu'r Principality | Uzo Iwobi -
Sefydlydd Cyngor Hil Cymru |



Mae'r rhaglen yn annog y garfan i roi ar waith y sgiliau y maent yn eu dysgu, o fewn eu sefydliad, sector neu gymuned eu hunain, trwy Gynllun Gweithredu Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gefnogir gan fy nhîm fy hun o Ysgogwyr Newid.

Dyweddodd cyfranogwyr yr Academi, Ffion Mitchell, 25, o Wrecsam, a Nirushan Sudarsan, 22, o Gaerdydd, eu bod wedi dysgu llawer iawn o sesiynau gogledd Cymru.

Dyweddodd Nirushan Sudarsan, 22 o Gaerdydd:

“Mae'r Academi wedi bod yn gyfle gwych i gysylltu ag arweinwyr eraill y dyfodol ledled Cymru i ddysgu a hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel cenedl gyntaf y byd i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, mae gennym yn awr y cyfle unigryw nid yn unig i feddwl am genedlaethau'r dyfodol ond i wneud gwahaniaeth gweithredol ac ymarferol fel y gallwn adeiladu dyfodol gwell i bawb. Rwy'n gobeithio parhau i feithrin perthynas ag eraill yn y garfan a defnyddio egwyddorion y Ddeddf mewn sesiynau Mentora o Chwith a dysgu mwy am fecanweithiau'r ddeddfwriaeth i'w chymhwyso o fewn gofodau rwy'n rhan ohonynt.”

Dosbarth 2020

Yn bendant nid yw'r Academi yn fath o raglen lle'r ydych chi'n cael eich tystysgrif ac yn dweud hwyl fawr. Gwahoddir ein cyfranogwyr i ymuno â'n rhwydwaith Alumni – i lywio'r symudiad dros newid ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a pharhau i weithio gyda ni i ysgogi'r newid sydd ei angen ar Gymru i drawsnewid ei hun yn genedl llesiant.

Ers graddio o academi 2020, mae ein cyn-fyfrwyr wedi bod yn brysur yn gwneud newid, yn cynnwys siarad yn COP 26, eistedd ar fyrddau cynghori Llywodraeth Cymru, siarad yn fforwm rhyng-weinidogol Cymru-Iwerddon, dod yn swyddogion etholedig, siarad yng Nghynulliad Amgylchedd leuenctid y Cenhedloedd Unedig a gwneud tonnau drwy gynrychioli Cymru ar Gomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol y DU.



Effaith – ym mha fodd y mae'r Ddeddf ac Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yn gwneud gwahaniaeth

- Recriwtio carfan amrywiol o 32 o arweinwyr ifanc disglair y dyfodol i fod yn hyrwyddwyr ledled Cymru ac yn rhan allweddol o'r mudiad dros newid.
- Codi ymwybyddiaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy'r rhaglen wyth mis a rhoi'r hyder i'r cyfranogwyr ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y newid y maent am ei weld mewn eraill.
- Drwy'r elfen fentora o chwith, ysbrydolwyd a heriwyd arweinwyr presennol yng Nghymru ynghylch syniadau cenedlaethau'r dyfodol.
- Helpu cyfranogwyr i roi'r sgiliau y maent yn eu dysgu ar waith, o fewn eu sefydliad, sector neu gymuned hwy eu hunain, trwy elfen cynllun gweithredu'r rhaglen, gyda chefnogaeth fy nhîm i fy hunan o Ysgogwyr Newid.
- Cynyddu nifer y bobl ifanc (graddedigion yr academi) sy'n ymuno â byrddau cynghori cyrff cyhoeddus neu ymgysylltiadau siarad cyhoeddus i hyrwyddo cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru ac ar lefel byd-eang, gan gynnwys yn Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, Fforwm Rhyngweinidogol Iwerddon-Cymru, COP26, Cynulliad Amgylchedd leuenctid y Cenhedloedd Unedig. Mae pedwar corff cyhoeddus wedi gofyn a ellir defnyddio ymgysylltiad â'r academi i drwytho eu mentrau allgymorth eu hunain ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.





Llysgennad balch dros Gymru yn y Byd

Mae Cymru, mewn dull beiddgar ac anymddiheurol yn ymdrechu i fod yn Genedl sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang – yn unol ag un o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae diddordeb aruthrol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dramor, ac er bod llawer y gallwn ei rannu â gwledydd eraill am ein hymagwedd, mae llawer y gallwn ei ddysgu ganddynt hwythau hefyd am heriau a chyfleoedd tebyg sy'n wynebu Cymru. Rwy'n gweithio'n agos gyda Gweinidogion Cymru a thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru i gyflawni hyn, i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn fyd-eang, ac i sicrhau partneriaethau rhyngom â rhanddeiliaid rhyngwladol.

Effaith – ym mha fodd y mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ysbrydoli gwledydd eraill

- Llwyddais yn fy nadleuon a gyflwynais i Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig i fabwysiadu ymagwedd cenedlaethau'r dyfodol gan gynnwys datganiad y [Cenhedloedd Unedig ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol](#), creu Llysgennad arbennig y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol ac Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Dyfodol.
- Codi proffil Cymru a'r Ddeddf yn cynnwys yn COP26, Un Byd Ifanc ac Uwchgynhadledd Expo'r Byd, a rhannu dysgu ledled y Byd yn cynnwys yn yr Almaen, Senedd Ewrop a'r Cenhedloedd Unedig.
- Sicrhau bod lleisiau pobl ifanc Cymru'n cael eu clywed yn Uwchgynhadledd Hinsawdd COP26. Cymerodd tri aelod o fy academi arweinyddiaeth ran yn nigwyddiadau COP26, gan godi proffil Cymru yn y byd o gwmpas ein gweithredu ar yr hinsawdd – a'r angen am gamau pellach fyth i gyrraedd sero net.
- Cefnogi datblygiad a chynnydd deddfwriaeth cenedlaethau'r dyfodol yn Senedd y DU, ymrwymiad rhaglen lywodraethu Llywodraeth yr Alban i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yr Alban a gweithio gyda llywodraethau a chymdeithas ddinesig yn Iwerddon ymhlith eraill, i gyflwyno'r achos dros deddfwriaeth yn eu gwledydd.

“ Mae'r holl gysyniad o arweinwyr y dyfodol ac yn wir deddfu i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn rhywbeth yr hoffwn ei drosglwyddo'n uniongyrchol ar draws Môr Iwerddon ”

Dyfyniad Coveney, Gweinidog Tramor Iwerddon

- Cadarnhaodd llywodraeth yr Alban bod comisiwn newydd ar y ffordd yn eu Rhaglen Lywodraethu. Dywedodd y Prif Weinidog Nicola Sturgeon y bydd gweinidogion yn

“ ystyried dull newydd o sicrhau bod buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau heddiw, drwy gomisiwn cenedlaethau'r dyfodol ” yn y cynllun blynyddol.



- Rwyf wedi cynghori llywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol a dinesig, a grwpiau cymdeithas sifil ar greu systemau llywodraethu cenedlaethau'r dyfodol yn Ffrainc, yr Eidal, yr Iseldiroedd ac Awstralia. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu ystod o glymbleidiau cenedlaethol ac ymrwymadau'r llywodraeth i sefydliadau ar gyfer llywodraethu cenedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys:

- 517 o addewidion gan gynghorwyr lleol yn yr Iseldiroedd i weithredu er budd Cenedlaethau'r Dyfodol: [Promise councillors - Ministry of the future \(ministerievandetoekomst.nl\)](https://www.ministerievandetoekomst.nl)
- Datblygu ymgyrch cymdeithas sifil ac undebau llafur ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr Eidal
- gyda Sefydliad y Cenhedloedd Unedig a'r Sefydliad Yfory i gefnogi arweinwyr ieuencid o bob rhan o'r byd i ddysgu am lywodraethu cenedlaethau'r dyfodol a'i hyrwyddo.

Gwnaeth dros 800 o arweinwyr ifanc gais i'r rhaglen hyfforddi trwy bartneriaid y Cenhedloedd Unedig, 80% ohonynt o ran ddeheuol y byd. Darparodd arweinwyr ieuencid a gymerodd ran yn yr hyfforddiant fewnbwn i neges o'r enw 'Contract ar gyfer y Dyfodol' i'w chyflwyno yn [Uwchgynhadledd y Ddaear Stockholm+50 y Cenhedloedd Unedig](#).


- Cynnull [Rhwydwaith Sefydliadau Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ac eleni adolygu ei genhadaeth a'i gynllun gweithredu. Cytunodd yr aelodau i gefnogi sefydliadau'r Cenhedloedd Unedig sy'n ymroi i hyrwyddo llywodraethu cenedlaethau'r dyfodol yn system y Cenhedloedd Unedig - ac estyn allan i fwy o wledydd yn rhan ddeheuol y byd i hyrwyddo llywodraethu cenedlaethau'r dyfodol.



O'r Ffindir i'r India, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar benderfyniadau byd-eang.

“ Annwyl Sophie, Diolch o galon am ymuno o galon am ymuno â ni yn nigwyddiad FinnSight2020 ac am eich cyflwyniad. Roedd yn wych a'ch cyflwyniad chi a anogodd y mwyafrif o sylwadau. Chi oedd seren y dydd ”

Jaana Tapanainen-Thiess, Ysgrifennydd Cyffredinol, Adroddiad y Llywodraeth ar y Dyfodol a Grŵp Rhagolwg y Llywodraeth, Swyddfa'r Prif Weinidog, y Ffindir



“ Does dim rhyfedd bod y Llywodraeth a llawer eraill o gwmpas y byd yn eiddigeddus o'r Ddeddf uchelgeisiol ac eang hon. Dyna pam y cafodd ein Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, ei galw gan y Cenhedloedd Unedig i'w helpu wrth iddynt gynllunio i gael Comisiynydd tebyg, gan ddefnyddio Comisiynydd Cymru fel model...

Dyna pam wnaeth yr Arglwydd John Bird, cyd-sylfaenydd y Big Issue, pan gyflwynodd Fesur yn Nhŷ'r Arglwyddi, ganmol y model Cymreig am 'arwain y ffordd'. Dyna pam, pan ymwelodd Gweinidog Tramor Iwerddon â ni fis diwethaf y dywedodd bod y Ddeddf yn ysbrydoledig.

Mae'n amlwg nad creu crychdonnau yn y byd yn unig y mae Cymru, ond gwneud tonnau go iawn ”

Rhys ab Owen AS, Canol De Cymru



Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r cyhoeddiad gan Antonio Guterres, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym mis Medi 2021 ar sefydlu Llysgennad Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol, Uwchgynhadledd y Dyfodol yn 2023 a Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol yn gam sylweddol tuag at gamau gan weddill y byd i fabwysiadu ymagwedd 'gwnaed yng Nghymru' tuag at ddiogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.

Rwyf wedi dadlau ers sawl blwyddyn dros yr angen i system y Cenhedloedd Unedig a llywodraethau ledled y DU gael eu seilio ar 'lywodraethu cenedlaethau'r dyfodol'. Rwyf wedi ymgysylltu ag uwch swyddogion ac adrannau'r Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys Llysgennad Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig, Menywod y Cenhedloedd Unedig a Llysgennad Ieuenctid Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig.

Mae Llysgennad Ieuenctid y Cenhedloedd Unedig, Jayathma Wickramanayake, wedi priodoli'r datblygiad hwn i ddysgu o Gymru ac mae'n dangos y gallwn ni fel cenedl fach roi arweiniad gwirioneddol i weddill y byd.

“Mae adroddiad pwysig yr Ysgrifennydd Cyffredinol, 'Our Common Agenda', yn cydnabod bod yn rhaid i bobl ifanc fod yn ganolbwynt prosesau gwleidyddol ar lefel cenedlaethol a byd-eang er mwyn cyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy...

Mae ein gweledigaeth ar gyfer Llysgennad Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hysbrydoli gan y cynnydd sy'n cael ei wneud mewn rhai gwledydd ledled y byd, gan gynnwys Cymru, sy'n dangos ei bod hi'n bosibl deddfu a gweithredu i wneud buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yn ganolbwynt llywodraethau



Mae fy ymrwymiadau rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n gyson. Lle mae hynny'n bosibl, rwy'n gofyn am bresenoldeb rhithwir neu ddigidol ac rwyf wedi cymryd rhan yn llwyddiannus mewn ystod o gynadleddau a digwyddiadau yn y modd hwn. Rwyf hefyd yn archwilio dewisiadau trafndiaeth a llety cynaliadwy pan fyddaf yn teithio. Mae fy allyriadau carbon yn cael eu gwrthbwysu bob blwyddyn. Yn nhermau effaith ymadawiad y DU â'r UE, er bod yr effaith uniongyrchol ar fy ngweithgarwch a'm canlyniadau i fy hunan yn annhebygol o fod yn sylweddol, mae ein gwaith yn cyd-fynd â Strategaeth Llywodraeth Cymru i ddiffinio a hyrwyddo a chyflwyno'r hyn y mae Cymru'n ei wneud i'r Byd.

Uwchgynhadledd Hinsawdd COP26

Roedd gan Gymru stori enfawr i'w hadrodd yn COP26, (yr Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a gynhaliwyd yng Nglasgow ym mis Hydref 2022) gyda'n Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r argyfwng hinsawdd a natur yn bodoli yma yn awr – dyna pam mae angen Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar bob gwlad yn y byd i gyfyngu ar yr effaith. Mae gennym ni i gyd ddyletswydd i amddiffyn pobl sydd eto heb eu geni rhag y niwed y byddant yn ei ddioddef heb weithredu difrifol ar yr hinsawdd.

Euthum i Glasgow gyda chwestiynau clir, wedi'u dylanwadu gan sgysiau gyda chymunedau, pobl ifanc, busnesau, cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys datganiadau'n nodi y dylai llywodraethau:

1. Fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith allweddol mewn diwydiannau gwyrdd ac adfer natur i greu swyddi.
2. Gosod cynllun tymor-hwy ar gyfer ariannu datgarboneiddio cartrefi.
3. Asesu effaith carbon gwariant y llywodraeth, yn enwedig gwariant cyfalaf, a chyhoeddi manylion am effaith carbon cyffredinol eu cyllideb a phenderfyniadau buddsoddi/seilwaith pwysig.
4. Sicrhau bod holl strategaethau newid hinsawdd/datgarboneiddio a symudir ymlaen hefyd yn lleihau anghydraddoldebau trwy ystyried y modd y gallant effeithio ar wahanol grwpiau a chymunedau cyn i benderfyniadau gael eu gwneud.
5. Ennyn ymgyfraniad y rhai sy'n cael eu heffeithio gan newid hinsawdd.

Hefyd, galwais ar lywodraethau ledled y byd i fabwysiadu deddfwriaeth cenedlaethau'r dyfodol i sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud heddiw yn diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.





Gwneuthum ymgyfrannu mewn llawer o ddigwyddiadau a sgysiau yn yr Uwchgynhadledd gan gynnwys:

- Cynnal digwyddiad ymylol swyddogol ar 12 Tachwedd, gan arddangos y rôl y gall diwylliant a'r celfyddydau ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Diolch i: [Celfyddydau Rhyngwladol Cymru](#), [Taylor Edmonds](#) (fy mardd preswyl), [IDEO](#), [Eisteddfod Genedlaethol Cymru](#), [Maint Cymru](#), [Ynys Blastig](#) a [Llenyddiaeth Cymru](#) am eu cefnogaeth.
- Hwyluso Arweinwyr y Dyfodol i siarad yn COP26 a fforwm rhyngweinidogol Cymru-Iwerddon a thrafodaeth banel COP26 FCDO yr Almaen.
- Siaradais mewn dros 10 o ddigwyddiadau gan dynnu sylw at y rôl y mae Cymru'n ei chwarae i frwydro yn erbyn yr argyfyngau hinsawdd a natur, a'n hangen i fynd hyd yn oed ymhellach i ennyn ymgyfraniad cymunedau, gweithio ar y cyd â sefydliadau angori gwirfoddol a gweithredu'n fyd-eang ochr yn ochr â phartneriaid rhyngwladol.
- Trefnu digwyddiad arweinyddiaeth leuenctid gyda thîm Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Wythnos Hinsawdd Cymru (Tachwedd 22-26).



Effaith – sut mae'r Ddeddf a fy ngwaith i yn gwneud gwahaniaeth

- Llwyddo yn y dadleuon a gyflwynir gennym i Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig i fabwysiadu ymagwedd cenedlaethau'r dyfodol o fewn System y Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys y posibilrwydd o greu Llysgennad Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol ac Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Genedlaethau'r Dyfodol.
- Codi ymwybyddiaeth o'r bwlch gweithredu mewn perthynas â gweithredu ar newid hinsawdd yng Nghymru – a sicrhau ymrwymadau Gweinidogion a'r Llywodraeth.
- Cynnal sgysiau gyda rhanddeiliaid a llywodraethau rhyngwladol ar ymagwedd Cymru a dylanwadu ar weithredoedd eraill gan gynnwys Iwerddon, yr Alban a'r Eidal. Cyngori sefydliadau cyhoeddus ac eraill ar y camau ymarferol y gallant eu cymryd i gyflawni cyfrifoldeb byd-eang ac amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol.
- Effeithio ar ymrwymadau polisi gan gynnwys aliniad Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru â'r Ddeddf.
- Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol mewn eraill. Rydym ar flaen y gad yn y mudiad i annog gwledydd i feddwl mewn dull hirdymor, integredig a chyfrifol yn fyd-eang.



Pwrpas 4

Gweithredu'r geiriau a bod y newid yr wyf eisiau ei weld mewn eraill

Rwyf yn benderfynol o facsimeiddio fy nghyfraniad i fy hunan i'r nodau llesiant i roi ysbrydoliaeth a datblygu dealltwriaeth o'r camau ymarferol y gall sefydliadau eu cymryd.

Dyma rai enghreifftiau o'r modd yr wyf wedi hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fy ngwaith i fy hunan.

Rwyf wedi:

- Cyflwyno cynllun gwarantu cyfweiliad lle byddai ymgeiswyr Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl anabl sy'n gwneud cais am unrhyw swyddi yn fy swyddfa yn sicr o gael cyfweiliad pe byddent yn bodloni meini prawf hanfodol y swydd.
- Cynyddu amrywiaeth fy ngweithlu, o 15% i 24%, gan gyflogi 16% o gydweithwyr o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a lansio ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ein hunain. Mae cyfanswm o 12 iaith yn cael eu siarad gan fy nhîm ac mae dau aelod o'r tîm yn y broses o ddysgu iaith newydd, gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain.
- Parhau i gryfhau fy mherthynas ag ystod eang o sefydliadau trydydd sector a chymunedol, grwpiau nas clywir yn aml, busnesau a rhanddeiliaid rhyngwladol.
- Datblygu fy Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol cynhwysfawr fy hun, rwyf wedi cymryd camau gweithredol i hysbysebu ein swyddi gwag ar wefannau arbenigol fel BYP (Black Young Professionals), ac wedi cyflwyno rhaglen fewnol o hyfforddiant cydraddoldeb hiliol mewn partneriaeth â The Krystal Alliance. Mae'r rhaglen hon wedi canolbwyntio ar fraint, cynghreiriad, rhagdybiaethau, rhagfarn a gwahaniaethau systemig ac mae gennym gynlluniau i wella ein dysgu ymhellach gydag addysg deallusrwydd diwylliannol parhaus i mewn i 2022/23.
- Yn 2022-23, byddaf yn penodi aelod Cynhwysiant, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth i ymuno â'r tîm.
- Wedi ymuno ag eraill, yn cynnwys Cynrychiadau Omidaze, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llenyddiaeth Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Sefydliad y Cenhedloedd Unedig, Prifysgol Caerdydd, Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac Ynys Blastig i enwi dim ond rhai! Mae'r partneriaethau hyn yn ein galluogi i ymhelaethu ar ein cydamcanion, cyfleu'r materion sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol, a gwerthfawrogi arbenigedd a sgiliau allanol. Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth ac am fedru gweithio mewn phartneriaeth â sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt.
- Cefnogi'r Ymgyrchwyr o [Gynghrair Brechlyn y Bobl](#) (a ganddo dros 80 o aelodau gan gynnwys y Gynghrair Affricanaidd, Oxfam ac UNAIDS), sy'n galw ar gwmnïau fferyllol i rannu eu gwyddoniaeth a thechnoleg brechlyn yn agored. Rwy'n falch bod Prif Weinidog Cymru wedi mabwysiadu gofynion adfocatiaeth yr ymgyrch, sy'n galw ar Lywodraeth y DU i gefnogi brechlynnau ar gyfer gwledydd yn rhan ddeheuol y byd.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith: Rwyf wedi cymryd amrywiaeth o gamau i annog siarad Cymraeg yn ddi-rwystr yn ein tîm. Rwyf wedi talu am wersi Cymraeg i staff ac mae traean o'n tîm bellach yn hyddysg yn y Gymraeg.
- Treialu llai o oriau gwaith. Fe wnes i ddechrau lleihau'r diwrnod gwaith safonol i chwe awr, i ddechrau er mwyn ymateb i heriau'n ymwneud â phlant yn cael eu haddysgu gartref yn ystod y cyfnod clo ac oriau hir o flaen sgrîn y cyfrifiadur.
- Drwy symud i [Tramshed Tech](#), rwyf wedi lleihau fy ôl troed carbon gan ddefnyddio gofod llai, a llai o ynni.



Sophie Howe
@sophiehowe

First trip on [@transport_wales](#) to our new offices [@TramshedTech](#) Excited to be back in an office environment after a looooong 2 years and what a cool place to relocate to! Today I'll be out and about around Grangetown filming a documentary for [@zdfstudios](#)





Beth yw Gweithredu'r Geiriau? Dyma ein diwylliant sefydliadol; pwy ydym ni a sut yr ydym yn byw ac yn anadlu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; gan gefnogi llesiant yn y gweithle ac allan ohono; ac ymarfer yr hyn a bregethwn.

Dim ond os bydd eraill yn ymuno â ni y gallwn gyflawni ein nodau uchelgeisiol. Rydym wedi casglu rhai enghreifftiau o'r hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud ein hunain i 'weithredu'r geiriau' yn y gobaith y bydd hefyd yn ysbrydoli mwy o sefydliadau i wneud newidiadau cadarnhaol.

“Mae'r Camau a gymerwn fel Swyddfa yn enghreifftiau gweladwy o'n gwerthoedd ac yn ymgrynhai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn lle gwych i weithio ynddo, lle mae staff yn cael eu hysbrydoli, eu galluogi a'u cefnogi i ffynnu yn y gwaith ac allan o'r gwaith. Mae ein ffordd ni o weithio yn ysbrydoli eraill i archwilio cyfleoedd i Weithredu'r Geiriau eu hunain.”


Macsimeiddio fy nghyfraniad i'r saith nod llesiant

I weithredu'r geiriau ar Gymru Lewyrchus rwyf wedi:

- Ymrwymo i dâl teg i bawb: ni yw un o'r 7,000 cyflogydd Cyflog Teg gwirioneddol yn y DU.
- Diolch i gyfres o secondiadau mewnol ac allanol, mae hanner cant y cant o'n tîm wedi dod yn hyfforddwy achrededig Modiwl Dysgu Unigol (ILM) ac wedi gallu rhannu a dysgu sgiliau newydd.
- Wrth ddod o hyd i nwyddau a gwasanaethau, rydym yn chwilio am gadwyni cyflenwi moesegol ac yn ceisio cefnogi'r defnydd o fusnesau lleol, er enghraifft, annog staff i ddefnyddio caffis lleol a hybiau cymunedol fel mannau gweithio a chyfarfodydd.
- Rydym wedi newid ein polisi caffael i ystyried y cyfraniad i'r nodau yn ogystal ag edrych ar y pris ac rydym yn edrych am gyflenwyr cynaliadwy lle bynnag y bo modd ac yn defnyddio cwmnïau ac elusennau lleol fel [Bigmoose](#) fel lleoliadau ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd.
- Hyrwyddo dysgu a datblygu yn y gweithle a sicrhau bod ein diwylliant yn un sy'n cefnogi unigolion i ffynnu a thyfu, gan annog datblygiad sgiliau newydd. Mae dysgu pellach wedi digwydd eleni gyda gwell hyfforddiant Office 365, achrediad Iechyd Meddwl a Llesiant I-ACT i bawb ac addysg cydraddoldeb a chynhwysiant 'Dewch i Siarad Am Hil'. Mae aelodau newydd hefyd wedi manteisio ar hyfforddiant proffesiynol y Sefydliad Materion Cymreig (IWA) ar Wneud Penderfyniadau Gwleidyddol yng Nghymru.
- Annog staff i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol: Mae fy swyddfa wedi'i lleoli'n fwiadol ger gorsaf drenau, ac mae gennym ni gronfa feiciau y gall unrhyw un ei defnyddio i gyrraedd cyfarfodydd. Rydym wedi sicrhau gostyngiad ar gyfer cardiau misol Bws Caerdydd.
- Cynnal arolwg rheolaidd o'n timau gan ddefnyddio mecanwaith 'Petite Pulse' chwarterol i sicrhau ein bod yn gwrando ac yn adeiladu'n barhaus ar ein diwylliant gwych 'pobl yn gyntaf'.



- Wedi diweddarau ein polisi gweithio 'Unrhyw Bryd Unrhyw Le' sydd wedi bod ar waith ers diwrnod 1. Mae hyn yn lleihau angen tîm i deithio'n ddiangen ac yn cefnogi cydbwysedd bywyd a gwaith - gwnaeth ein rhoi mewn sefyllfa gref wrth addasu i weithio gartref o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19, sefyllfa sydd ers hynny wedi ei hadolygu i gynnwys arweiniad ar weithio hybrid wrth i ni bontio i fodel gweithio newydd sy'n canolbwyntio i raddau helaeth ar weithio ar sail dewis.



Gwneud y gorau o lesiant trwy wario

Mae arnom angen ffordd well o fesur sut mae caffael yn cyflawni canlyniadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae TOMs Cymru Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol yn set o fesuriadau y cytunwyd arnynt i'w cynnwys mewn contractau caffael sy'n ymgorffori'r mesurau pecyn cymorth Buddion Cymunedol presennol, ond sydd hefyd yn darparu cyfleoedd ychwanegol i gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r offeryn TOMs yn ystyried y cylch caffael cyfan, gan gynnwys comisiynu, rheoli contractau a chysylltiadau cadwyn gyflenwi. Defnyddir y nodau llesiant ar gyfer 7 thema'r pecyn cymorth ac mae'r 35 canlyniad yn seiliedig ar y penawdau o fewn Teithiau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r nodau. Mae lle hefyd i sefydliadau ystyried sut y gall canlyniadau caffael gyfrannu at eu hamcanion llesiant.

I weithredu'r geiriau ar Gymru Gydnerth rwyf wedi:


Mae'r crynodeb isod yn cynnwys fy adroddiad ar ffoamrywiaeth ac ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2016, Adran 6.

- Cynyddu dealltwriaeth fy nhîm o'r amgylchedd naturiol. Gallwn ni i gyd wneud mwy i sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan annatod o'r broses benderfynu ar bob lefel. Gallwch gael syniadau ar y modd y gall eich sefydliad gyfrannu yn fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) a [Thaith y Gallu i Greu](#) tuag at Gymru Gydnerth. Bydd y rhain yn rhoi rhai syniadau i chi ar gyfer gwneud newidiadau syml i ddechrau, ac yn mynd â chi'r holl ffordd drwodd i fentrau llawer mwy uchelgeisiol.
- Gweithio gyda'r Llywodraeth ar ei chynlluniau adfer yn dilyn COVID gan sicrhau y dylai unrhyw fuddsoddiad facsimeiddio'i gyfraniad i'r nod llesiant 'Cymru Gydnerth'.
- Yn ogystal â dylanwadu ar bolisi cenedlaethol ar ddatgarboneiddio a chynllunio trafniadaeth, rwyf hefyd wedi cymryd camau bach i leihau effaith fy Swyddfa ar yr amgylchedd, o fod yn swyddfa ddi-bapur ac yn barth di-blastig untro, ymuno â'r siarter Teithio lach i leihau maint fy swyddfa. Rydym yn plannu coed yn rheolaidd drwy gyfraniadau i Maint Cymru i wrthbwyso milltiroedd awyr, rwyf wedi creu wal werdd yn fy swyddfa newydd ac wedi cyflwyno ffonau symudol 'Teracube' cynaliadwy.



- Wedi ailddefnyddio neu atgyweirio lle bynnag y bo modd. Mae llawer o'n dodrefn swyddfa'n cael eu hailgylchu o'r Weinyddiaeth Dodrefn ac rydym wedi cyflwyno lwfans gweithio o gartref untro, sy'n cefnogi aelodau'r tîm i brynu dodrefn ac offer swyddfa mewn ffordd sy'n cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau – prynu'n lleol, ailgylchu neu ailddefnyddio a chyfyngu ar yr effaith amgylcheddol.

- Creais gynllun aberthu cyflog i gefnogi staff i brynu beic neu gerbyd allyriadau isel iawn. Mae gan fy swyddfa le storio beiciau diogel a chawodydd ar gyfer staff ac ymwelwyr, yn ogystal â chronfa feiciau y gall staff ei defnyddio i fynd i mewn ac o gwmpas Caerdydd.





I weithredu'r geiriau ar Gymru fwy cyfartal rwyf wedi:

- Meincnodi fy mhroffil amrywiaeth gweithlu yn erbyn yr ystadegau cenedlaethol. Tra'r oedd 76% o fy nhîm staff presennol yn disgrifio'u hunain ar 31 Mawrth 2022 fel Cymry gwyn neu Brydeinwyr gwyn, mae'r 24% sy'n weddill yn cynrychioli pedwar ethnigrwydd gwahanol arall gan gynnwys pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a gwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd.
- Pan fyddaf yn recriwtio staff newydd, rwy'n gwarantu cyfweiliadau i unrhyw ymgeisydd o grŵp sy'n cael ei dangynrychioli o fewn ein gweithlu ac sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl. Mae pob aelod o fy nhîm wedi cael hyfforddiant i wella'u hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o wahanol hiliau a ffydd. Yn ogystal, rwy'n cynnal gweminarau y tu allan i oriau gwaith arferol fel dull o fedru siarad am y rôl ac ateb cwestiynau darpar ymgeiswyr.
- Creu cronfa hygyrchedd ar gyfer ein Hacademi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol i annog cyfranogiad o ystod eang o gefndiroedd gan gynnwys y rhai ag anableddau neu gyfrifoldebau gofalu.
- Rwy'n cynnig gwell pecyn ar gyfer absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu gan gynnwys chwe mis o dâl llawn ar gyfer absenoldeb mamolaeth a mabwysiadu, tri mis o dâl llawn ar gyfer absenoldeb tadolaeth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gyntaf a gostyngiad o 50% mewn oriau gwaith tâl llawn yn ystod y mis cyntaf yn ôl yn y gwaith.
- Sefydlu cefnogaeth i'r rhai sy'n dioddef camdriniaeth. Dywedir mai materion ariannol yw un o'r rhwystrau mwyaf i adael perthynas gamdriniol, felly rydym wedi lansio polisi newydd i ganiatáu i unrhyw staff sy'n dioddef cam-drin domestig gael mynediad i 10 diwrnod o absenoldeb arbennig ynghyd â grant arian parod o hyd at £500, blaenswm cyflog neu fenthyciad di-log o hyd at £5,000 i helpu i dalu am unrhyw beth, o gostau adleoli gan gynnwys rhent neu flaendal ar gartref, i gyflenwadau hanfodol. Gallant hefyd gael cymorth i ddatblygu cynllun diogelwch, sgrinio galwadau i'w hamddiffyn rhag camdriniaeth, a chymorth 24 awr gan gwnselwyr hyfforddedig. Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chomisiynydd Plant Cymru bellach wedi dilyn ein hesiampl.

- Rwyf wedi gwneud yn siŵr bod menywod yn cael eu talu'n deg, yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn uwch rolau a bod eu hawliau'n cael eu diogelu.
- Rwyf wedi creu cronfa hygyrchedd ar gyfer Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol i annog cyfranogiad o ystod eang o gefndiroedd gan gynnwys y rhai ag anableddau neu gyfrifoldebau gofalu.
- Wedi gweithio gydag Anabledd Dysgu Cymru, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, i wella'r modd yr ydym yn cyfleu ein gwaith ac wedi cynhyrchu fersiynau iaith Arwyddion Prydain a iaith Hawdd ei Deall o fy nhri adroddiad blynyddol diwethaf ac hefyd wedi gweithredu meddalwedd newydd i sicrhau bod ein gwefan yn gwbl hygyrch ar gyfer ystod o namau.

'Awkward questions could save a life'



Future Generations Commissioner Sophie Howe announced that any of her staff who suffer abuse would get financial support and time off work if they need it.

Last year, Future Generations Commissioner Sophie Howe announced financial support for any of her staff needing to escape an abusive relationship, as well as paid leave to deal with emergencies arising from domestic abuse.

She's now calling on other public sector employers to do the same.



Supporting people in the workplace experiencing domestic abuse

Policy last reviewed November 2020



I weithredu'r geiriau ar Gymru iachach yn 2021-22 rwyf wedi:

- Cynnig arian llesiant i weithwyr i gyrchu swm sefydlog bob blwyddyn i gefnogi eu llesiant. Caiff hwn ei dalu am fod uwch aelodau'r tîm yn aberthu cynnydd mewn cyflog yn wirfoddol.
- Mae gen i 'Addewid Llesiant' sy'n nodi cynlluniau llesiant sy'n bwysig i ni ac sy'n grymuso'r tîm i'w gweithredu. Enghreifftiau o weithgareddau tîm cyfredol a blaenorol yw dosbarth Yoga wythnosol arlein, clybiau rhedeg a rihysal côr swyddfa, sydd wedi bod yn arbennig o boblogaidd gyda'r tîm. Rydym yn ceisio annog bwyta'n iach hefyd.
- Dathlu llwyddiannau unigolion. Rwyf wedi creu strwythur 'codi hwyl' lle mae aelodau'r staff yn cysylltu'n gyson â chyfoedion penodedig a ddewisir i sicrhau eu lles a'u datblygiad personol.
- Sefydlaeth leihad yn y diwrnod gwaith safonol i chwech awr, yn gyntaf i ymateb i'r heriau'n ymwneud â phlant yn cael eu dysgu gartref yn ystod y cyfnod clo ac oriau maith o flaen sgrin gyfrifadur.
- Hyd yn oed cyn i'r pandemig gychwyn, roeddwn wedi cyflwyno cyfarfodydd cerdded ymhlith ein tîm, ac mae'r rhain yn dal i ddigwydd nawr. Mae'n ffordd wych o gael awyr iach ac ymarfer tra'n gweithio! Mae gennym hefyd glwb rhedeg staff sy'n boblogaidd iawn ac sy'n ein hannog i gyd i fod yn fwy gweithredol yn gorfforol.



Gwneud cysylltiadau i wella cynaliadwyedd amgylcheddol yn Ysbyty Gwynedd

Newid yn yr hinsawdd yw bygythiad iechyd byd-eang mwyaf y ganrif hon. Pe bai'r sector gofal iechyd byd-eang yn wlad hi fyddai'r pumed allyrrydd mwyaf o nwyon tŷ gwydr. Yn 2019, ymunodd meddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol yn Ysbyty Gwynedd i ffurfio Grŵp Gwyrdd, gan geisio adleoli eu llw i 'wneud dim niwed' yng nghyd-destun iechyd planedol - llesiant bodau dynol ynghyd â'r systemau naturiol y maent yn dibynnu arno. Eu nod oedd creu platfform cefnogol ar gyfer trafodaeth a gweithredu ynghylch cynaliadwyedd; lle gallai aelodau rannu a datblygu gwybodaeth, meithrin sgiliau, a rhagweld prosiectau cynaliadwyedd lleol yn yr ysbyty a thu hwnt.


I weithredu'r geiriau ar Gymru o Gymunedau Cydlynol rwyf wedi:

- Ymrwymo i gynrychiolaeth fwy amrywiol ar ein Panel Ymgynghori i wneud yn siwr ei fod yn cael ei drwytho gan amrywiaeth eang o gymunedau sy'n bodoli ledled Cymru. Mae Anabledd Cymru, Tîm Cymoth Ieuenctid Ethnig (EYST) a Stonewall Cymru i gyd wedi derbyn fy ngwahoddiad.
- Cefnogi elusennau sy'n rhannu ein gwerthoedd, yn cynnwys [bigmoose](#), menter gymdeithasol â'i chenhadaeth yn ymwneud â 'gadael y byd mewn gwell cyflwr nag oedd pan wnaethom ei ddarganfod'.
- Rwyf yn gwerthfawrogi ac yn edrych am bobl i siarad â nhw am eu profiadau i helpu i drwytho ein syniadau a'n gwaith ac wedi cynnal sesiynau amser cinio sydd bob amser yn boblogaidd iawn gyda'n tîm, er enghraifft gyda [Give Your Best](#), [Cymorth i Ferched Cymru](#), a'r [Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu](#).

- Mae fy swyddfa wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i fod yn wrandawyr da yn hytrach na siaradwyr da er mwyn gwrandao ar brofiadau eraill a dysgu oddi wrthynt.
- Parhau i gynnig ymagwedd 'unrhyw bryd, unrhyw le' tuag at oriau gwaith. Mae gweithio hyblyg yn golygu bod aelodau fy nhîm yn medru gwirfoddoli – mae i fyny at wyth diwrnod gyda thâl ar gael i bawb sy'n gweithio yn y Swyddfa i wirfoddoli, mwy os canfyddir bod hyn o fudd arbennig i waith y Swyddfa.

I weithredu'r geiriau ar Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, rwyf wedi:

- Mewn partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, rwyf wedi penodi [Taylor Edmonds](#) yn ail Fardd Preswyl, 26 mlwydd oed sy'n hwylusydd creadigol y mae ei gwaith yn archwilio themâu sy'n cynnwys benyweidd-dra, rhywedd cwiâr, grymuso, cysylltu, hud a chwedlau gwerin, a natur. Bydd ei chydweithrediad, blwyddyn o hyd gyda fy nhîm, yn helpu i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyfleu nodau'r Ddeddf.



Llun gan: Matt Horwood



- Rwyf wedi cymryd amrywiaeth o gamau i annog fy nhîm i siarad Cymraeg heb unrhyw rwstr. Rwyf wedi talu am wersi Cymraeg i staff ac mae traean o'n tîm bellach yn hyddysg yn y Gymraeg.
- Hyrwyddo diwylliant a'r iaith Gymraeg ar lwyfan byd-eang. Er enghraifft, yn 2019, fi oedd y person cyntaf i siarad Cymraeg yn Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel y Cenhedloedd Unedig, gan ddod â'r iaith i sylw rhai o ffigurau gwleidyddol uchaf y byd.
- Gweithio mewn partneriaeth ag [Eisteddfod Genedlaethol Cymru](#), [Celfyddydau Rhyngwladol Cymru](#), [IDEO](#), [Ynys Blastig](#) ac eraill i hwyluso digwyddiad ar thema Diwylliant yn COP26. Amlygodd y foment hon bwysigrwydd defnyddio diwylliant fel modd o gyfathrebu'r argyfwng hinsawdd, ond hefyd fel modd o werthfawrogi pwysigrwydd diwylliant yn ein cymdeithasau, a all fod dan fygythiad yn dilyn yr argyfwng hinsawdd. Roedd allbynnau'r digwyddiad yn cynnwys cadair ar thema'r Eisteddfod a fideo wedi'i gomisiynu – wedi'i ddylanwadu gan stori Branwen.

I weithredu'r geiriau ar Gymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang rwyf wedi:

- Ffocysu fy ngwaith rhyngwladol gyda thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang: rwyf wedi cyfrannu at [Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig](#) ac wedi gweithio gydag asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig ac uwch swyddogion i hyrwyddo ymagwedd unigryw Cymru, yn cynnwys trwy rwydweithiau arweinyddiaeth ieuencid byd-eang fel [Un Byd Ifanc](#) ym mis Mehefin 2021.
- Gweithiais gyda [Sefydliad y Cenhedloedd Unedig](#) a [Sefydliad Yfory](#) i lunio pecyn cymorth adfocatiaeth i arweinwyr ifanc o bob rhan o'r byd i ddysgu am lywodraethu cenedlaethau'r dyfodol a'u hyrwyddo. Gwnaeth dros 800 o arweinwyr ifanc gais i'r rhaglen hyfforddi drwy bartneriaid y Cenhedloedd Unedig, 80% ohonynt o ran ddeheuol y byd. Darparodd arweinwyr ifanc oedd yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant fewnbwn i neges o'r enw 'Contract for the Future' i'w gyflwyno gan [UN Stockholm+50 Earth Summit](#).

- Cefnogais Ymgrychwr o [Gynghrair Brechlyn y Bobl](#) (a ganddo dros 80 o aelodau gan gynnwys y Gynghrair Affricanaidd, Oxfam ac UNAIDS), sy'n galw ar gwmnïau fferyllol i rannu eu gwyddoniaeth a thechnoleg brechlyn yn agored.
- Yn dilyn y sefyllfa drychinebus yn yr Wcrain, rwyf wedi adleisio'r alwad gan Filippo Grandi, Uchel Gomisiynydd Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig, am fynediad i ddiogelwch i bawb, waeth beth fo'u statws cyfreithiol, cenedligrwydd a hil, yn ogystal â mynediad i loches i'r rhai hynny sydd am geisio lloches. Fel Cenedl Noddfa, gall, ac mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddangos ein hymrwymiad.
- Ym mis Rhagfyr 2021, gadawsom ein swyddfeydd blaenorol yn Siambrau'r Farchnad, Caerdydd, i symud i gydweithio mewn lle llai o faint yn [Tramshed Tech](#), gan arbed tua £101,412 dros y tair blynedd. Drwy leihau maint, rydym hefyd wedi lleihau ein hól troed carbon gan ddefnyddio gofod llai, a llai o ddefnydd o ynni. Mae hefyd yn cynnig digon o le i storio beiciau i'm tîm sy'n galluogi teithio gwyddach i'r swyddfa sy'n fanteisiol i iechyd corfforol. Rydym hefyd yn agos iawn at yr orsaf drenau a'r prif lwybrau bysiau. Drwy sefydlu'r dulliau hyn o weithio, a'r Ddeddf, mewn adeilad aml-sefydliad sy'n canolbwyntio ar fusnesau newydd, rwy'n gallu ymgysylltu â busnesau newydd a'u helpu i groesawi'r Ddeddf wrth iddynt ddatblygu a thyfu. Mae'r adeilad yn eiddo i Gyngor Caerdydd ac mae'n cael ei brydlesu i grŵp Tramshed ac mae'r cyllid yn aros yng Nghymru, tra'r oedd ein landlordiaid blaenorol yn grŵp buddsoddi rhyngwladol wedi'i leoli yn Llundain. Mae gan Tramshed [Coaltown Coffee](#), ar y safle, corfforaeth ardystiedig B, sy'n cefnogi cymunedau ehangach yn ardal Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin





Yr hyn y byddaf yn ei wneud dros y 12 mis nesaf

2022/23 fydd fy mlwyddyn olaf fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae wedi bod yn anrhydedd ac yn fraint cael fy mhenodi i'r rôl saith mlynedd hon; y gyntaf yng Nghymru.

Fy nod pennaf yw sicrhau statws Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda chenedlaethau'r dyfodol yn meddwl a gweithredu yng Nghymru a ledled y byd, a sicrhau bod y Ddeddf wedi'i gwreiddio'n dda yng Nghymru. Byddaf yn gwneud hyn trwy:

Amlygu a gweithredu'r prif faterion polisi a heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol – yn arbennig yr adferiad yn dilyn COVID-19 yng Nghymru

Bydd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i gynnal fy ngwaith a bod yn sylfaen iddo. Mae'r argymhellion a wneir ym [Mhenod 2](#) yn arbennig o bwysig wrth i mi ymgymryd ag [Adolygiad Adran 20](#) o'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu'r Ddeddf. Gan weithio gyda Phrifysgol Caerdydd, rydym yn mabwysiadu ymagwedd 'amser byw' tuag at yr Adolygiad hwn i roi cyngor defnyddiol wrth symud ymlaen, yn hytrach na gadael y cyfan i adroddiad ar y diwedd. Cyhoeddir set derfynol o ganfyddiadau ym mis Tachwedd 2022.

Caffael, datgarboneiddio a chyllideb strategol Llywodraeth Cymru fydd meysydd pwysicaf fy ngwaith polisi, a byddwn yn parhau i hyrwyddo adferiad gwyrdd, cyfartal a chyfiawn yn dilyn COVID.

Bydd materion cyhoeddus (yn cynnwys gyda'r Senedd, Gweinidogion a chyrrff etholedig eraill) yn allweddol i helpu i ledaenu ein negeseuon, gwrandao a deall y cyd-destun gwleidyddol. Byddaf yn cadw llygad ar [Ymchwiliad annibynnol y DU i'r pandemig COVID](#).

Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Byddaf yn bwrw ymlaen â'r model newydd ar gyfer y modd yr ydym yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu'r Ddeddf. Mae pob un o'r 44 corff cyhoeddus eisiau rhyw fath o gymorth parhaus – strategol a gweithredol – manylion am y modd mae hyn yn cael ei ledaenu, a'r modd y byddaf yn ceisio gweithio'n agos gydag eraill yn y maes hwn megis [Archwilio Cymru](#), [Academi Cymru](#), [Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#) a Llywodraeth Cymru. Ym mis Mai, byddwn yn rhannu ein canfyddiadau ac yn cyd-greu'r camau nesaf gyda'r cyrff cyhoeddus a phartneriaid.

Yn 2022/23, mae gennyf ddyletswyddau statudol yn ymwneud â [Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus](#) (BGCau). Yn 2021/22, rhoddais gyngor unigol i'r asesiadau llesiant drafft. Yn awr mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi amcanion a chynlluniau llesiant. Rwy'n rhagweld y bydd pobl yn ymgynghori â mi rhwng Ebrill 2022 a Ionawr 2023. Rhaid i gyngor fod yn ysgrifenedig ac o fewn cyfnod o 14 wythnos. Byddaf yn bwrw ymlaen â'n dyletswyddau monitro ac asesu ar y cyd ag Archwilio Cymru.

Bod yn rhan o Fudiad dros Newid

Rhan bwysig o'r strategaeth i sicrhau sefyllfa'r Ddeddf yw bod yn rhan o fudiad dros newid sy'n cynnwys pob sector yng Nghymru a'r cyhoedd, ond sydd hefyd yn ymestyn ymhellach na Chymru. Mae hyn oherwydd bod angen i newid cenedlaethol fod yn draws-sectoraidd, lle mae ystod eang o sefydliadau a chymunedau'n cydweithio.

I wneud hyn, byddaf yn parhau i gynyddu fy mhroffil yn y cyfryngau, cyflawni'r gwaith creadigol, meithrin perthynas newydd gyda'r wasg a gwneuthurwyr newid y tu allan i'r swyddfa, a ffocysu ar sianeli cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Byddaf yn ffocysu ar droi geiriau ac adroddiadau yn ddelweddau a fideos cyffrous gan ddangos y newid sy'n digwydd trwy astudiaethau achos ac enghreifftiau da.

Byddwn yn magsimeiddio gallu cyn-fyfrwyr yr Academi Arweinyddiaeth a phobl ifanc ledled Cymru i hyrwyddo'r Ddeddf a dal arweinwyr presennol i gyfrif, gan gynnwys drwy ein gwaith gyda'r [Blwch Democratiaeth](#).

Byddaf yn parhau i weithio gyda thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth a chefnogi syniadau cenedlaethau'r dyfodol ar draws rhannau eraill o'r DU a'r Byd. Bydd hyn yn cynnwys canfod cyfleoedd i hyrwyddo cyfrifoldeb byd-eang Cymru a gweithio gydag arweinwyr ifanc a sefydliadau ieuencid i arddangos ymagwedd Cymru tuag at gynaliadwydd.

Gweithredu'r Geiriau – ysgwyddo'r newid yr ydym eisiau ei weld mewn eraill


Dros y chwe blynedd diwethaf, rwyf wedi sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer polisiâu blaengar a chefnogi llesiant staff mewn amgylchedd lle mae pethau'n symud yn gyflym. Mae adleoli fy swyddfa i [Tramshed Tech](#) yn rhoi cyfle i mi adolygu ac ailfywiogi polisiâu mewnol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu arferion cyfredol, nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi dyddio ac yn gwneud y mwyaf o fy nghyfraniad i fy hunan i'r nodau llesiant.

Bydd fy ffocws arfaethedig ar gyfer 2022-23 yn cynnwys::

- Parhau i flaenoriaethu amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth – cynyddu ein gallu mewnol yn y maes hwn fel rhan o'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.
- Ystyried addewid symudedd cymdeithasol.
- Adolygiad partner elusen.
- Ymgysylltu cymunedol sy'n gysylltiedig â'n cartref newydd yn Grangetown/Glan yr Afon.
- Cynyddu'r defnydd o gydgynghyrchu fel ymagwedd yn fy ngwaith.
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ein rhyngweithio mewnol ac allanol, gan gynnwys cefnogaeth ychwanegol i staff sydd eisiau dysgu Cymraeg.
- Blaenoriaethu cynhwysiant digidol a llesiant yn ein byd hybrid newydd.
- Mesur ein hól troed ein hunain – archwilio lwfansau Carbon Personol.
- Rhannu'r ffyrdd o weithio yr ydym fwyaf balch ohonynt fel y gall eraill eu dilyn. Mae hyn yn cysylltu â'n gwaith ar gefnogi cyrff cyhoeddus i ysgogi newid.

Dadlau dros gael adnoddau digonol ar gyfer fy swyddfa

Mae cyrff cyhoeddus wedi nodi bod angen mwy o gymorth arnynt i roi'r Ddeddf ar waith, gan gynnwys gan fy swyddfa. Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd a chyrrff cyhoeddus wedi cydnabod nad oes gan y Comisiynydd ddigon o adnoddau ac nid yw lefelau presennol y gyllideb wedi fy ngalluogi i ddarparu'r lefel o gymorth y mae cyrff cyhoeddus ei eisiau a'i angen. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cydnabod lefel enfawr y galw a'r pwysau sydd ar fy Swyddfa ac wedi datgan eu parodrwydd i weithio gyda fy swyddfa i unioni hyn, ac edrychaf ymlaen at ddatrysiaid cyn i'r Comisiynydd nesaf gychwyn yn ei swydd.



Ydych chi eisiau ymgyfrannu?

Byddwn i wrth fy modd yn clywed gan, a gweithio gyda grwpiau ac unigolion a ganddynt fewnwelediad, arbenigedd, syniadau, pryderon neu brofiad bywyd ar unrhyw un o'r materion uchod.

Cysylltwch drwy ebost, Trydar, llythyr, ffôn neu drwy gyfrwng cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru.

Os hoffech wybod mwy ewch i'm gwefan neu cofrestrwch ar gyfer fy nghylchlythyr rheolaidd.

Adroddiad Atebolrwydd

Adroddiad Atebolrwydd 2021-22

Yn yr adran hon, cyflwynaf adroddiad ar ofynion atebolrwydd allweddol i Weinidogion Cymru yn debyg i adroddiad Cyfarwyddwyr a baratoir gan gwmni preifat.

Mae'r gofynion adrodd hyn wedi'u haddasu i gyd-fynd â chyd-destun y sector cyhoeddus. Mae fy adroddiad atebolrwydd yn cynnwys adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ac Adroddiad Tâl a Staff. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am adolygu fy adroddiad atebolrwydd i sicrhau cysondeb â gwybodaeth arall yn fy natganiadau ariannol a rhoi barn ar y datgeliadau a ganlyn yn yr adroddiad hwn:

- Rheoleidd-dra incwm a gwariant
- Datgeliadau ar atebolrwydd seneddol
- Cydnabyddiaeth a datgeliadau CETV i mi ac aelodau o'm huwch dîm rheoli
- Taliadau i gyn-Gyfarwyddwyr, os yn berthnasol
- Taliadau am golli swydd, os yn berthnasol
- Pecynnau ymadael, os yn berthnasol
- Datgeliadau cyflog teg
- Dadansoddiad o niferoedd a chostau staff

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae gwybodaeth am fy strwythur llywodraethu a phwy sy'n gyfrifol am yr hyn sy'n digwydd yn fy Swyddfa ac sy'n dylanwadu arno wedi'i nodi ar [fy ngwefan](#) ac yn fy Natganiad Llywodraethu isod. Mae hefyd yn ofynnol i mi ddatgelu unrhyw fuddiannau sylweddol a allai wrthdaro â'n cyfrifoldebau rheoli sydd gennyf i a'm bwrdd rheoli. Rwyf wedi penderfynu cynnwys y wybodaeth hon ar gyfer holl aelodau fy Uwch Dîm Rheoli estynedig (UDRh). Mae cofrestr gryno o ddiddordebau i mi a'r UDRh ar gael i'w gweld yma. Rheolwyd unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a gododd yn ystod y flwyddyn yn unol â'm [polisi gwrthdaro buddiannau](#).

Fformat y Cyfrifon

Mae fy natganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Pharagraff 20 i Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Daeth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i fodolaeth ar 1 Chwefror 2016 gyda fy mhenodi'n Gomisiynydd cyntaf. Mae'r cyfrifon hyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 ac yn adlewyrchu alldro asedau, rhwymedigaethau ac adnoddau fy Swyddfa. Mae'r datganiadau ariannol sy'n dilyn yr adroddiad hwn wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Ariannu

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ond yn cael ei hariannu ganddi. Yn 2021-22, derbyniwyd £1.802 miliwn i ariannu gweithgareddau. Gyda chytundeb y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, roedd hyn yn cynnwys £210k yn ychwanegol at y dyraniad gwreiddiol o £1,592k i alluogi'r Comisiynydd i gario drosodd i 2022-23 lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy nad oedd yn fwy na £300,000. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn aros am drafodaethau pellach ar lefel briodol o gyllid yn y dyfodol. Y cyllid cymorth grant ar gyfer 2020-21 oedd £1.509 miliwn. Derbyniais incwm hefyd yn bennaf o weithgarwch partneriaeth i ariannu Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, prosiectau ymchwil cydweithredol, a honorariwm am siarad mewn digwyddiadau rhyngwladol. Ceir manylion llawn yn Nodyn 8 i'm Datganiadau Ariannol.

Canlyniadau am y cyfnod

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn dangos gwariant o £1.857 miliwn (£1.382 miliwn ar gyfer 2020-21) am y flwyddyn, a bu gostyngiad ym malans y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn i £329,000 (£384,000 ar 31.3.21) Y gyllideb Adnoddau a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer 2021-22 oedd £1,902k yn cynnwys £1,592k o linell sylfaen ynghyd â threiglo drosodd o danwariant y flwyddyn flaenorol o £310k Yr alldro ar gyfer y flwyddyn oedd £1,860k yn cynnwys y gwariant refeniw net o £1,857k a gwariant cyfalaf o £3k, felly roedd tanwariant yn erbyn y gyllideb o £42k.

Cwynion

Mae fy Swyddfa wedi derbyn dwy gŵyn eleni.

Roedd un yn ymwneud â chyhoeddi fy adroddiad blynnyddol ar gyfer 2020/21 a'r ffaith iddo gael ei gyhoeddi yn Saesneg yn unig yn gyntaf ar wefan y Senedd, ac yna'r fersiwn Gymraeg yn ddiweddarach. Nid oedd y gŵyn yn dderbyniadwy gan fod hyn y tu allan i'n rheolaeth. Mae Archwilio Cymru yn gosod ein cyfrifon gerbron y Senedd. Roeddem wedi codi'r mater gyda nhw ac wedi gofyn a ellid cyhoeddi'r ddwy fersiwn ar yr un pryd. Buom yn trafod y gŵyn hon ag Archwilio Cymru ar y pryd, ac eleni (2021/22) rydym yn falch iawn bod Archwilio Cymru wedi derbyn i osod y ddwy fersiwn o'r adroddiadau gyda'i gilydd erbyn hyn.

Codwyd cwyn arall ar ôl i un o'n gweithwyr gamsillafu enw rhywun ar ddau achlysur. Adolygodd ac ymchwiliodd ein Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol i'r gŵyn a derbyniodd ein bod yn methu â chyrraedd ein safonau cyfathrebu disgwylidig ar yr achlysuron hyn. Ysgrifennodd ein gweithiwr yn ôl i egluro'r rheswm y tu ôl i'r gwallau ac ymddiheuro. Derbyniwyd yr ymddiheuriad hwn a chaewyd y gŵyn.

Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac mae fy nhim wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd unrhyw dâl i'm harchwilwyr am waith nad yw'n waith archwilio.

Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu

O dan Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratwir y cyfrifon ar sail cronïadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac o'i incwm a'i wariant, ei Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i:

- Gadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiâu cyfrifyddu addas yn gyson.
- Wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- Ddatgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- Baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw
- Gadarnhau bod yr adroddiad blynnyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynnyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swydd yn rhinwedd paragraff 18 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus ar gyfer y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
13 Gorffennaf 2022

Dataniad Llywodraethu Blynyddol

Diben

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal llywodraethu effeithiol a system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad fy mholisiau, nodau ac amcanion, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt.

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn dilyn Canllawiau Trysorlys EM. Mae'n nodi'r strwythurau llywodraethu ar gyfer fy swyddfa, a'r gweithdrefnau rheolaeth fewnol a rheoli risg sydd wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Mae'r systemau sydd ar waith fel yr amlinellir yn y datganiad hwn wedi'u cynllunio i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion. Felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi. O ystyried natur arloesol gwaith fy swyddfa, deuthum i'r casgliad bod angen mabwysiadu archwaeth risg "blysiog" ar gyfer llawer o'm gwaith sy'n edrych tuag allan gan na fyddai dull minimalaidd neu ofalus mwy traddodiadol, yn fy marn i, yn llwyddo. wrth sicrhau'r newid buddiol y sefydlwyd fy swyddfa i'w gyflawni. Esbonnir hyn ymhellach isod.

Natur fy swyddfa ac atebolrwydd

Sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel corfforaeth undyn. Mae hyn yn golygu bod yr holl swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau) wedi'u breinio i ddeiliad y swydd ac nid oes "bwrdd" traddodiadol sy'n gorfforaethol gyfrifol am berfformiad a llywodraethu'r sefydliad. Rwy'n annibynnol ar Weinidogion ac yn ddarostyngedig i Ddeddf 2015, yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol fy swyddfa. Rwy'n atebol i Senedd Cymru am weithredoedd fy swyddfa, ac i'w Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn benodol am faterion megis y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.



Panel cynghori

Sefydlodd Deddf 2015 banel i roi cyngor i mi ar arfer fy swyddogaethau. O fewn y cyfnod adrodd, aelodau'r panel cynghori oedd:

(a) Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru

(b) Aled Roberts

Comisiynydd y Gymraeg

(*hyd ei farwolaeth drist ym mis Chwefror 2022*)

(c) Heléna Herklots CBE

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

(ch) Dr Frank Atherton

Prif Swyddog Meddygol Cymru

(d) Syr David Henshaw

Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru

(dd) Shavanah Taj

yn cynrychioli TUC Cymru

(e) Andy Jones

Prif Weithredwr Awdurdod Porthladd

Aberdaugleddau yn cynrychioli pobl sy'n cynnal busnes yng Nghymru

(f) Ruth Marks

Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (sy'n dod o dan 'unrhyw berson arall a benodir gan Weinidogion Cymru').

(ff) Rhian Davies

sy'n cynrychioli Anabledd Cymru (sy'n dod o dan 'y cyfryw berson arall a benodir gan Weinidogion Cymru').

(g) Davinia Louise Green

sy'n cynrychioli Stonewall Cymru (sy'n dod o dan 'y cyfryw berson arall a benodir gan Weinidogion Cymru').

(ngh) Rocio Cifuentes

sy'n cynrychioli'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Phobl Ifanc (sy'n dod o dan 'unrhyw berson arall a benodir gan Weinidogion Cymru').

Mae'r Panel yn cyfarfod bob chwe mis. Eleni fe wnaethant gyfarfod ar 8fed Mehefin a 16eg Tachwedd 2021. Tynnais ar brofiad aelodau unigol i lywio rhaglen waith fy sefydliad a chynghori ar fy swyddogaethau statudol drwy gydol y flwyddyn.

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Rwyf wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (PAR) i roi cyngor adeiladol a her ar faterion llywodraethu, rheolaeth ariannol ac archwilio, a'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol – gan gynnwys nodi a rheoli risg. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys:

- **Alan Morris**, Archwilydd wedi ymddeol a hyrwyddwr datblygu cynaliadwy ymroddedig sy'n cadeirio'r Pwyllgor.
- **Jocelyn Davies**, aelod o Banel Cynghori'r Comisiynydd Plant a Chadeirydd ARAC; aelod anweithredol o Fwrdd Awdurdod Cyllid Cymru a chadeirydd ARAC; aelod o Blaid Cymru; aelod o Banel Aelodaeth, Safonau a Disgyblu Plaid Cymru; Cadeirydd Pwyllgor Archwilio, Risg a Chydymffurfiaeth Plaid Cymru; llysgennad Cymorth i Ferched Cymru.
- **John Dwight**, Archwiliwr wedi ymddeol, ymddiriedolwr a thrysorydd mygedol o City Hospice Caerdydd ac aelod o Weithrediaeth Cangen CIPFA Cymru-Wales.
- **Gareth Madge**, cyn Brif Swyddog a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol gyda Heddlu De Cymru, is-gadeirydd Bwrdd Treftadaeth Heddlu De Cymru, ymddiriedolwr Capel Bedyddwyr Calfaria.
- **Jonathan Morgan**, ymddiriedolwr Cymdeithas Gymunedol yr Eglwys Newydd, unig berchennog a chyfarwyddwr Insight Wales Consulting Ltd., a gyflogir gan Practice Solutions Ltd i reoli Uned Fusnes Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.
- **Fran Targett OBE**, Is-Gadeirydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Cadeirydd annibynnol Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac aelod o Gomisiwn Bevan, yn cynghori Gweinidogion Cymru ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae pob un yn annibynnol ac nid ydynt yn gweithio i'r Comisiynydd mewn unrhyw swyddogaeth weithredol.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi darparu adroddiad blynyddol i mi ac ynddo mae'n dod i'r casgliad "O ganlyniad i'w waith yn ystod y flwyddyn a chanfyddiadau'r archwiliad mewnol ac allanol, gall y Pwyllgor roi sicrwydd i'r Comisiynydd bod y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol ac mae'r trefniadau rheoli risg sydd ar waith yn briodol ac wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22."

Fframwaith llywodraethu

Mae fy strwythur llywodraethu corfforaethol wedi newid yn eithaf sylweddol o ganlyniad i bandemig COVID-19 a gweithio gartref yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf:

- Mae gennym ddau archwiliad tîm cyfan yr wyf yn eu cadeirio ddydd Llun a dydd Iau i wella cyfathrebu mewnol, rheoli prosiectau ac i ofalu am lesiant staff.
- Rydym wedi parhau â'n strwythur Codwr Hwyl lle mae uwch aelodau o staff yn cysylltu'n wythnosol â chydweithwyr a neilltuwyd i wirio eu llesiant a'u datblygiad personol, mewn ymateb i'r pandemig a'r risg gynyddol i lesiant staff ddirywio. Mae hyn yn sicrhau bod pawb wedi cynyddu gofal bugeiliol a chymorth un i un yn rheolaidd.
- Mae effeithiolrwydd yr UDRh wedi gwella drwy ychwanegu cyfarfodydd 'tîm cyn-reoli' bob pythefnos. Mae'r rhain wedi monitro cynnydd gyda'r gwaith yn gyffredinol ac wedi hwyluso gweithrediadau ar draws y sefydliad, gan gynnwys nodi materion a pharatoi adroddiadau i'w hystyried a phenderfyniadau a wneir yn yr UDRh.
- Neilltuwyd aelodau ARAC i brosiectau strategol allweddol fel 'cyfaill beirniadol' i ddod â'u her annibynnol a'u sylwadau i'r gymysgedd yn fwy amserol. Mae'r trefniant hwn wedi bod yn llwyddiannus a hefyd wedi helpu'r Pwyllgor i gael gwell dealltwriaeth ar y cyd o waith fy Swyddfa. Mae wedi cael ei fabwysiadu yn barhaus.
- Mae fy ARAC yn cyfarfod bob chwarter. Mae fy Arwr Corfforaethol wedi cymryd y rôl o gynllunio a chefnogi eu gwaith, sydd wedi gwella amseroldeb ac ansawdd y cyfathrebu rhwng fy nhîm ac anghenion y Pwyllgor. Eleni, fe wnaethant gyfarfod ar 19 Ebrill 2021, 5 Gorffennaf, 15 Tachwedd a 25 Ionawr 2022.
- Yn dilyn ymadawiad fy Nghyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu ym mis Mehefin 2021, penderfynais beidio â chael cyfarwyddwyr mwyach. Daeth fy Nghyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi yn Brif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd i mi yn dilyn y model a osodwyd gan y Comisiynydd Pobl Hŷn. Croesewais hefyd ar fy UDRh, fy Arweinydd Creu Newid Pobl a Diwylliant newydd.

■ Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; Marie Brousseau-Navarro – Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd; Heledd Morgan – Arweinydd Ysgogi Newid; Jacob Ellis – Arweinydd Ysgogi Newid; Louisa Neale – Ysgogydd Arweiniol; Helen Nelson – Arwr Corfforaethol; a Susan Crutcher – Pensaer Datrysiadau (Cofnodion).

Rwy'n parhau i wneud penderfyniadau allweddol ar ôl trafodaeth gyda'r UDRh ac aelodau'r tîm ehangach. Rwyf hefyd wedi dirprwyo awdurdod i rai staff i fynd i wariant ariannol ar fy rhan. Mae gan Ddirprwy Gomisiynydd, Arwr Corfforaethol, Prif Ysgogwr Newid Pobl a Diwylliant, Pensaer Datrysiadau a Swyddog Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol derfynau amrywiol o ran awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i wariant, yn dibynnu ar eu rolau a'r tasgau y maent yn eu cyflawni. Yn ogystal â hyn, mae gan rai aelodau awdurdod dirprwyedig i adolygu ac awdurdodi taliadau am anfonebau cyflenwyr; y rhain yw Ysgogwyr Newid, Artistiaid Cynnwys ac aelodau staff sy'n delio â'r cyfryngau a chyfathrebu.

Mae Archwilio Mewnol wedi bod yn ei le trwy gydol y flwyddyn ac wedi cyflawni rhaglen waith lawn ac mae'r Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd wedi bod yn gwbl weithredol.

Mae fy Nghynllun Strategol, a gyhoeddais yn 2017, yn nodi'r hyn yr wyf yn gobeithio ei gyflawni o ran newid buddiol i bobl Cymru a sut yr wyf yn bwriadu mynd ati i'w wneud ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'n ddogfen uchelgeisiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus herio'r ffyrdd y maent yn gweithio ac addasu arferion hirsefydlog i gyflawni'r hyn a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru pan benderfynodd gyflwyno'r hyn sydd bellach yn Ddeddf 2015. Gan adeiladu ar fy Nghynllun Strategol, bob blwyddyn, rwy'n paratoi Map Ffordd blynnyddol (fy nghynllun corfforaethol) sy'n nodi rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae hyn yn ddeinamig ac yn cael ei adolygu drwy gydol y flwyddyn a'i addasu yn ôl yr angen mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Mae aelodau fy nhîm yn cwblhau 'Mapiau Ffyrdd Personol' unigol i fanylu ar eu cyfraniad eu hunain i'r gwaith a dyheadau datblygiad proffesiynol.

Dull o drin rheoli risg

Mae fy ymagwedd at reoli risg yn gyson â'm Cynllun Strategol ac yn unol â Deddf 2015 a'r hyn y bwriedir ei gyflawni. Mae fy mholisi rheoli risg, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn ei gwneud yn glir fy mod am greu a chynnal amgylchedd a fydd yn caniatáu i reolaeth effeithiol o risg ffynnu. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod staff yn cael gwybod am ein cynlluniau a'r ffordd y byddaf i a pherchnogion risg yn mynd ati i reoli'r risgiau cysylltiedig.

Mae'r polisi'n ei gwneud yn glir nad wyf yn amharod i gymryd risgiau. I'r gwrthwyneb, er mwyn cyflawni'r amcanion yn fy nghynllun strategol a chyflawni'r hyn a ddisgwylir yn aml bydd angen ymagwedd risg agored neu flysiog nad yw'n arferol i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus eraill. Rwyf wedi dod i'r casgliad mai mabwysiadu dull o'r fath ar gyfer fy ngwaith sy'n edrych tuag allan gyda chyrff cyhoeddus eraill yw'r unig ffordd realistig o sicrhau'r newid sydd ei angen ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gallai gwneud fel arall olygu methu â manteisio ar gyfleoedd pan fyddant yn codi a bydd risg uchel o fethu â chyflawni'r amcanion heriol yr wyf wedi'u gosod yn y cynllun strategol a'r hyn a ddisgwylir gennyf gan fy rhanddeiliaid. Yn yr un modd, rwyf wedi penderfynu bod angen i'm sefydliad 'fyw pregeth' y Ddeddf a bod yn agored ac arloesol a rhoi cynnig ar ddulliau newydd o weithio. Fodd bynnag, nid yw risgiau o'r fath yn cael eu cymryd yn fyrbwyll ond yn cael eu rheoli'n briodol, eu hadolygu'n rheolaidd ac yn ofalus gyda'r nod o sicrhau'r cyflawniad mwyaf llwyddiannus.

Rwyf wedi mabwysiadu ymagwedd fwy traddodiadol a gofalus at fy mhrosesau mewnol sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a diogelwch gwybodaeth.

Nododd fy nghofrestr risg strategol risgiau priodol yn ymwneud â'm dyletswyddau statudol a'r rôl y bydd fy sefydliad yn ei chwarae wrth helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni nodau'r Ddeddf. Mae camau i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn parhau i gael eu hymgorffori yn fy ngweithrediadau.

Yn ystod 2021-22, rwyf wedi dechrau adolygu fy nghofrestr risg strategol a'r wybodaeth sydd i'w rhoi i'n ARAC fel ei bod yn haws ei defnyddio a'i chyfathrebu. Cytunwyd ar wyth risg strategol newydd. Bydd y gofrestr risg strategol newydd, a'r trefniadau adrodd yn cael eu cwblhau a'u cymeradwyo gan fy ARAC yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Archwiliad mewnol

Mae gwaith archwilio mewnol yn un o'r sicrwydd allweddol sydd ei angen arnaf fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae TIAA yn gweithredu fel fy archwilwyr mewnol ac maent wedi cynhyrchu'r adroddiadau canlynol yn ystod y flwyddyn:

Cynhaliwyd chwe archwiliad mewnol yn 2021-22 ar:

- Llywodraethu Corfforaethol – Rheolaeth Strategol
- Rheolaethau Ariannol Allweddol
- Rheoli Risg
- Caffael
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Dilynant

O'r chwe adolygiad, cynlluniwyd pump i ganfod i ba raddau y mae'r rheolaethau mewnol yn y system yn ddigonol i sicrhau bod gweithgareddau a gweithdrefnau'n gweithredu i gyflawni amcanion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Casgliad cyffredinol TIAA ar gyfer 2021-22 yw bod gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn.

Gwarantu Gwybodaeth

Mae fframwaith llywodraethiant gwybodaeth ar waith gyda chasgliad o bolisiâu sylfaen sy'n nodi trefniadau diogelwch ac egwyddorion llywodraethiant gwybodaeth da ynghyd â'r cyfrifoldebau a'r ymddygiadau rwy'n eu disgwyl gan bawb sy'n gweithio i mi.

Ni chafwyd unrhyw doriadau data yn ystod y flwyddyn. Ni adroddwyd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol yn ystod y cyfnod.

Crynodeb o effeithiolrwydd

O'r sicrwydd a ddarparwyd gan fy nhîm, fy ngwybodaeth am waith fy swyddfa, a'r adroddiadau a ddarparwyd gan archwiliadau mewnol ac allanol, gallaf adrodd nad oedd y system reoli fewnol fu ar waith yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cynnwys unrhyw wendidau sylweddol.

Edrych ymlaen

Ar gyfer 2021-22, byddaf yn monitro, yn cynnal ac yn gwella'r trefniadau llywodraethiant a rheolaeth fewnol i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu fy anghenion gwarantu ac yn cyd-fynd â gweithle modern, ystwyth. Ble bo angen, byddaf yn parhau i ddiweddarau strwythur fy nhîm i sicrhau fod gennyf y trefniadau mwyaf effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r ystod eang o swyddogaethau.

Fel y mwyafrif o sefydliadau, bu i bandemig COVID fwrw cysgod dwfn dros waith fy Swyddfa yn ystod y flwyddyn. Bu'n rhaid i mi addasu fy arferion gwaith, ond ni effeithiwyd yn sylweddol ar ein gwaith, o ystyried ein dull o gynllunio tymor hir ar gyfer trefniadau gweithio sy'n cynnwys arferion gweithio di-bapur, hyblyg ac o bell. Wrth symud ymlaen, byddaf yn ystyried anghenion ôl-COVID fy swyddfa a chyrff cyhoeddus i weld sut y gallaf ddylanwadu orau ar adfer Cymru ac ailadeiladu ein cymdeithas a gwella llesiant ar gyfer fy nhîm ac ar gyfer poblogaeth Cymru.

Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
13 Gorffennaf 2022

Adroddiad Taliadau a Staff

Mae'r rhan hon o'm hadroddiad Atebolrwydd yn rhoi gwybodaeth am fy mholisi tâl i mi a'm Uwch Dîm Rheoli.

Cefais fy mhenodi ar 1 Chwefror 2016. Gan symud i strwythur mwy gwastad ar gyfer fy swyddfa, sydd bellach heb gyfarwyddwyr ond gyda Phrif Swyddog Gweithredu, mae fy UDRh bellach yn cynnwys 7 aelod o fy nhîm. Mae cynnwys yn ffordd bwysig o weithio ac roeddwn i eisiau i'm tîm deimlo'n rhan o'm penderfyniadau. Mae fy UDRh yn cynnwys fy hun, Marie Brousseau-Navarro – Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd; Heledd Morgan – Arweinydd Ysgogi Newid; Jacob Ellis – Arweinydd Ysgogi Newid; Louisa Neale – Ysgogydd Arweiniol; Helen Nelson – Arwr Corfforaethol; a Susan Crutcher – Pensaer Datrysiaidau (Cofnodion).

Mae Gweinidogion Cymru yn pennu tâl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn unol ag Atodlen 2 paragraff 5 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015..

Mae'r adrannau a ganlyn, sydd wedi bod yn destun archwiliad, yn rhoi manylion tâl a buddion pensiwn y swyddogion uwch yn fy swyddfa:

Nifer a dadansoddiad o gostau Staff Uwch fesul Band (archwiliedig)

	Cyflog £000		Buddion mewn Nwyddau (i'r £100 agosaf)		Lwfans Gweithio Gartref (i'r £100 agosaf)		Buddiannau Pensiwn (i'r £1000 agosaf)		Cyfanswm o £000	
	1.4.21 to 31.3.22	1.4.20 to 31.3.21	1.4.21 to 31.3.22	1.4.20 to 31.3.21	1.4.21 to 31.3.22	1.4.20 to 31.3.21	1.4.21 to 31.3.22	1.4.20 to 31.3.21	1.4.21 to 31.3.22	1.4.20 to 31.3.21
Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Llawn amser	90-95	90-95	0	5	3	3	37	36	125-130	125-130
Marie Brousseau-Navarro - Prif Swyddog Gweithredu. Llawn amser o 15 Ebrill 2022 (o ran amser 0.8 FTE)	60-65 (FTE 60-65)	45-50 (FTE 60-65)	4	2	3	1	21	21	80-85	65-70
Helen Verity – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu. Rhan amser 0.6 FTE. Daeth cyflogaeth i ben ar 14 Mehefin 2021	5-10 (FTE 60-65)	40-45 (FTE 60-65)	2	5	1	3	-3	23	0-5	60-65
Louisa Neale – Ysgogydd Arweiniol. Llawn amser. Dechreuodd cyflogaeth ar 20 Medi 2021	25-30 (FTE 50-55)	0	1	0	2	0	12	0	35-40	0
Heledd Morgan - Arweinydd Ysgogi Newid. Llawn amser	50-55	50-55	2	2	3	3	22	21	70-75	70-75

	Cyflog £000		Buddion mewn Nwyddau (i'r £100 agosaf)		Lwfans Gweithio Gartref (i'r £100 agosaf)		Buddiannau Pensiwn (i'r £1000 agosaf)		Cyfanswm o £000	
	1.4.21 to 31.3.22	1.4.20 to 31.3.21	1.4.21 to 31.3.22	1.4.20 to 31.3.21	1.4.21 to 31.3.22	1.4.20 to 31.3.21	1.4.21 to 31.3.22	1.4.20 to 31.3.21	1.4.21 to 31.3.22	1.4.20 to 31.3.21
Jacob Ellis - Arweinydd Ysgogi Newid. Llawn amser	50-55	50-55	2	5	3	3	21	21	70-75	70-75
Cathy Madge - Arweinydd Ysgogi Newid. Rhan amser 0.65 FTE. Daeth cyflogaeth i ben ar 2 Gorffennaf 2021	10-15 (FTE 50-55)	35-40 (FTE 50-55)	1	3	1	3	3	20	10-15	55-60
Helen Nelson - Cynllunydd Corfforaethol. Llawn amser	50-55	45-50	2	7	3	3	20	20	70-75	65-70
Susan Crutcher - Pensaer Datrysiaid. Llawn amser	35-40	35-40	6	3	3	3	16	15	50-55	50-55
Rebecca Brown - Cynllunydd Cyfathrebu. Llawn amser. Daeth cyflogaeth i ben ar 11 Ionawr 2021	0	20-25	0	2	0	2	0	10	0	30-35

Buddion mewn Nwyddau

Mae'r rhain yn ymwneud â 4 math gwahanol o daliad:

- Anrhegion Llesiant: mae cyflogau'r bobl sy'n ennill mwy na £40,000 y flwyddyn yn cael eu brigdorri'n wirfoddol a'u talu i mewn i Botyn Llesiant. Yn ystod y cyfnod o 12 mis hyd at 31 Hydref 2021, gallai gweithwyr hawlio hyd at £175 tuag at gostau aelodaeth o glwb, gweithgaredd, triniaeth iechyd neu offer i gefnogi'r gweithgaredd. Estynnwyd hyn am 4 mis (Tachwedd 2021 – Mawrth 2022) a gallai gweithwyr unigol hawlio uchafswm o £31.
- Lwfans Celfi Swyddfa yn y Cartref: ad-daliad o gost celfi ac offer swyddfa gartref hyd at £500 y gweithiwr. Mae hwn yn fudd mewn nwyddau di-dreth a gynlluniwyd i gefnogi iechyd a diogelwch a llesiant gweithwyr tra bod angen parhaus i'r swyddfa aros ar gau oherwydd pandemig Covid-19 a daeth i ben ar 31 Mawrth 2022.
- Taliad Gweithio Gartref: yn ystod y cyfnod adrodd, mae gweithwyr yn gweithio gartref ac mae pob gweithiwr yn derbyn £26 y mis i dalu am gostau ychwanegol y cartref. Daeth y taliad hwn i ben ar 31 Mawrth 2022 a gall unigolion hawlio'n uniongyrchol drwy CThEM.
- Budd Bychan y Swyddfa: rhoddion llesiant bach a anfonir yn achlysurol i weithwyr cyflogedig. Darperir y budd di-dreth hwn mewn nwyddau (o dan £50 y gweithiwr y flwyddyn) i wella llesiant gweithwyr. Cyn pandemig Covid-19, roedd gweithwyr unigol yn arfer rhoi rhoddion bach yn wirfoddol ac yn ddienw. Bu i hyn barhau ar ffurf buddion bychan ers cau'r swyddfa.

Buddion Pensiwn - Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (archwiliwyd)

	Cyfanswm y pensiwn a grynhowyd	Cynnydd gwirioneddol y pensiwn	CETV ar 31.3.22	CETV ar 31.3.21	Cynnydd / (lleihad) gwirioneddol mewn CETV
	£000	£000	£000	£000	£000
Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, o 1 Chwefror 2016.	10 - 15	0 - 2.5	140	114	15
Marie Brousseau-Navarro - Prif Swyddog Gweithredu. Llawn amser	5 - 10	0 - 2.5	74	56	7
Helen Verity – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu. Daeth cyflogaeth i ben ar 14 Mehefin 2021	15 - 20 plus a lump sum of 30 - 35	0 plus a lump sum of 0	287	278	-4
Louisa Neale – Ysgogydd Arweiniol Newid Pobl a Diwylliant, o 20 Medi 2021	0 - 5	0 - 2.5	6	-	5
Heledd Morgan - Arweinydd Ysgogi Newid. Llawn amser	5 - 10	0 - 2.5	41	30	7
Jacob Ellis - Arweinydd Ysgogi Newid. Llawn amser	0 - 5	0 - 2.5	33	23	6
Cathy Madge - Arweinydd Ysgogi Newid. Rhan amser 0.65 FTE. Daeth cyflogaeth i ben ar 2 Gorffennaf 2021	10 - 15	0 - 2.5	138	137	1
Helen Nelson - Cynllunydd Corfforaethol. Llawn amser	5 - 10	0 - 2.5	73	58	11
Susan Crutcher - Pensaer Datrysiaid. Llawn amser	0 - 5	0 - 2.5	50	40	8
Rebecca Brown - Cynllunydd Cyfathrebu. Llawn amser. Daeth cyflogaeth i ben ar 11 Ionawr 2021	-	-	-	20	-

Cynllun Pensiwn

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa ar gyfartaledd gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd yr holl weision

sifil newydd eu penodi a mwyafrif y rhai sydd eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair rhan i'r PCSPS: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol plws) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.



Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, gyda chost y buddion yn cael ei dalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan clasurol, premiwm, clasurol plws, nuvos ac alpha yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Mae'r rhai a oedd rhwng 10 a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y bydd aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod [CETV] a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae pob aelod sy'n newid i alpha yn cael 'bancio' eu buddion PCSPS, gyda'r rheini â budd-daliadau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel sy'n briodol. Ble mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad diffiniedig (prynu arian) gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau clasurol, premiwm, clasurol plws, nuvos ac alpha. Mae buddion clasurol yn cronni ar gyfradd 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol o dair blynedd yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer premiwm, mae buddion yn cronni ar gyfradd 1/60ain o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae clasurol plws yn ei hanfod yn hybrid gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrif yn fras yn unol â'r clasurol a'r buddion am wasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrif fel yn premiwm. Yn nuvos bydd aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n

aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn enilledig yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno a'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Bydd buddion alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio'r gyfradd gronni o 2.32%. Ymhob achos gall aelodau ddewis ildio pensiwn (cymudo) am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniadau a ddiffinnir yn ôl galwedigaeth sy'n rhan o Legal & General Mastertrust. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o'u cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd-dal risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros oed. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau clasurol, premiwm a clasurol plws, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd mewn PCSPS neu alpha – fel sy'n briodol. Pan fo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedranau.)

Gellir dod o hyd i fanylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfystyr ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth cyfalafol a aseswyd yn actiwaiaidd o fuddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu drefniant pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm aelodaeth y cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swyddogaeth uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Mae CETVs yn cael eu cyfrif yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fudd-daliadau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a grynhowyd o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau priso'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Adrodd ar Gynlluniau Gwasanaeth Sifil ac lawndal eraill – Pecynnau Gadael (archwiliwyd)

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd unrhyw iawndal i unrhyw aelod o staff.

Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr

(archwiliwyd)

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-gyfarwyddwyr (nil 2020-21).

Datgeliadau Cyflog Teg (archwiliwyd)

	2021-22	2020-21
Band o dâl yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf (£000)	90-95	90-95
Newidiadau canrannol yng nghydnabyddiaeth ariannol yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf	1.0%	1.5%
Newidiadau canrannol cyfartalog yn nhâl gweithwyr yr endid yn ei gyfanrwydd	-2.9%	-2.1%
Cymhareb cyflog 25ain canradd	3.53:1 (£26,173)	3.60:1 (£25,660)
Cymhareb cyflog 50fed canradd	2.79:1 (£33,176)	2.55:1 (£36,927)
Cymhareb cyflog 75 canradd	2.08:1 (£44,464)	2.05:1 (£45,125)
Canolrif (£)	33,176	36,927
Ystod tâl staff: uchaf (£)	64,998	64,354
Ystod tâl staff: isaf (£)	21,300	18,015

Y mae gofyn i mi ddatgelu'r berthynas rhwng tâl yr unigolyn a delir fwyaf a chyflog canolrifol cyflogeion. Nid yw hyn yn cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiwn sy'n cyfateb i arian parod. Mae newid bychan yn y pwynt canolrifol a'r gymhareb yn 2021-22 yn adlewyrchu newidiadau staffio bychan yn fy sefydliad.

Bwlch Tâl ar sail Rhywedd (and yw'n agored i'w archwilio)

Mae dadansoddiad cyflog rhyw yn nod pwysig wrth i ni fudo i gyfeiriad Cymru sy'n Fwy Cyfartal.

Ar gyfer 2021-22, rwy'n dewis adrodd eto ar y sefyllfa cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer pobl sy'n gweithio yn fy nhîm. Mae'r tabl cyntaf isod yn dangos y canolrif a'r gyfradd gyfartalog fesul awr ar gyfer y rhai yn fy nhîm y mae gennyf reolaeth uniongyrchol dros eu cyfraddau tâl. Mae'r ail dabl yn dangos y gyfradd ganolrifol a chymedrig fesul awr pan fydd aelodau tîm o sefydliadau partner yn cael eu cynnwys.

Bwlch cyflog rhyw: rhai a gyflogir yn uniongyrchol yn unig	2021-22		2020-21	
	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw
Cyfanswm canolrifol (£)	17.24	17.24	16.90	22.28
Cyfanswm cymedrig (£)	19.98	20.38	18.41	20.50
Bwlch cyflog rhyw: secondeion cyflogedig yn gynnwysedig	2021-22		2020-21	
	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw
Cyfanswm canolrifol (£)	17.24	17.24	16.90	22.28
Cyfanswm cymedrig (£)	19.98	20.38	18.62	20.50

Dengys ein canlyniadau fod y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau o blaid dynion o 2%. Mae hyn yn golygu am bob £1.00 y mae gweithiwr benywaidd yn ei dderbyn, mae dyn yn derbyn £1.02. Gan ein bod yn cyflogi mwy o fenywod na dynion, mae gennym fwy o fenywod mewn rolau graddedig is na dynion sy'n llywio'r canlyniadau hyn, ond, mae gennym hefyd fwy o fenywod mewn rolau gradd uwch na dynion. Mae ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau wedi lleihau 9% ers y llynedd.

Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth yn y pwyntiau canol yn y tâl fesul awr i ddynion a menywod. Mae'n cael ei ystyried yn ffigwr mwy cynrychioliadol gan nad yw'n cael ei effeithio gan allgleifion h.y. llond llaw o unigolion ar frig neu waelod yr ystod. Y cyflog canolrif fesul awr ar gyfer dynion a menywod yw £17.24 ac felly, y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yw 0%.

Ardoddiad Staff

Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Ar 31 Mawrth 2022, nifer staff y Comisiynydd oedd 29 o bobl (cyfwerth ag amser llawn). Roedd cyfanswm ein Tîm cyfan yn 26 o bobl ar 31 Mawrth 2021.

Costau staff (archwiliedig)

Am y flwyddyn mae costau staff yn cynnwys;

	2021-22	2020-21
	£000	£000
Cyflogau a Thâl	1,027	834
Costau Nawdd Cymdeithasol	105	86
Costau Pensiwn	269	224
Is-gyfanswm	1,401	1,144
Secondiadau mewnol a staff asiantaeth	22	25
Cyfanswm Costau Net	1,423	1,169

Roedd nifer y personau cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys cyfarwyddwyr) am y cyfnod fel a ganlyn:

	1.4.21 hyd at 31.3.22	1.4.20 hyd at 31.3.21
	WTE	WTE
Cyflogedig Uniongyrchol	26.66	20.85
Secondeion Taledig	-	0.40
Cyfanswm	26.66	21.25

Roedd nifer y secondeion cyfwerth ag amser llawn â thâl a di-dâl ar gyfer y cyfnod fel a ganlyn:

	1.4.21 hyd at 31.3.22	1.4.20 hyd at 31.3.21
	WTE	WTE
Cyflogedig Uniongyrchol	-	0.40
Secondeion Taledig	-	-
Cyfanswm	-	0.40

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y secondeion cyfwerth ag amser llawn o'r saith sefydliad rydym wedi partneru â nhw yn ystod y cyfnod:

Sefydliad	Maes gwaith	1.4.21 hyd at 31.3.22	1.4.20 hyd at 31.3.21
		WTE	WTE
Comisiynydd Plant Cymru	Cefnogaeth Fusnes a Pholisi	-	0.40
Cyfanswm		-	0.40

Taliadau i Aelodau Pwyllgor Archwilio a Gwarantu Risg (nad yw'n agored i'w archwilio)

Mae Pwyllgor Archwilio a Gwarantu Risg y Comisiynydd yn cynnwys pum aelod annibynnol, a benodir gan y Comisiynydd. Mae aelodau'n derbyn lwfans dyddiol o £250 a'r Cadeirydd yn derbyn lwfans dyddiol o £300. Yn 2021-22 gwnaed y taliadau a ganlyn:

	1.4.21 hyd at 31.3.22	1.4.20 hyd at 31.3.21
	(£)	(£)
Alan Morris (Cadeirydd)	3,250	1,950
John Dwight	1,000	1,125
Gareth Madge	1,000	1,000
Jocelyn Davies	1,125	1,000
Jonathan Morgan	750	1,000
Fran Targett	1,000	1,000
Cyfanswm	8,125	7,075

Cyfansoddiad y staff

Rydym ni'n casglu ystadegau gweithlu o ran pob nodwedd a warchodir, fel y manylir yn y Ddeddf Gydraddoldeb 2010. Nid ydym ni'n cyhoeddi manylion llawn oherwydd natur fechan ein gweithlu a'r anhawster olynol o gynnal ein dyletswyddau i warchod anhysbysrwydd data personol sensitif, ond cyhoeddwn ryw gymaint o ddata brig y gallwch ei weld isod.

Ystadegau Rhywedd a Chyflog y Gweithlu (nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Dengys y tabl hwn gyfluniad ein holl weithlu yn ôl rhyw, band cyflog, math o gytundeb a phatrwm gweithio ar 31ain Mawrth 2022:

Lefel cyflog y flwyddyn	Amser llawn parhaol gwryw	Amser llawn parhaol benyw	Amser llawn cyfnod penodedig gwryw	Amser llawn cyfnod penodedig benyw	Amser llawn cyfnod penodedig anneauaid	Rhan amser parhaol benyw	Rhan amser cyfnod penodedig gwryw	Rhan amser cyfnod penodedig benyw	Cyfanswm
Gradd 1 £21 - 25k		1		2	1	1			5
Gradd 2 £26 - 30k	1	1	1	5					8
Gradd 3 £33 - 38k	1	2		1		1	1	1	7
Gradd 4 £40 - 45k	1		1			2			4
Gradd 5 £49 - 54k	1	3							4
Gradd 6 £60 - 65k		1							1
Comisiynydd 94k		1							1
Cyfanswm	4	9	2	8	1	4	1	1	30

Ystadegau rhywedd ein gweithlu (nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Dengys y tabl hwn 30 cyflogai ar 31 Mawrth 2022 yn ôl rhyw ynghyd â chymhariaeth yn erbyn blynyddoedd blaenorol a Phoblogaeth y Cyfrifad diweddaraf, dyddiad 2011: Cymru (3,063,456)

Rhyw	FGCW 31/03/2022	%	FGCW 31/03/2021	%	Cymru 2011	%
Gwryw	7	24	5	19	1,504,228	49
Benyw	22	73	21	81	1,559,228	51
Anneauaid	1	3	0	0		
Cyfanswm	30		26		3,063,456	

Ystadegau Oedran ein Gweithlu (nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Cyfrif pen fesul oedran ar 31 Mawrth 2022

16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65 a throsodd
4	13	9	4	0	0

Ystadegau Gweithlu a Adawodd (nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Mae 7 wedi gadael yn y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022.

- Gadawodd 4 o bobl am waith arall
- Daeth 1 contract cyfnod penodol i ben
- Gadawodd 2 berson am resymau personol

Ystadegau Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu (nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Cyfrif pen yn ôl rhyw, band cyflog, math o gytundeb a phatrwm gweithio'r aelodau tîm a gymerodd ran mewn cyfleoedd hyfforddiant a ddarparwyd yn allanol yn ystod y flwyddyn.

Lefel cyflog y flwyddyn	Amser llawn parhaol gwryw	Amser llawn parhaol benyw	Amser llawn cyfnod penodedig gwryw	Amser llawn cyfnod penodedig benyw	Amser llawn cyfnod penodedig anneauaid	Rhan amser parhaol benyw	Rhan amser cyfnod penodedig gwryw	Rhan amser cyfnod penodedig benyw	Cyfanswm
Gradd 1 £21 - 25k		1		2	1	1			5
Gradd 2 £26 - 30k	1	1		5					7
Gradd 3 £33 - 38k	1	2		1		1	1	1	7
Gradd 4 £40 - 45k	1		1			1			3
Gradd 5 £49 - 54k	1	3							4
Gradd 6 £60 - 65k		1							1
Cyfanswm	4	8	1	8	1	3	1	1	27

Cefnogwyd dau ddeg saith o bobl i gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi allanol ar draws y rhan fwyaf o raddau, rhyw a phatrymau gwaith. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys Microsoft Office 365, Cydraddoldeb a Chynhwysiant Hiliol ac I-ACT Iechyd Meddwl a Lles.

Ystadegau Gweithlu eraill (nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Mae gan 7% o'r gweithlu anabledd wedi'i ddatgelu fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn hyderus yn y wybodaeth y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu fel sefydliad i'w cefnogi yn y gwaith.

Mae 33% o'n gweithlu'n disgrifo'u hunain yn gymwys hyd at sgiliau Cymraeg canolradd.

Mae 76% o'n gweithlu yn disgrifo eu hunain fel Cymry neu Brydeinig, mae 24% o'n gweithlu yn cynrychioli cefndiroedd ethnig amrywiol eraill.

Data Absenoldeb Salwch (nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Mae ffigurau absenoldeb oherwydd salwch yn cael eu casglu, eu monitro a'u cofnodi ar gyfer aelodau tîm a gyflogir yn uniongyrchol. Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 roedd cyfartaledd o 27 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac adroddwyd bod y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn 1.4% o'r oriau oedd ar gael. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 94 diwrnod o salwch tymor byr a dim salwch tymor hir (absenoldeb yn para mwy na 4 wythnos), gan effeithio ar 19 aelod o'r tîm.

Taliadau nad ydynt ar y gyflogres (nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Nid oedd unrhyw daliadau oddi ar y gyflogres yn y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 (nil 2020-21).

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
13 Gorffennaf 2022

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan baragraff 21 o atodlen 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu sylweddol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar 31 Mawrth 2022 a'i wariant net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; a
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob agwedd faterol, cafodd gwariant ac incwm yn y datganiadau ariannol eu cymhwyso i'r pwrpasau a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail fy marn

Cynheliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU Tudalen 14 o 22 – Adroddiad Archwilio Cyfrifon a Llythyr Rheoli – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru gan gynnwys Safon foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen ar gyfer fy marn.

Casgliadau'n ymwneud â'r natur weithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad fod defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail 'busnes gweithredol' o gyfrifo am gyfnod nid llai na 12 mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynnyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio a'm hadroddiad archwilydd arno. Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf yr Wybodaeth Arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynnyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad gwarantu arnynt. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu'n ymddangos ei bod fel arall wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon wedi digwydd, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn ar bob mater arall

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf yr Adroddiad Atebolrwydd gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant sydd i'w gyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod y Datganiad Llywodraethiant wedi'i baratoi yn unol â'r arweiniad hwnnw.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethiant yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Cyflog a Thâl, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi paratoi adroddiad o'r fath ac yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Crynodeb Perfformiad a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yng nghwrs yr archwiliad, nid wyf wedi gweld camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynnyddol a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol na'r Datganiad Llywodraethiant.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol a adroddaf ger eich bron, os yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifon cywir na derbyn nodiadau digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na fu i'm tîm ymweld â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol a rhan archwiliedig yr Adroddiad Tâl a Chyflog yn gytûn â'r cofnodion a'r nodiadau cyfrifo;
- ni ddatgelir gwybodaeth a nodwyd gan Weinidogion Cymru o ran cyflog a thâl a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hagen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir yn ei sgil, am fodloni eu bod yn rhoi golwg wir a theg, ac ar gyfer unrhyw reolaeth fewnol y barn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n angenrheidiol ar gyfer galluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu yn ôl y galw, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod yn amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw sicrhau gwarant resymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae gwarant resymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu yn gyfan gwbl, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- ymholi gan reolwyr, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, y pennaeth Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth gefnogol sy'n ymwneud â pholisiau a gweithdrefnau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ymwneud â:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - datgelu ac ymateb i risgiau twyll ac a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, unrhyw amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
 - rheolau mewnol a sefydlwyd i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
- adolygu allbynnau'r Adroddiadau Archwilio Mewnol;
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddarpar arwyddwyr o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, gwelais gyfle i dwyllo yn y meysydd canlynol: datgan cyfnodolion anarferol;
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gweithio ynddynt, canolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Yn ychwanegol at yr uchod, bu i fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a adwaenwyd gynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phroffion datganiadau ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaid â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- ymholi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i drefn arferol busnes.

Yn ogystal, bu i mi gyfleu deddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i'r holl dîm archwilio a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Lleolir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

Cyfrifoldebau dros reoleidd-dra

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae gofyn i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y gwariant a'r incwm wedi cael eu cymhwyso i'r pwrpasau a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

1 Awst 2022

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardstio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifo yw cynnal cywirdeb gwefan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilydd yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.

Datganiadau ariannol

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022

		1.4.21 hyd at 31.3.22	1.4.20 hyd at 31.3.21
	Nodyn	£000	£000
Gwariant:			
Costau gweinyddol:			
Costau staff	2	1,423	1,169
Costau gweinyddol eraill	3,4	767	427
		2,190	1,596
Incwm:			
Incwm arall	8	333	214
Gwariant Net		1,857	1,382
Llog taladwy/derbyniadwy		-	-
Gwariant Net ar ôl llog		1,857	1,382

		1.4.21 hyd at 31.3.22	1.4.20 hyd at 31.3.21
	Nodyn	£000	£000
Enillion/(colled) net ar ailbrisio Offer a Chyfarpar		-	-
Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr am y cyfnod o flwyddyn		1,857	1,382

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes unrhyw enillion na cholledion heblaw'r rhai a adroddwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 150-159 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022

			2022		2021
	Nodyn		£000		£000
Asedau anghyfredol:					
Eiddo, peiriannau ac offer	4		2		0
Asedau cyfredol:					
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	5	83		33	
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	6	441		483	
			524		516
Cyfanswm asedau			526		516
Rhwymedigaethau cyfredol:					
Masnach a symiau taladwy eraill	7		(188)		(117)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			338		399
Rhwymedigaethau tymor hir:					
Darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau	9		(9)		(15)
Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau			329		384
Ecwiti trethdalwr:					
Cronfa gyffredinol			329		384

Sophie Howe,
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu
13 Gorffennaf 2022

Mae'r nodiadau ar dudalennau 150-159 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Datganiad Llif Arian ar gyfer y cyfnod
01 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022

		1.4.21 hyd at 31.3.22	1.4.20 hyd at 31.3.21
	Nodyn	£000	£000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant Net		(1,857)	(1,382)
Addasiad ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod	3,4	1	3
(Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	5	(50)	10
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy	7	71	(36)
Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth	9	(6)	10
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu		(1,841)	(1,395)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	4	(3)	-
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(3)	-
All-lif arian parod net		(1,844)	(1,395)
Llif arian o weithgareddau ariannu		-	-
Ariannu Net		1,802	1,509
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod	6	(42)	114
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod		483	369
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod		441	483

Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer
y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022

		1.4.21 hyd at 31.3.22	1.4.20 hyd at 31.3.21
	Nodyn	£000	£000
Y balans ar 1 Ebrill 2021		384	257
Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2021-22			
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		1,802	1,509
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		(1,857)	(1,382)
Balans ar 31 Mawrth 2022		329	384

Nodiadau i'r cyfrifon

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar gyfer y cyfnod o ddeuddeng mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol y Comisiynydd at ddiben rhoi darlun cywir a theg wedi'i ddewis. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Disgrifir y polisiau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd ar gyfer fy swyddfa isod.

1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol oherwydd, yn fy marn i, ystyrir bod effaith ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r sefydliad drwy gyfeirio at eu cost gyfredol yn ansylweddol.

1.2 Ariannu

Prif ffynhonnell cyllid fy swyddfa yw Llywodraeth Cymru drwy grant blynnyddol, sy'n cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol pan ddaw'r grant i law. Cesglir arian hefyd o ffioedd ar gyfer cymorth, cyngor a chymorth a ddarperir gennyf i a'm tîm o dan swyddogaethau'r Comisiynydd Adran 19 a) d) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

1.3 Eiddo, peiriannau ac offer

Mae'r holl asedau anghyfredol wedi'u prisio ar sail cost hanesyddol (gweler 1.1 uchod). Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol yw £2,500. Mae niferoedd mawr o'r un math o ased wedi'u grwpio gyda'i gilydd wrth benderfynu a oeddent yn uwch neu'n is na'r trothwy.

1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau anghyfredol drwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, fel a ganlyn:

■ Offer TGCh 3 blynedd

■ Dodrefn 3 blynedd

Codir dibrisiant blwyddyn lawn ym mlwyddyn y caffaeliad.

1.5 Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Incwm a gwariant gweithredu yw'r hyn sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu fy swyddfa. Mae'n cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn. Mae'r holl wariant yn cael ei ddosbarthu fel gwariant gweinyddol.

1.6 Treth ar Werth

Nid yw fy swyddfa wedi'i chofrestru ar gyfer TAW. Rhoddir cyfrif am wariant a phryniannau asedau sefydlog ar gyfer TAW yn gynwysedig, gan fod TAW yn anadferadwy.

1.7 Pensiynau

Mae fy staff yn cael eu cynnwys yn gyffredinol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Mae cost elfen buddion diffiniedig y cynllun yn cael ei chydabod ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n cael budd o wasanaethau gweithwyr drwy dalu symiau i'r PCSPS a gyfrifwyd ar sail gronol. Mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn dâl ar y PCSPS. Mewn perthynas ag unrhyw gynllun cyfraniadau diffiniedig, mae fy swyddfa yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn dalu.

1.8 Prydlesi

Mae prydlesi asedau lle mae fy swyddfa'n ysgwyddo'r holl risgiau a gwobrau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth ased ar brydles i bob pwrpas yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Nid oes gan fy swyddfa unrhyw brydlesi cyllid.

Codir rhenti prydlesau gweithredol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

1.9 Adrodd segmentol

Mae fy swyddfa yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig yn adlewyrchu'r segmentau yr adroddir ar y canlyniadau gweithredu ynddynt.

1.10 Costau staff

Mae fy nghyfrifon yn darparu ar gyfer absenoldebau tymor byr a ddigolledwyd megis gwyliau blynnyddol nas cymerwyd ar ddiwedd y flwyddyn yn unol ag IAS19.

1.11 Darpariaethau

Mae fy nghyfrifon yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu gytundebol sydd ag amseriad neu symiau ansicr ar ddyddiad y fantolen, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth.

1.12 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae fy swyddfa'n dal arian parod sy'n cael ei adneuo mewn cyfrif o fewn Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl ei dderbyn. Nid oes gan fy swyddfa unrhyw arian mân.

2. Costau staff

Am y flwyddyn mae costau staff yn cynnwys:

	2021-22	2020-21
	£000	£000
Cyflogau a Chyflogau	1,027	834
Costau Nawdd Cymdeithasol	105	86
Costau Pensiwn	269	224
Is-gyfanswm	1,401	1,144
Secondiadau mewnol a staff asiantaeth	22	25
Cyfanswm Costau Net	1,423	1,169

3. Costau gweinyddol eraill

	1.4.21 hyd at 31.3.22		1.4.20 hyd at 31.3.21	
	£000	£000	£000	£000
3.1 Costau gweinyddol:				
Mangre	40		52	
Swyddfeydd	207		147	
Hyfforddiant a recriwtio	37		15	
Teithio a Chynhaliaeth	21		0	
Tâl yr archwilydd allanol	23		16	
Tâl yr archwilydd mewnol	11		12	
Offer TGCh	66		44	
Gwaith prosiect	352		128	
		757		414
3.2 Eitemau nad ydynt yn arian parod:				
Tâl dibrisiant ar asedau cyffredin	1		3	
Colled wrth waredu asedau sefydlog			-	
Darpariaeth ar gyfer Dadfeiliadau	9		10	
		10		13
		767		427

4. Eiddo, peiriannau ac offer

	Offer TGCh	Dodrefn ac Offer Swyddfa	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Cost			
Ar 1 Ebrill 2021	39	2	41
Ychwanegiadau	3	-	3
Gwarediadau	7	-	7
Ar 31 Mawrth 2022	35	2	37
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2021	39	2	41
Tâl a godir yn y flwyddyn	1	-	1
Gwarediadau	7	-	7
Ar 31 Mawrth 2022	33	2	35
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2021	-	-	-
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022	2	-	2

5. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

	31.03.22	31.03.21
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	64	12
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	19	21
Ased contract	-	-
	83	33

Mae nodyn 8 yn cynnwys gwybodaeth am ased y contract.

7. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	31.03.22	31.03.21
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau masnach taladwy	67	2
Croniadau	64	77
Atebolrwydd contract	57	38
	188	117

Mae nodyn 8 yn cynnwys gwybodaeth am rhwymedigaeth y contract.

6. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

	31.03.22	31.03.21
	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2021	483	369
Newid net mewn arian parod a balansau arian parod cyfatebol	(42)	114
Balans ar 31 Mawrth 2022	441	483
Roedd yr holl falansau ar 31 Mawrth 2022 yn cael eu dal mewn cyfrif o fewn Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.		

8. Incwm arall, asedau contract a rhwymedigaethau

Cynhyrchwyd incwm arall o ddarparu cyngor, cefnogaeth a chymorth ac mae wedi'i ddatgelu yn unol â gofynion IFRS 15.

Incwm arall

		2021-22		2020-21	
Manylion	Incwm arall oddi wrth:	Swm (£000)	Cyfanswm (£000)	Swm (£000)	Cyfanswm (£000)
Cyfraniad i brosiectau ar y cyd	Llywodraeth Cymru	172	190	67	80
	Iechyd Cyhoeddus Cymru	18		13	
Cyfraniad i Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol	Llywodraeth Cymru: Cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang 2021-22	18	88	-	71
	Llywodraeth Cymru	13		-	
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	7		-	
	Cyfoeth Naturiol Cymru	7		7	
	Ove Arup and Partners International Ltd	7		5	
	Trafnidiaeth Cymru	7		7	
	Prifysgol De Cymru	7		5	
	Iechyd Cyhoeddus Cymru	5		7	
	BBC Home Services	5		7	
	Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru	5		4	
	Costain	4		4	
	Capital Law	3		-	
	Senedd Cymru	-		7	
	Canolfan Mileniwm Cymru	-		7	
	Celsa	-		4	
	Principality	-		4	
	Scouts Cymru	-		3	
Secondiadau allan	Cyngor Caerdydd	52	52	17	61
	Llywodraeth Cymru	-		41	
	Comisiynydd Plant Cymru	-		3	
Incwm amrywiol arall	Llenyddiaeth Cymru a 3 sefydliad arall	2	2	-	-
Honorariwm	Universitat Ulm a 5 sefydliad arall	1	1	-	-
Grant prosiect (incwm o'r UE)	Swyddfa Eiriol Masnach Deg	-	-	2	2
Cyfanswm (£000)		333	333	214	214

Asedau Contract

	2021-22		2020-21	
	Refeniw a gydnabyddir yn y cyfnod cyfrifo	Refniw a ddisgwyllir i'w gael ei gydnabod o fewn y flwyddyn ariannol nesaf	Refeniw a gydnabyddir yn y cyfnod cyfrifo	Refniw a ddisgwyllir i'w gael ei gydnabod o fewn y flwyddyn ariannol nesaf
	£000	£000	£000	£000
Llywodraeth Cymru: estyniad contract secondiad am 12 mis (Ionawr 2020 - Ionawr 2021, cyfanswm y contract £61k). Daeth yr estyniad i ben ym mis Tachwedd 2020 cyn dyddiad gorffen y contract gwreiddiol. £41k yn cael ei gydnabod fel refeniw yn 2020-21.	-	-	41	-
Cyfanswm	-	-	41	-

Rhwymedigaethau Contract

	2021-22		2020-21	
	Refeniw a gydnabyddir yn y cyfnod cyfrifo	Refniw a ddisgwyllir i'w gael ei gydnabod o fewn y flwyddyn ariannol nesaf	Refeniw a gydnabyddir yn y cyfnod cyfrifo	Refniw a ddisgwyllir i'w gael ei gydnabod o fewn y flwyddyn ariannol nesaf
	£000	£000	£000	£000
Academi Arweinyddiaeth FG 2.0 (2021/22): Cyfraniadau Partneriaid (£145k wedi'i anfonebu yn 2021-22)	88	57	-	-
Llywodraeth Cymru: cyllid ar gyfer Cynllun Gweithredu Cenedl sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang 2020-21 (cyfanswm contract £98k)	31	-	67	31
Iechyd Cyhoeddus Cymru: cyfraniad at gynllun gwaith ar y cyd (cyfanswm contract £10k)	2	-	8	2
Iechyd Cyhoeddus Cymru: cyfraniad at brosiect ymchwil (cyfanswm contract £10k)	5	-	5	5
Academi Arweinyddiaeth FG (2019-20): cyfraniad i Academi Arweinyddiaeth FG (cyfanswm contract o £121k. Cydnabuwyd £50k fel refeniw yn 2019/20)	-	-	71	-
Cyfanswm	126	57	151	38

9. Darpariaeth ar gyfer Dadfeiliad

	31.03.22	31.03.21
	£000	£000
Y balans ar 1 Ebrill 2021	15	5
Defnydd o ddarpariaeth	(15)	-
Darpariaeth yn ystod y flwyddyn	9	10
Y balans ar 31 Mawrth 2022	9	15

10. Ymrwymadau o dan brydlesi

Roedd y Comisiynydd wedi ymrwymo i wneud y taliadau a ganlyn mewn perthynas â phrydlesau gweithredu sy'n dod i ben

	2021-22		2020-21	
	£000		£000	
	Tir ac Adeiladau	Arall	Tir ac Adeiladau	Arall
Rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu:				
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	10	-	40	-
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	-	-	-	-
Yn ddiweddarach na phum mlynedd	-	-	-	-
	10	-	40	-

Swm y taliadau les a gydnabyddir ar gyfer y cyfnod cyfrifo hwn yw £42,849 (£53,924 yn 2020-21).

11. Offerynnau ariannol

Mae IFRS7, Offerynnau Ariannol, yn ei gwneud yn ofynnol datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol fy ngweithgareddau a'r ffordd y caiff fy ngweithrediadau eu hariannu, nid yw fy Swyddfa yn agored i'r graddau o risg ariannol a wynebwr gan endidau busnes. At hynny, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan lawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS7 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gennyf i fenthycu neu fuddsoddi arian dros ben a chynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac ni chânt eu dal i newid y risgiau a wynebwr wrth ymgymryd â gweithgareddau.

Risg hylifedd

Ariennir gofynion refeniw net ac adnoddau cyfalaf fy Swyddfa gan Lywodraeth Cymru.

Felly nid yw fy Swyddfa yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

Risg cyfradd llog

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa yn agored i risgiau cyfradd llog.

Risg Arian Tramor

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa yn agored i risgiau arian tramor.

Gwerthoedd teg

Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa ar 31 Mawrth 2022.

12. Ymrwymadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2022 (31 Mawrth 2021 – nil).

13. Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rhwymedigaethau wrth gefn ar 31 Mawrth 2022 (31 Mawrth 2021 – nil).

14. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Derbyniodd fy swyddfa ei phrif ffynhonnell gyllid gan Lywodraeth Cymru (£1,802 miliwn ar gyfer 2021-22 a £1,509 miliwn ar gyfer 2020-21). Derbyniodd fy swyddfa hefyd incwm arall o £203k ynghyd â gwariant o £1k gyda Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol (incwm £108k, gwariant nil yn y cyfnod cyfrifo blaenorol).

Mae cyflogres fy swyddfa yn cael ei rhoi ar gontract allanol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) a bu nifer fach o drafodion perthnasol yn ystod y cyfnod, yn ymwneud â gweithredu'r gyflogres a phensiynau, gyda'r Ombwdsmon, Cyllid a Thollau EM a Swyddfa'r Cabinet.

Mae Nodyn 8 yn rhoi dadansoddiad o'r incwm a dderbyniwyd gan sefydliadau eraill mewn cysylltiad â gwaith fy Swyddfa. Nid oedd unrhyw drafodion materol gyda sefydliadau lle'r oedd uwch staff, neu unrhyw un o'u teuluoedd, mewn swyddi dylanwadol.

15. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol a'r dyddiad y llofnodwyd y cyfrifon sy'n effeithio ar y datganiadau hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 13 Gorffennaf 2022 gan Sophie Howe



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



**Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru**

Tramshed Tech
Stryd Pendyris
Caerdydd CF11 6BH

cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

www.cenedlaethaurdyfodol.cymru